

Dull Gwella: Adroddiad Gwerthuso

Hallett, S., Deerfield, K., a Hudson, K.
Ebrill 2020

Prifysgol Caerdydd

Cydnabyddiaethau

Roedd y gwerthusiad hwn yn rhan o brosiect a gynhelir mewn partneriaeth â Barnardo's Cymru. Caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy gronfa Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ariannu'r prosiect hwn.

Rydym yn ddiolchgar i Barnardo's Cymru, yr asiantaeth arweiniol, am gydweithio â ni trwy gydol cyfnod prosiect Gwella, ac yn ein gwerthusiad o ddull Gwella. Hoffem ddiolch i'r bobl ganlynol yn benodol: Pat Duke, Ceri Evans, a holl ymarferwyr Gwella a'r cyfranogwyr eraill sy'n gysylltiedig â Gwella. Diolch i Dr Sam Clutton hefyd am eich gwaith ar y bartneriaeth wreiddiol ar gyfer y prosiect a'r cais am arian, ac i Menna Thomas am eich rôl yn y bartneriaeth barhaus.

Diolch i'r holl blant, rhieni a gofalwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn. Rydym mor ddiolchgar i chi am adael i ni ddod i'ch cartrefi, am eich amser, ac am rannu eich storïau a'ch safbwyntiau (yn ogystal â lluniau a gwaith celf) gyda ni.

Diolch i'r llu o weithwyr proffesiynol a gytunodd i gymryd rhan yn y gwerthusiad hwn. Rydym yn ddiolchgar am eich amser ac am rannu eich barn gyda ni.

Diolch i'r Athro Tony Beech am ei waith ar yr adolygiad cyflym, ac i Dr Jennifer Lyttleton-Smith am ei chyfraniad at y gwaith mapio systematig. Mae prif ganfyddiadau'r gwaith hwn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Hoffem ddiolch hefyd i Asma Kahn o Total Transcriptions; Louisa Roberts yn CASCADE; ac i Zoe Wrigley am eich help wrth gasglu'r data. Diolch yn fawr i Dr Greg Hall am gynnal adolygiad gan gymheiriaid o fersiwn ddrafft yr adroddiad hwn.

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad a throsolwg	5
1.1 Cefndir	5
1.1.1 Rhagdybiaeth a sylfaen dystiolaeth	6
1.1.2 Crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil	8
1.1.3 Symud ymlaen i ddull newydd o ymarfer	9
Adran 2. Prosiect a dull ymarfer Gwella	9
2.1 Prosiect Gwella	9
2.2. Prif egwyddorion dull ymarfer Gwella	10
2.3 Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer Prosiect Gwella a'r dull	11
Adran 3: Dyluniad a methodoleg yr ymchwil	13
3.1 Dyluniad yr ymchwil	13
3.1.1 Gwerthuso'r broses	14
3.1.2 Gwerthusiad o'r deilliannau	14
3.2 Methodoleg, samplu a chasglu data	15
3.2.1 Tîm Gwella	15
3.2.2 Rhieni, gofalwyr a phlant	15
3.2.3 Cynnwys plant drwy ddulliau creadigol ar sail chwarae oedd yn rhoi'r plentyn yn gyntaf	16
3.2.4 Gweithwyr proffesiynol oedd yn gysylltiedig â Gwella	17
3.2.5 Data ffeiliau achosion	18
3.2.6 Storio data	18
3.3. Dadansoddi data ansoddol	19
3.4. Nodyn am gyflwyno data a chanfyddiadau	19
Adran 4: Trefnu a rhoi ar waith	19
4.1 Hyd a chwmpas y prosiect	20
4.2 Tîm Gwella	21
4.2.1 Demograffeg ac arbenigedd yr ymarferwyr	21
4.2.2 Absenoldebau a newidiadau i staff	23
4.3 Daearyddiaeth a lleoliad	24
4.4 Rheoli llinell, goruchwyliaeth a chefnogi timau	25
4.4.1 Rheoli llinell	25
4.4.2 Cefnogaeth gan gymheiriaid	25
4.5 Cefnogaeth seicolegol/clinigol	26
4.6 Hyfforddiant a meithrin gallu	27
4.7 Meini prawf cyfeirio	29
4.7.1 Plant mewn gofal maeth	30
4.7.2 Plant ag anawsterau dysgu	31
4.8 Y broses gyfeirio	32
4.3.8 Cynnwys rhieni, gofalwyr a phlant	32

4.9 Asesu	34
4.10 Cofnodi	34
4.10.1 Natur y cofnodi	35
4.10.2 Cofnodi fel ymarfer myfyriol	36
Adran 5: Cyflwyno'r prosiect	37
5.1 Y plant a'r teuluoedd oedd yn gysylltiedig â Gwella	37
5.2 Hyd yr ymyriad	38
5.2.1 Pwysigrwydd amser	38
5.2.2 Dod â'r gefnogaeth i ben	40
5.3 Logisteg cyflwyno	41
5.4 Y dull ar waith - cydweithio ag asiantaethau allanol	43
5.4.1 Integreiddio â chynlluniau sy'n bodoli eisoes	43
5.4.2 'Ffurio achos' ac asesu	46
5.5 Y dull ar waith – cynnwys plant, rhieni a gofawyr	48
5.5.1 Natur beilot yr ymyriad	49
5.5.2 Natur hyblyg yr ymyriad a arweinir gan anghenion	51
5.5.3 Ffocws yr ymyriad: dull perthynol sy'n ystyried materion trawma ac yn seiliedig ar chwarae o weithio gyda phlant a theuluoedd.	52
5.5.4 Gwahaniaethau rhwng prosiect Gwella a mathau eraill o gefnogaeth	53
5.6 Deilliannau	55
5.6.1 Deilliannau a gofnodwyd	55
5.6.2 Anawsterau wrth gofnodi effaith	56
5.6.3 Effeithiau a deilliannau a adroddwyd – rhieni a gofawyr sy'n perthyn	57
5.6.4 Effeithiau a deilliannau a nodwyd – gofawyr maeth	59
5.6.5 Effeithiau a deilliannau a nodwyd – plant	60
5.6.6 Effeithiau a deilliannau a nodwyd – asiantaethau allanol	60
5.6.7 Crynodeb o'r deilliannau	62
5.7 Dwy astudiaeth achos	63
Adran 6. Beth yw ymyriad Gwella, a sut gellir ei gyflwyno'n effeithiol?	65
6.1 Ymyriad Gwella ar waith	65
6.2 Fframio'r ymyriad	66
6.3 Ystyriaeth o'r egwyddorion y tu ôl i ddull Gwella	66
6.4 Prif negeseuon o werthusiad y broses	67
Adran 7. Beth yw deilliannau cynllun ymyrryd Gwella i blant a theuluoedd, a beth yw 'gwerth ychwanegol' y prosiect?	70
7.1 Prif ganfyddiadau: deilliannau	70
7.2 Sut mae Gwella wedi 'ychwanegu gwerth' at y system o gwmpas y plentyn?	71
Atodiad 1: Deilliannau a gofnodwyd	74

Adran 1: Cyflwyniad a throsolwg

Roedd prosiect Gwella yn beilot ar gyfer dull Gwella. Cynllun ymyrryd oedd hwn a gafodd ei ddatblygu a'i gynnal gan Barnardo's Cymru ar draws gogledd a de Cymru, a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Crëwyd y cynllun ymyrryd i gefnogi plant rhwng 5 ac 11 oed oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol ac wedi cael profiad o drawma a cham-drin. Ei nod oedd cynnig system o weithwyr proffesiynol cefnogol o'u cwmpas oedd yn ymwybodol o faterion trawma, a gwella eu perthynas â'u prif ofalwyr. Y bwriad oedd cyflawni hyn drwy drefnu i ymarferydd Gwella weithio gyda phlentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn wythnosol dros gyfnod o 12 mis; byddai eu gwaith yn canolbwyntio ar weithgareddau chwarae sy'n seiliedig ar berthnasoedd. Ar yr un pryd, byddai'r ymarferydd yn gweithio gyda rhieni, gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol o gwmpas y plentyn er mwyn meithrin dealltwriaeth o effaith y trawma a'r cam-drin ar ymddygiad y plentyn, eu hanghenion cymorth, a helpu i wneud y ddarpariaeth gyfredol yn 'ymwybodol o faterion trawma'.

Dechreuodd 'blwyddyn un' y prosiect ym mis Gorffennaf 2017 ac fe barodd am 17 mis. Rhoddodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol i ariannu'r prosiect am 12 mis arall wedi hynny. Dechreuodd ail flwyddyn y cynllun ym mis Ionawr 2019 ac roedd yr holl achosion wedi'u cwblhau erbyn wythnos gyntaf mis Chwefror 2020. Cafodd 31 o blant a'u rhieni a'u gofalwyr eu cefnogi drwy'r prosiect hwn.

Dechreuodd y gwerthusiad ar ddechrau'r prosiect a pharhaodd nes i'r prosiect ddod i ben. Cafodd ei gynnal ar ffurf gwerthusiad o'r 'broses' drefniadol yn ogystal â gwerthusiad o 'ddeilliannau', ac roedd pwyslais amlwg ar ddogfennu profiadau pawb oedd yn gysylltiedig â'r prosiect. Roedd dyluniad yr ymchwil yn seiliedig ar ddulliau creadigol er mwyn i blant allu cymryd rhan. Ceisiodd ateb dau gwestiwn ymchwil: 1) beth yw cynllun ymyrryd Gwella, a sut gellir ei gyflwyno'n effeithiol?; a 2) beth yw deilliannau cynllun ymyrryd Gwella i blant a theuluoedd, a beth yw 'gwerth ychwanegol' y prosiect? Mae'r gwerthusiad hwn yn trafod dadansoddiad o

ymchwil gyda thîm Gwella, rhieni a gofalwyr, arbenigwyr ymgynghorol plant, a gweithwyr proffesiynol allanol o feysydd gofal cymdeithasol ac addysg.

1.1 Cefndir

Mae dull a phrosiect Gwella yn rhan o 'Gwella': prosiect ymchwil ac ymarfer arloesol pedair blynedd o hyd a ariennir gan Lywodraeth Cymru a gynhelir mewn partneriaeth rhwng Barnardo's Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Nod cyffredinol 'Gwella' oedd lleihau'r risg o blant a phobl ifanc yn dioddef Camfanteisio Rhywiol (CSE) neu'n dangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB). Gwneir hyn drwy ddatblygu model atal i'w ddefnyddio ym maes Gofal Cymdeithasol, er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc ac ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014). Dyma oedd y deilliannau cysylltiedig ar gyfer prosiect Gwella:

- ➔ Cynyddu capasiti/cynnig model ymarfer ar sail tystiolaeth ar gyfer gweithlu aml-asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd fel eu bod:
- 1. yn gallu adnabod ac ymateb i drawma a cham-drin cyn gynted â phosibl yn ystod plentyndod er mwyn lleihau'r perygl o CSE neu HSB ymysg plant hŷn; ac
- 2. yn gallu gwybod pryd mae cyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol yn briodol ai peidio.

Er mwyn cyflawni hyn, dyma oedd ymrwymiadau perthnasol pob sefydliad:

- ➔ Byddai Barnardo's yn datblygu ac yn peilotu dull arloesol o atal ac ymyrryd yn gynnar fel bod pobl ifanc yn llai tebygol o ddioddef Camfanteisio'n Rhywiol pan yn Blant (CSE) neu Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB).
- ➔ Byddai Prifysgol Caerdydd yn cynnal ymchwil academaidd a gwerthusiad o'r model peilot. Diben hyn fyddai creu pecyn ymyrraeth gynnar ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau statudol ac ataliol ar gyfer plant a theuluoedd.

1.1.1 Rhagdybiaeth a sylfaen dystiolaeth

Daeth y rhagdybiaeth wreiddiol ar gyfer 'Gwella' o ddwy ddamcaniaeth gan Barnardo's: 1) bod cysylltiad rhwng trawma yn ystod plentyndod, CSE a HSB; a 2) bydd cefnogaeth i blentyn yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn eu gwneud yn llai tebygol o gael eu cam-drin yn rhywiol, a/neu ddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Fe wnaeth y ddwy ddamcaniaeth hyn lywio pedwar maes ymchwil a chynhyrchu gwaith a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd ym mlwyddyn un 'Gwella'. Roedd y rhain yn cynnwys:

3. adolygiad o lenyddiaeth oedd yn edrych ar y berthynas rhwng trawma yn ystod plentyndod, camfanteisio ar blant yn rhywiol, ac Ymddygiadau Rhywiol Niweidiol;
4. ymarfer mapio sy'n edrych ar y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru o ran adnabod ac ymateb i blant sydd wedi profi trawma a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol peryglus.
5. dadansoddi data a gedwir gan wasanaethau CSE a HSE Barnardo's, gan wneud cyfraniad gwreiddiol at y wybodaeth gyfredol a gynhyrchwyd drwy elfennau eraill o'r ymchwil i raglen Gwella ac er mwyn ei hategu.
6. ymarfer mapio systematig er mwyn creu 'map' cynhwysfawr o'r llenyddiaeth sydd ar gael mewn cysylltiad ag ymyriadau, ymatebion a dulliau gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd 'mewn perygl', yn unol â'r prif beryglon sy'n gysylltiedig â CSE a HSB.

Crynohoir y canfyddiadau fel a ganlyn:

Adolygiad o'r llenyddiaeth - y cysylltiadau rhwng trawma yn ystod plentyndod, CSE a HSB

Ceir tystiolaeth o'r cysylltiadau rhwng trawma yn ystod plentyndod, CSE a HSB yn y llenyddiaeth. Daw'r rhain i'r amlwg yn y cyfraddau uchel o drawma blaenorol mewn astudiaethau o CSE a HSB a thrwy'r dyblygu a'r tebygrwydd disgrysiol (h.y. sut mae'r rhain yn cael eu diffinio a'u deall) yn y modd yr ystyrir y pynciau hyn mewn ymchwil. Mae'r llenyddiaeth yn ategu nod Gwella o edrych ar anghenion cefnogi plant a phobl ifanc mewn modd cyfannol, p'un a yw'r pryder yn ymwneud â CBE neu HSB ai peidio. Ar yr un pryd, mae'r ymchwil yn

cynnig digonedd o dystiolaeth o ba mor angenrheidiol yw dulliau o'r fath a pha mor aml maen nhw'n absennol. Mae canfyddiadau pwysig o'r adolygiad o lenyddiaeth yn cynnwys:

- ➔ Mae'r meysydd eu hunain, yn enwedig CSE a HSB, yn rhai anodd i'w hymchwilio oherwydd yr ansicrwydd ynghylch diffiniadau a newidiadau sylweddol mewn dealltwriaeth broffesiynol dros amser;
- ➔ Ar yr un pryd, mae HSB a thrawma yn enwedig yn seiliedig ar ymchwil gynharach sydd ag elfennau sy'n peri problemau o ran methodoleg (neu elfennau o fethodoleg yr ymchwil), ac nid yw'r rhain wedi'u datrys yn llawn yn y llenyddiaeth;
- ➔ Yn benodol, ceir gwybodaeth aneglur ac anghyson am ymddygiad rhywiol amhriodol i blant a phobl ifanc, a cheir anghytuno o fewn y gymuned broffesiynol ynghylch beth mae hynny'n ei olygu;
- ➔ Mae'r sylfaen dystiolaeth yn ategu'r cysylltiadau rhwng trawma, CSE a HSB. Fodd bynnag, mae cymeriad a chwmpas y cysylltiadau hyn yn amrywio yn y llenyddiaeth;
- ➔ Mae cam-drin rhywiol, yn fwy nag unrhyw fath arall o gam-drin neu brofiad trawmatig, yn gysylltiedig â HCB a CSE. Ceir rhagdybiaeth yn yr ymchwil y bydd CSA (yn fwy nag unrhyw fath arall o gam-drin) yn *arwain yn uniongyrchol at* CSE a/neu HSB. Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth yn yr un ymchwil sy'n gwneud honiadau o'r fath i ategu'r dehongliad hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl honni mai CSA yw'r math o gam-drin sydd a'r cysylltiad cryfaf â CSE a HSB.

I gloi felly, mae canfyddiadau'r adolygiad cwmpasu yn cyd-fynd â nod Gwella o wella dealltwriaeth a chefnogi ymyriadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef trawma.

Y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Cynhaliwyd ymarfer mapio i gasglu gwybodaeth am wasanaethau cyfredol sy'n gweithio ym meysydd CSE a HSB ledled Cymru. Dangosodd canlyniad yr ymarfer mapio bod darpariaeth yn amrywio ar draws meysydd gwasanaeth ac, yn benodol, bod dryswch ynghylch y trothwy ar gyfer cyfeirio at wasanaethu, yn enwedig ar

gyfer HSB. Yn ôl y disgwyl, o bosibl, mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryderon ynghylch diffyg arian ar gyfer gwasanaethau. Cafwyd pryderon hefyd ynghylch y diffyg hyfforddiant pwrpasol ar gyfer nodi ac ymateb i blant a phobl ifanc drwy CSE neu blant a phobl ifanc sy'n dangos HSB.

Dadansoddiad o ddata defnyddwyr gwasanaethau

Dadansoddwyd 1550 o achosion a gyfeiriwyd rhwng 2014 a 2017 ar draws cronfa ddata gwasanaeth CSE Barnardo's (n = 1319 achos) a chronfa ddata eu gwasanaeth HSB (n = 231 achos). Roedd modd i ni edrych ar y nodweddion demograffig a'r hanes o gam-drin ar draws y ddwy garfan, a daeth y canlynol i'r amlwg¹:

- ➔ Roedd mwyafrif y plant a phobl ifanc ar gyfer y ddau wasanaeth rhwng 12 a 17 oed. Roedd 90.1% o'r plant a phobl ifanc a gyfeiriwyd at y gwasanaeth CSE rhwng 12 a 17 oed. O gymharu â hynny, roedd poblogaeth lawer iawn iau yn gysylltiedig â'r gwasanaeth HSB gyda bron traean (30.1%) o dan 12 oed. Gan mai'r dyddiad cyfeirio yn unig y mae'r data hwn yn ei roi, ni wyddwn beth oedd oedran y plant pan fynegwyd pryderon ynghylch CSE neu HSB am y tro cyntaf;
- ➔ Merched (83.2%) oedd mwyafrif y rhai a gyfeiriwyd oherwydd pryderon yn ymwneud â CSE, a bechgyn (87.4%) oedd mwyafrif y rhai a gyfeiriwyd oherwydd pryderon ynghylch HSB, gan olygu bod cymhareb rhywedd y ddwy garfan bron yn gwbl groes i'w gilydd;
- ➔ Mae'r data yn dangos patrwm cymharol debyg o drawma a cham-drin blaenorol a gafodd plant a phobl ifanc sydd naill ai'i cael profiad o CSE neu'n dangos HSB;
- ➔ Roedd 56.6% yn y garfan CSE a 60.2% o'r garfan HSB wedi cael profiad o gam-drin/esgeuluso emosiynol; ac roedd 28.4% yn y garfan CSE a 32.5% o'r garfan HSB wedi cael profiad o gam-drin rhywiol;
- ➔ Yn benodol, mae canran y plant a phobl ifanc sydd â hanes teuluol o drais domestig bron yr un fath ar

draws y ddwy garfan: 46.9% ar gyfer CSE a 46.3% ar gyfer HSB;

- ➔ Mae'r profiad o gam-drin corfforol rywfaint yn uwch ar gyfer plant a phobl ifanc yn y gwasanaeth HSB (36.4% o'i gymharu â 29.1% yn y gwasanaeth CSE).

Mae'r cyfraddau cyffredinol uchel hyn o brofiadau o gam-drin yn ategu nod Gwella i gefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar.

Mapio systematig

Diben yr ymarfer mapio systematig oedd creu 'map' cynhwysfawr o'r llenyddiaeth sydd ar gael mewn cysylltiad ag ymyriadau, ymatebion a dulliau gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd 'mewn perygl', yn unol â'r prif beryglon sy'n gysylltiedig â CSE a HSB. Yn wahanol i'r adolygiad cwmpasu o lenyddiaeth a amlinellwyd uchod, diben ymarfer mapio systematig o lenyddiaeth ymchwil yw llywio ymarfer ac edrych yn benodol ar p'un a yw ymarfer cyfredol yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol a phriodol. Ar ben hynny, yn wahanol i'r adolygiad systematig mwy cyffredinol o lenyddiaeth, mae mapio llenyddiaeth yn systematig yn fodd o adolygu llawer iawn o lenyddiaeth mewn cyfnod byr, gan roi trosolwg o'r maes astudio. Mae'r weithdrefn fapio systematig a ddatblygwyd gan SCIE yn cymryd llawer iawn llai o amser (mae adolygiad systematig yn para rhwng 12 a 24 mis a rhaid iddo gael ei gynnal gyda thim o ymchwilwyr) ac mae'n fwy addas ar gyfer maes bach lle ceir llawer o astudiaethau ansoddol sy'n amrywio o ran cwmpas (SCIE 2009). Roedd adolygiad systematig Gwella yn cynnwys yr holl ymchwil oedd wedi'i chofnodi yn y cronfeydd data amlycaf a ddefnyddir mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol² oedd yn cyd-fynd â'n meini prawf o ran ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-fanteisio ar blant yn rhywiol. Heb gynnwys cyhoeddiadau y cafwyd gwared arnynt cyn adolygu oherwydd perthnasedd (N= 879) a'r rheiny y cafwyd gwared arnynt ar ôl adolygu oherwydd perthnasedd neu fath o gyhoeddiad (N=343), roedd y map yn y pen draw yn cynnwys 231 o brif gyhoeddiadau academiaidd, polisi ac ymarfer a ddadansoddwyd yn drylwyr. Gyda'i gilydd rydym yn nodi:

¹ Mae rhagor o wybodaeth am y dadansoddiad hwn ar gael yn Hallett, S., Deerfield, K., a Hudson, K. (2019) The Same but Different? Exploring the Links between Gender, Trauma, Sexual Exploitation and Harmful Sexual Behaviours. *Child Abuse Review*, 28: 442– 454.

² Roedd y cronfeydd data a chwiliwyd yn cynnwys Scopus, Sociological Abstracts, SSA, PsycInfo, SCO, ASSIA, IBSS, ac ERIC.

- ➔ Un o gyfyngiadau'r dull mapio systematig yw ei bwyslais gormodol ar ymchwil academiaidd ar draul ymchwil polisi ac sy'n seiliedig ar ymarfer. Er bod ymchwil ychwanegol yn ôl pob tebyg i ymyriadau yng nghyd-destun polisiâu ac ymarfer, cyhoeddiadau academiaidd yw canlyniadau'r map systematig yn bennaf. Daethpwyd o hyd i dystiolaeth brin o werthusiadau ffurfiol o wasanaethau hefyd yn yr ymarfer mapio.
- ➔ Roedd y cyhoeddiadau wedi'u codio hefyd yn erbyn meini prawf gan gynnwys: nodweddion yr unigolion megis oed a rhywedd; manylion am y math o astudiaeth a'r fethodoleg; i ba raddau mae defnyddiwr y gwasanaeth a'r ymarferydd yn cymryd rhan, ac ati. Mae'r dadansoddiad o'r data hwn yn dangos y ceir mathau penodol o astudiaethau. Roedd y rhain yn cynnwys ymchwil ddisgrifiadol, archwiliadol yn hytrach na gwerthusiadau trefnus, treialon ar hap a reolir, astudiaethau hydredol neu dulliau ansoddol eraill³.
- ➔ Roedd y rhan fwyaf o gyhoeddiadau'n sôn am ymchwil nad oedd yn ymwneud rhyw lawer, os o gwbl, â phlant, pobl ifanc, defnyddwyr gwasanaethau eraill neu ymarferwyr fel cyfranogwyr yn y gwasanaethau neu'r ymchwil. Nid oedd 20.35% yn gysylltiedig â nhw o gwbl, a dim ond fel pynciau mewn astudiaeth ymchwil oedden nhw mewn 68.83% ohonyn nhw.
- ➔ Mae'r ffordd y mae defnyddwyr y gwasanaethau wedi'u rhannu yn ôl oed yn y cyhoeddiadau yn y map systematig o ddiddordeb am fod hyn ychydig yn wahanol i ganlyniadau'r dadansoddiad ansoddol a gynhaliwyd yn rhan o brosiect Gwella, fel y trafodwyd uchod. Roedd y cyhoeddiadau'n edrych ar wasanaethau HSB yn bennaf oedd yn gweithio gyda phobl ifanc 13-18 oed (56%), gan mai 26% yn unig oedd yn cefnogi'r rhai 4-12 oed; o ran CSE, roedd 42% yn ymwneud â'r rhai 13-18 oed, ac roedd 36% ar gyfer plant 4-6 oed.
- ➔ Un o ganfyddiadau eraill y dasg mapio systematig oedd bod cyfran fawr o'r gwaith yn y maes hwn yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc ag anawsterau

dysgu, yn enwedig y rhai ag Anhwylderau Sbectrwm Alcohol yn y Ffoetws (FASD). Nid yw'r rheswm pam mae cymaint o ymchwil yn canolbwyntio ar FASD yn glir o'r data a gasglwyd.

Mae'r map systematig a gynhyrchwyd yn gronfa ddata estynedig a manwl sy'n rhoi gwybodaeth a'r cynlluniau ymyrryd ar gyfer ymateb i beryglon ym meysydd HSB a CSE. Ceir nifer o bosibiliadau ar gyfer cynhyrchu 'canfyddiadau' gan ddibynnu ar y meini prawf chwilio sydd ar waith. Fel y nodir isod, edrychom ar y gronfa ddata hon eto er mwyn ystyried a llywio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer egwyddorion sylfaenol dull Gwella, a ddatblygwyd gan Barnardo's.

1.1.2 Crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil

Mae pedair elfen yr ymchwil yn cefnogi'r damcaniaethau a gyflwynwyd gan Barnardo's bod cysylltiad rhwng trawma yn ystod plentyndod, camfanteisio ar blant yn rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol; a bydd cefnogi plant yn ystod y blynyddoedd cynnar yn eu gwneud yn llai tebygol o rywun yn camfanteisio arnyn nhw'n rhywiol a/neu ddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Ceir y dystiolaeth fwyaf eglur o hyn yn yr adolygiad o lenyddiaeth yn yr ymchwil. Hon yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer y ddamcaniaeth gyntaf, ond mae tair elfen arall y prosiect ymchwil yn ei chefnogi hefyd. Dyma'r prif ganfyddiadau i'w nodi:

- ➔ Ceir gwybodaeth aneglur ac anghyson am ymddygiad rhywiol amhriodol i blant a phobl ifanc, a cheir anghytuno o fewn y gymuned broffesiynol ynghylch beth mae hynny'n ei olygu;
- ➔ Mae'r sylfaen dystiolaeth yn ategu'r cysylltiadau rhwng trawma, CSE a HSB. Fodd bynnag, mae cymeriad a chwmpas y cysylltiadau hyn yn amrywio yn y llenyddiaeth. Ategir hyn gan ddata gan Barnardo's sy'n rhoi patrwm tebyg o brofiadau blaenorol o gam-drin ymysg y rhai a gyfeiriwyd oherwydd pryderon ynghylch HSB a CSE;
- ➔ Mae darpariaeth yng Nghymru yn amrywio ar draws meysydd gwasanaeth, ac mae

³ Pan mae manylion am ddyluniad a dulliau wedi'u codio fel anhysbys neu ansicr, mae'r cyhoeddiad naill ai'n aneglur ynghylch ei ddyluniad neu nid yw'r cyhoeddiad ar gael yn llawn. Felly, roedd y côd yn seiliedig ar y crynodeb yn unig e.e. ceir cofnod ar gronfa ddata o astudiaeth sydd heb ei chyhoeddi neu nid yw'r ddogfen ar gael mwyach o'r ffynhonnell.

dryswch ynghylch y trothwy ar gyfer cyfeirio at wasanaethau, yn enwedig ar gyfer HSB; mae pryder yng Nghymru hefyd ynghylch diffyg arian ar gyfer gwasanaethau a'r ffaith nad oes hyfforddiant pwrpasol ar gyfer nodi CSE a HSB ac ymateb iddyn nhw;

- ➔ Prin iawn yw'r dystiolaeth o werthusiadau ffurfiol o wasanaethau yn y gronfa dystiolaeth ryngwladol; nid yw defnyddwyr gwasanaethau neu ymarferwyr wedi cael fawr o sylw, os o gwbl, yn y sylfaen dystiolaeth hon; mae'r sylfaen dystiolaeth yn ymwneud yn bennaf â phobl ifanc rhwng 13 a 18 oed;
- ➔ Mae'n amlwg bod angen gwella dealltwriaeth ac ymyriadau cefnogi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef trawma, sy'n cael eu camfanteisio'n rhywiol, ac sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol.
- ➔ Mae'r sylfaen dystiolaeth yn atgyfnerthu rhagdybiaeth Gwella bod angen cefnogaeth ac ymyriadau cynnar ar blant sydd wedi cael eu cam-drin a dioddef trawma.

1.1.3 Symud ymlaen i ddull newydd o ymarfer

Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r camau cynnar hyn o raglen Gwella, ac adeiladu ar brofiad yr ymarfer a gynhyrchwyd drwy waith Barnardo's yn y ddau faes diogelu hyn, aeth Barnardo's ati i ddatblygu dull ymarfer Gwella er mwyn creu dull ymyrryd ataliol ac ymarferol sy'n gallu nodi'r cysylltiadau rhwng trawma a CSE a HSB yng Nghymru a mynd i'r afael â nhw.

Adran 2. Prosiect a dull ymarfer Gwella

2.1 Prosiect Gwella

Ceisiodd prosiect Gwella gefnogi plant rhwng 5 ac 11 oed oedd wedi bod yn gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol ac wedi cael profiad o gam-drin a thrawma. Y nod oedd cynnig system o weithwyr proffesiynol cefnogol o'u cwrdd oedd yn ymwybodol o natur trawma, a gwella eu perthynas â'u prif ofalwyr. Y nod oedd cyflawni hyn drwy drefnu i ymarferydd Gwella weithio gyda phlentyn a'u rhieni neu ofalwyr yn wythnosol dros gyfnod o 12 mis a chanolbwyntio ar weithgareddau chwarae sy'n seiliedig

ar berthnasod. Ar yr un pryd, byddai'r ymarferydd yn gweithio gyda rhieni, gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol o gwmpas y plentyn er mwyn meithrin dealltwriaeth o effaith y trawma a'r cam-drin ar ymddygiad y plentyn, eu hanghenion cymorth, a helpu i wneud y ddarpariaeth gyfredol yn 'ymwybodol o faterion trawma'.

Pennwyd dau ddeiliant cyffredinol ar gyfer y prosiect i wella deilliannau i blant oedd wedi dioddef trawma datblygiadol:

1. Cynnig system gefnogi o amgylch y plentyn sy'n ymwybodol o natur trawma

Un o brif nodau dull Gwella yw gwella dealltwriaeth o sut mae profiadau andwyol yn ystod plentyndod wedi dylanwadu ar ymddygiad a sut mae'n cyflwyno ei hun. Drwy sicrhau bod gan bawb o fewn eco-system y plentyn yr un ddealltwriaeth, rydym yn gobeithio creu amgylchedd sy'n gallu diwallu anghenion y plentyn a'i gefnogi i ddod dros ei drawma a bod yn wydn.

2. Gwella'r berthynas rhwng y plentyn a'i brif ofalwr/ofalwyr.

Bydd ymarferwyr Gwella yn gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar y berthynas seicolegol rhwng y plentyn a'r rhiant/gofalwr – mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gofalwr i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae sy'n seiliedig ar berthynas a chefnogi'r gofalwr i ddeall bod profiadau andwyol yn ystod plentyndod wedi dylanwadu ar ymddygiad y plentyn. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu bod gweithwyr Gwella yn mynd i'r cartref yn wythnosol a gweithio gyda'r plentyn a'r gofalwyr.

Sefydlwyd prosiect Gwella i gefnogi'r gwaith o gyflwyno dull Gwella. Mae'r dull yn cynnwys nifer o elfennau sydd â sylfaen gadarn eisoes, fel gwaith aml-asiantaeth, ymarfer perthynol, cefnogi plant i ddatblygu'n iach ac ymgynghori a gwerthuso proffesiynol. Mae hefyd yn defnyddio modelau sy'n dod i'r amlwg fel y Model Adfer ar ôl Trawma (TRM) a dull Chwaraegarwch, Derbyn, Chwilfrydedd ac Empathi (PACE) o gefnogi gofalwyr sylfaenol, a hyrwyddir yn yr Ymarfer Datblygiadau Deuol (DDP).


Gellir ystyried yr egwyddorion ac elfennau amrywiol ei sy'n gysylltiedig â dyluniad Gwella, ond ynddo'i hun mae'n

ddull newydd sy'n cynnig ymateb penodol i drawma fel ymyrraeth ataliol ar y cyfan ar gyfer CSE neu HSB.

2.2. Prif egwyddorion dull ymarfer Gwella

Mae'r canlynol yn amlinellu'r prif egwyddorion a dulliau sy'n ffurfio'r rhesymeg ar gyfer 'dull Gwella' fel y mae Barnardo's wedi'u hamlinellu.

- ➔ Deall effaith y trawma ar ddatblygiad y plentyn;
- ➔ Sefydlu system o amgylch y plentyn sy'n ymwbybodol o natur trawma;
- ➔ Mae gwella/dyfnhau'r berthynas rhwng y plentyn a'r prif ofalwr/ofalwyr yn nod allweddol;
- ➔ Mae gwella/dyfnhau'r berthynas rhwng y plentyn ac oedolion eraill o bwys yn nod allweddol;
- ➔ Bydd plant yn cael ymateb penodol sy'n bodloni eu cryfderau a'u hanghenion unigryw.



1. Model Adfer ar ôl Trawma (TRM):

- Mae'n rhoi map cysyniadol i'r plentyn ac yn rhan ganolog o'r dull
- Gweithgareddau asesu sy'n pennu ble mae'r plentyn ar y model
- Nod gweithgareddau therapiwtig a rhai eraill yw cefnogi newid er gwell

- Gellir mapio'r cynnydd a wneir ar y model

2. Ffurio achos rhwng nifer o asiantaethau:

- Sefydlu system o amgylch y plentyn sy'n ymwbybodol o natur trawma
- Defnyddio'r fîm sydd eisoes o gwmpas y plentyn
- Mapio datblygiad
- Hwyluso gan arbenigwyr ym maes Trawma

3. Chwarae ar sail perthynas:

- Llywio gan therapi chwarae
- Ymgysylltu â'r plentyn yn y cartref
- Gwella cysylltiad, ymgysylltiad, hunan-barch ac ymddiriedaeth mewn eraill
- Gweithgareddau sy'n addas i lefel emosiynol y plentyn, nid yr oed cronolegol
- Gofalwyr a'r gweithiwr yn cydweithio er mwyn rhoi'r plentyn mewn perthynas iachach

4. Dull Chwaraegarwch, Derbyniad, Chwilfrydedd ac Empathi (PACE) ar gyfer y prif ofalwr:

- Edrych ar brofiad o fagu plant
- Edrych ar hanes o ymgysylltiad y gofalwyr
- Eu hannog i ddangos empathi tuag at y plentyn
- Archwilio'r cryfderau y mae'r gofalwyr yn eu gweld yn y plentyn

5. Cefnogi'r plentyn i ddatblygu'n iach:

- Gweithio ar sail oed datblygiadol y plentyn, nid ei oed cronolegol
- Addasu gweithgareddau therapiwtig i adlewyrchu datblygiad yr ymennydd o'r gwaelod i fyny
- Cefnogi gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i ddeall effaith trawma ar ddatblygiad y plentyn

6. Integreiddio â chynlluniau sy'n bodoli eisoes:

- Cyd-fynd â threfniadau sydd eisoes yn bodoli o gwmpas y plentyn
- Llywio cynlluniau, nid eu dyblygu
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau – llywio penderfyniadau ar gyfer ymyriadau 'arbenigol'

7. Ymgynghori:

- Seicolegydd i roi goruchwyliaeth glinigol i staff Gwella
- Camau seicometreg yn cael eu sgorio a'u dehongli gan seicolegydd clinigol
- Seicolegydd clinigol yn sicrhau ansawdd adroddiadau
- Goruchwyliaeth yn cael ei chynnig i weithwyr proffesiynol eraill parthed ymarfer sy'n ystyried natur trawma

2.3 Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer Prosiect Gwella a'r dull

Er mwyn cefnogi ei ddatblygiad a rhoi amcanion y prosiect a'r dull ei hun ar waith, aeth Prifysgol Caerdydd ati unwaith eto i edrych ar y llenyddiaeth a gynhyrchwyd drwy'r adolygiad amlinellu ac ymchwil yr ymarfer mapio systematig. Oherwydd pwyslais seicolegol yr ymyriad, comisiynodd Barnardo's ddarn pellach o ymchwil i adolygu'r egwyddorion mewn cysylltiad â'r ddamcaniaeth seicolegol a'r ymyriad.

Prif negeseuon o'r is-adolygiad systematig o'r llenyddiaeth

Defnyddiwyd yr adnodd mapio systematig drwy roi prif egwyddorion dull Gwella fel y meini prawf chwilio. Y nod oedd dod o hyd i ble a sut mae'r llenyddiaeth yn ategu'r ymyriad (neu'n bod yn amwys, yn amherthnasol neu heb fod yn ategu'r ymyriad o gwbl). Mae prif egwyddorion yr adolygiad hwn o'r llenyddiaeth yn cyd-fynd ag egwyddorion y dull a deilliannau'r prosiect, ac mae rhai yn fwy perthnasol ar gyfer elfennau penodol o'r dull. Mae'r tair neges ganlynol yn arbennig o berthnasol o ran ffurfio achos ac egwyddor aml-asiantaeth y dull. Maen nhw hefyd yn berthnasol wrth benderfynu pwy sy'n rhan o'r system sy'n ystyried materion trawma neu'r rhwydwaith o amgylch y plentyn:

- ➔ Mae'r sylfaen dystiolaeth yn ategu pwysigrwydd dull cyfannol, yn enwedig pan mae cydweithio rhwng nifer o asiantaethau'n gallu nodi problemau ac anghenion a'u rhannu'n gynnar yn y broses;
- ➔ Mae datblygu perthynas rhwng nifer o asiantaethau yn gorfod bod yn seiliedig ar

nodi'n bendant pa berthnasoldd sy'n bwysig o safbwynt y plentyn a sut mae perthnasoldd yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd gwahanol, o ystyried yr heriau o feithrin cydweithio rhwng nifer o asiantaethau a'i gynnal;

- ➔ Mae cydweithio perthynol mewn modd anfeirniadol yn nodwedd gyson mewn dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae gwahanol ddulliau yn amrywio o ran sut mae gweithio'n berthynol yn canolbwyntio ar y teulu neu system y gwasanaeth, ond rhaid rhoi sylw i'r ddwy elfen a'r rhyngweithio rhyngddynt i fod yn effeithiol.

Mae'r negeseuon canlynol yn arbennig o berthnasol wrth ystyried y pwyslais ar y berthynas rhwng y plant a'u prif ofalwyr:

- ➔ Mae ystyried trawma fel amharu ar gysylltiad a datblygiad arferol yn gallu creu rhagdybiaethau normadol a allai guddio rôl plentyn neu berson ifanc a'r angen i gydbwysu â chydabyddiaeth o safbwyntiau eraill fel ffactorau sefyllfaol a chymdeithasol.
- ➔ Dylai pwyslais ar raglen waith drefnus i wella ar ôl trawma gydbwysu yn erbyn amgylchiadau unigol, yn enwedig gyda gofalwyr maeth a allai fod â chysylltiadau agos, rhywfaint o ddealltwriaeth o drawma eisoes, a hanes cadarnhaol o ofal gyda'r plentyn.
- ➔ Mae angen i ymdrechion i greu systemau sy'n ystyried natur trawma edrych ar wahanol lefelau o allu ar draws y system neu gallai teulu fod â llai neu fwy o anghenion yn y maes hwn;
- ➔ Mae'n werth bod yn fwy cynhwysol gyda rhwydweithiau teuluoedd gan fod tystiolaeth gref mewn llenyddiaeth HSB o blaid ceisio gwella cysylltiadau teuluol neu feithrin cysylltiadau iach newydd. Os rhoddir pwyslais ar gysylltiadau teuluol, mae angen asesu'n ofalus i wneud yn siŵr nad oes mwy o risg i'r plentyn.

Mae'r prif negeseuon canlynol yn arbennig o berthnasol wrth ystyried pa mor gyfarwyddol yw egwyddorion Gwella i'r ymyriad yn ymarferol:

- ➔ Gall dull rhy gyfarwyddol o ymyrryd golli'r manteision y mae ymatebion unigol amrywiol yn eu cynnig. Er enghraifft, gall plentyn penodol ymateb yn gryfach i therapi dawns o'i gymharu â gwaith sy'n seiliedig ar siarad neu chwarae;
- ➔ Mae amrywiaeth yn y cymeriad a graddau'r cysylltiadau rhwng trawma, SCE a HSB yn amlygu pwysigrwydd ymatebion hyblyg a seiliedig ar achosion sy'n gallu addasu i'r sefyllfa unigryw ac anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
- ➔ Mae'r TRM yn rhoi pwyslais ar fodel gwaith blaengar lle mae angen i blentyn greu sylfaen ddiogel a diogelwch perthynol cyn cyflwyno deilliannau therapiwtig mwy blaengar. Mae hyn yn cyferbynnu â nifer o raglenni sy'n gweithio ar yr un pryd yn hytrach nag un ar ôl y llall. Felly, bydd profiadau o ddull ymarfer Gwella o ddefnydd er mwyn deall y maes hwn;
- ➔ Rhaid i'r rhagdybiaethau yn y llenyddiaeth am bwysigrwydd strwythur a monitro plant a phobl ifanc yn broffesiynol gael eu hystyried ochr yn ochr a thystiolaeth gan blant a phobl ifanc sy'n blaenoriaethu perthnasoedd gofalgwr anffurfiol ac agos;
- ➔ Gallai rhoi TRM ar waith fod yn heriol yng nghartref y teulu/teulu maeth o ystyried ei bod yn deillio o sefyllfaoedd sefydliadol. Bydd cryn ddiddordeb mewn sut mae gweithwyr yn adnabod amgylchiadau unigryw a chryfderau'r cyd-destun hwn ac yn defnyddio elfennau eraill o ddull Gwella sy'n fwy cyfarwydd a gweithio mewn 'cartref' mewn cysylltiad â TRM.

Mae'r canlynol yn rhoi negeseuon pwysig ar gyfer elfennau sefydliadol y prosiect:

- ➔ Ni waeth pa mor ffurfiol yw'r cysylltiad neu natur penodol y berthynas, mae'n amlwg mai sefydlogrwydd, cynaliadwyedd ac ymatebolrwydd yw'r prif feini prawf perthynol i weithiwr allweddol yn y llenyddiaeth hon;
- ➔ Gall pwyslais ar ymarfer perthynol fel egwyddor greu tensiynau os bydd yr hyn mae'r plentyn yn ei ddisgwyl neu'n ei ddymuno gan y berthynas yn wahanol i ddisgwyliadau'r gweithwyr o ran

dechrau gwneud gweithgareddau penodol, cymryd rhan ynddynt, ac o ran sut bydd yn dod i ben;

- ➔ Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y mathau hyn o ymyriadau sy'n ymwneud â CSE a HSB yn wobrwyl ac yn heriol fel ei gilydd i weithwyr, a bod eu profiad o gefnogaeth oruchwyliol yn ffactor llwyddiant hanfodol.

Yn gyffredinol, roedd yr adolygiad yn atgyfnerthu nodau Gwella gan amlygu'r cryfderau a'r heriau a allai ddod i'r amlwg drwy roi dull Gwella ar waith. Dangosodd gryn gefnogaeth o blaid pwyslais perthynol a allai weithio ar gyflymder sy'n addas i'r plentyn a'r gofalgwr a chysylltu eu teimladau er mwyn canfod eu ffordd o amgylch system a allai fod yn heriol. Amlygodd heriau hefyd wrth gyflwyno dull ymarfer hyblyg a newydd a allai ddefnyddio egwyddorion ac elfennau o sawl system. Ar yr un pryd, mae angen iddo roi sylw i sut i'w gymhwyso i sefyllfa unigryw'r plentyn ac ymateb i beth sy'n bwysig o safbwynt y plant a'u gofalgwyr.

Canfyddiadau o'r adolygiad cyflym o effeithiau niwrolegol a seicolegol trawma sy'n berthnasol i Gwella

Cynhaliwyd adolygiad cyflym ac ar wahân o lenyddiaeth drwy Barnardo's er mwyn nodi dystiolaeth parthed effeithiau niwrolegol a seicolegol trawma a sut gallai'r dystiolaeth hon lywio dealltwriaeth o elfennau o ddull Gwella. Nid oedd yr adolygiad yn systematig ac, fel gydag adolygiadau cyflym yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau i'w hystyried fel rhai awgrymog yn hytrach na phendant.

- ➔ Nododd yr adolygiad dystiolaeth ryngwladol gynhwysfawr o effeithiau niwrolegol a seicolegol trawma, yn enwedig pan mae trawma yn digwydd yn gynnar ym mywyd y plentyn. Daeth i'r amlwg yn yr adolygiad bod yr effeithiau hyn yn gallu cyfyngu ar therapiau ymddygiadol neu wybyddol traddodiadol, ac awgrymodd bod angen ymyriadau sy'n canolbwyntio mwy ar greu sylfaen ddiogel ar gyfer y plentyn.
- ➔ Mewn llenyddiaeth oedd yn dod i'r amlwg, roedd effeithiau niwrolegol yn gysylltiedig ag ystod eang o heriau seicolegol-gymdeithasol i blant a phobl ifanc. Mae'r heriau'n cynnwys anawsterau hunan-leddfu ac

ymateb i sefyllfaoedd rhyngbersonol a chymdeithasol cymhleth, yn enwedig pan mae gwrthdaro neu fygythiad canfyddedig yn gysylltiedig.

- ➔ Daethpwyd o hyd i themâu tebyg yn yr adolygiad rhwng y llenyddiaeth niwrolegol, astudiaethau o anawsterau cysylltu sy'n gysylltiedig â thrawma, a'r llenyddiaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch Profiadau Andwyol yn ystod Plentynod. Yn gyffredinol, nododd y llenyddiaeth yr anawsterau sy'n gysylltiedig â phlant sydd â diffyg hunanwerth a dulliau camaddasol o gysylltu ac ymddwyn. Roedd hyn yn arbennig o wir wrth i'r plentyn aeddfedu a wynebu disgwyliadau cymdeithasol cynyddol a bod mewn sefyllfaoedd lle mae angen meithrin cysylltiadau newydd. Daeth yr adolygiad o hyd i rywfaent o lenyddiaeth oedd yn nodi bod angen cydnabod datblygiad niwrolegol ac emosiynol a allai fod yn wahanol i'w hoedran cronolegol.
- ➔ Daeth i'r amlwg yn yr adolygiad fod y dystiolaeth o ystod eang o astudiaethau yn cefnogi pwyslais perthynol a chyfannol Gwella. Fe bwysleisiodd yn benodol fod therapi sy'n canolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael ag ymddygiad neu wybyddiaeth sy'n peri problemau yn gallu bod yn anfuddiol neu'n fygythiol i blant sydd â chefnidir o drawma. Mae hyn oherwydd effeithiau trawma yn y cefndir ar eu hunanwerth ac am nad ydyn nhw'n gallu ymateb i fyfyrdod mwy cymhleth.

Yn gyffredinol, mae'r adolygiad yn cefnogi'r egwyddorion a geir mewn elfennau o ddull Gwella, fel Therapi Chwarae, DDP (mewn perthynas â PACE) a TRM. Mae hefyd yn cefnogi'r nod o gynyddu ymdeimlad y plentyn o ddiogelwch, gwerth a gallu perthynol, a'i bwyslais ar ehangu sylfaen ddiogel drwy weithio gyda phrif ofalwr.

Mae rhan nesaf yr adroddiad yn rhoi manylion am sut aethom ati i gynnal ein gwerthusiad a'r dulliau a ddefnyddiwyd yn nyluniad yr ymchwil.

Adran 3: Dyluniad a methodoleg yr ymchwil

3.1 Dyluniad yr ymchwil

Mae'r prosesau a'r arferion sy'n gysylltiedig â chynlluniau newydd yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i edrych ar sut mae elfennau o ddyluniad prosiect yn cael eu rhoi ar waith a'u profi. Y ffordd orau o ddeall hyn yw drwy gael safbwyntiau'r gwahanol unigolion fu'n gysylltiedig â'r broses. Ar ben hynny, mewn dull ymarfer (fel Gwella) sy'n cynnwys sawl elfen, mae'n bwysig edrych ar sut mae'r elfennau hyn yn cael eu cydbwysu a'u rhoi ar waith yn wahaniaethol. Gan ei fod yn beilot newydd ar raddfa fach, roedd Gwella yn addas ar gyfer gwerthusiad a allai wella dealltwriaeth o sut y cafodd ei drefnu, ei roi ar waith a'i gyflwyno.

I'r perwyl hwn, cynhaliwyd gwerthusiad ar ffurf 'proses' drefniadol a gwerthusiad o 'ddeilliannau' gyda phwyslais ar ddogfennu profiadau'r rhai oedd yn cyflwyno ac yn gweithio gyda'r prosiect, yn ogystal â'r rhai oedd yn cael cefnogaeth. Mae'r gwerthusiad yn trafod dadansoddiad o ymchwil sy'n cynnwys tîm Gwella, rhieni a gofawyr, arbenigwyr ymgynghorol plant, a gweithwyr proffesiynol allanol o feysydd gofal cymdeithasol ac addysg. Roedd hwn yn ddull oedd yn addas o ystyried maint cymharol fach prosiect Gwella a'r niferoedd o dan sylw.

Mae dyluniad yr ymchwil yn defnyddio nodweddion cyfranogol, yn enwedig y ffordd y defnyddiodd gyfweiliadau ymchwil ar sail chwarae gyda'r plant oedd yn cymryd rhan. Mae ein pwyslais ar wrando ar blant a phrofiadau cyfranogwyr amrywiol yn cyd-fynd â'n nod o werthuso Gwella fel dull sy'n rhoi plant ac ymarfer perthynol yn gyntaf.

Er ei fod yn werthusiad archwiliadol ac ansoddol yn bennaf, mae'n amlygu ffyrdd posibl o gynnal rhagor o werthusiadau pellach sy'n cynnwys dulliau mesurol ac sy'n arbed arian pe byddai dull yn cael ei ddatblygu ar raddfa ehangach.

3.1.1 Gwerthuso'r broses

Nod cyffredinol yr elfen hon o'r gwerthusiad oedd cyflwyno amlinelliad manwl o gwmpas ac elfennau trefniadol Gwella er mwyn gallu ei roi ar waith mewn ardaloedd eraill yng Nghymru ac yn genedlaethol. Roedd y ffordd yr aethom ati i edrych ar y broses yn cael ei llywio gan y ffaith fod dull Gwella yn newydd a heb unrhyw gymhariaeth amlwg. Nid oedd dull cyflwyno'r dull wedi'i nodi mewn 'llawlyfr' ac roedd y prosiect ar waith fel peilot. Felly, mae rhoi sylw manwl i'r dull gweithredu trefniadol a sut daeth yr ymyriad i'r amlwg drwy gyflwyno'r prosiect yn hanfodol er mwyn efelychu neu ehangu'r dull yn y dyfodol – sef un o nodau 'Gwella'. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio safbwyntiau unigolion allweddol sy'n rhan o'r prosiect er mwyn:

- ➔ ystyried rhesymeg, cwmpas a chyfyngiadau 'Gwella', yn ogystal ag elfennau eraill sy'n gysylltiedig â rhoi'r dull ar waith a'i gyflwyno;
- ➔ archwilio materion trefniadol oedd yn gysylltiedig â rhoi 'Gwella' ar waith er mwyn nodi ymarfer effeithiol ac aneffeithiol, yn ogystal ag unrhyw ffactorau wnaeth ei atal rhag cael ei roi ar waith yn llwyddiannus;
- ➔ nodi'r dulliau a'r strategaethau oedd yn 'gweithio orau' er mwyn cyflwyno'r prosiect fel bod gwersi'n gallu cael eu dysgu ac er mwyn nodi strategaethau posibl a allai osgoi problemau rhag codi dro ar ôl tro a/neu leihau eu heffaith yn fwy llwyddiannus;
- ➔ nodi a chymharu gweledigaeth a bwriadau'r dylunwyr gwreiddiol a'r asiantaethau partner amrywiol â'r sefyllfa mewn gwirionedd wrth roi'r dull ar waith;
- ➔ edrych ar i ba raddau mae 'Gwella' wedi'i integreiddio ac ennill ei blwyf yng ngwaith asiantaethau eraill sy'n gweithio mewn meysydd perthnasol.

3.1.2 Gwerthusiad o'r deilliannau

Nod cyffredinol y gwerthusiad o'r elfen hon yw manylu ar effaith 'Gwella' ar ddeilliannau i blant a theuluoedd. Un o'r pethau a gafodd gryn sylw penodol yn yr elfen hon o'r gwerthusiad oedd edrych ar 'Gwella' o safbwynt plant, teuluoedd a gofalwyr, a'r rheini sy'n gysylltiedig

â meysydd allweddol o'u bywyd teuluol (h.y. addysg a gwaith cymdeithasol) yn ogystal ag ymarferwyr Gwella. Mae'r rhan hon o'r gwerthusiad yn:

- ➔ ystyried cynnydd yn erbyn amcanion penodol y plentyn a riant/gofalwr, fel y nodwyd drwy'r gwasanaeth;
- ➔ cofnodi gwybodaeth am y gwasanaeth a roddwyd i blant a theuluoedd/gofalwyr a'i effaith ddilysol ar ddeilliannau sy'n gysylltiedig â deilliannau Barnardo's, a chyfeirio at unrhyw wasanaethau eraill fel y bo'n briodol;
- ➔ ystyried a wnaeth unrhyw newidiadau a ddechreuwyd gan yr ymyriadau fynd y tu hwnt i feysydd eraill ym mywyd y plentyn/teulu;
- ➔ a dadansoddi ac egluro'r rhesymau dros unrhyw newidiadau;
- ➔ cymharu ag unrhyw gymorth neu ymyriad blaenorol sydd wedi'i gynnig i ddefnyddwyr y gwasanaeth neu a dderbyniwyd ganddyn nhw ar y pryd;
- ➔ rhoddir sylw i feysydd lle gellir gwneud gwelliannau ym mhob maes a restrwyd, yn ogystal ag awgrymiadau defnyddwyr y gwasanaeth ynghylch sut i gyflawni hyn.

Wrth edrych ar ddeilliannau, fe wnaethom ystyried y ffaith fod prosiect a dull Gwella wedi'i ddylunio i gynnig ymateb pwrpasol o anghenion a phrofiadau plant, rhieni a gofalwyr. Wrth geisio deall 'beth sy'n gweithio', dylai eu lleisiau nhw fod yn elfen ganolog o werthuso pa mor effeithiol oedd yr ymateb hwn iddyn nhw. Ar ben hynny, roedd y pwyslais penodol ar brofiadau plant, rhieni a gofalwyr yn ein gwerthusiad o ddeilliannau yn ategu pwyslais canolog Barnardo's ar wrando ar blant a chredu eu profiadau. Ategir hyn ymhellach gan y deilliannau o'n ymarfer mapio systematig a awgrymodd mai prin yw'r gwaith gwerthuso sy'n rhoi plant a defnyddwyr y gwasanaeth yn y canol. Mae ymchwil flaenorol hefyd yn amlygu sut mae lleisiau pobl ifanc wedi'u tawelu mewn ymyriadau CSE yn benodol, ac mewn systemau gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol.

I'r perwyl hwn, mae'r gwerthusiad yn ceisio ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

1) beth yw cynllun ymyrryd Gwella, a sut gellir ei gyflwyno'n effeithiol?; a 2) beth yw deilliannau cynllun ymyrryd Gwella i blant a theuluoedd, a beth yw 'gwerth ychwanegol' y prosiect?

3.2 Methodoleg, samplu a chasglu data

Mae'r rhan fwyaf o ddata a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad yn cynnwys data ansoddol ar ffurf trawsgrifiad o gyfweiliadau a recordiwyd. Roedd ein dull samplu ar gyfer y gwerthusiad yn seiliedig ar gynnwys pawb oedd yn gysylltiedig a phrosiect Gwella ac sy'n gallu cynnig sylwadau ystyrlon ar broses a/neu elfen(nau) o ddeilliannau'r gwerthusiad. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol i'r astudiaeth gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (Cyf. y Prosiect: SREC/2384) cyn casglu unrhyw ddata.

3.2.1 Tîm Gwella

Cafodd pawb oedd yn gysylltiedig â chyflwyno a rheoli Gwella eu cyfweld ar gyfer y gwerthusiad. Cafodd pawb y cyfle i wrthod cymryd rhan ac i dynnu eu holl ddata yn ôl, neu ran ohono, o'r gwerthusiad. Cytunodd pawb i gymryd rhan. Yn y cyfweiliadau, cafodd staff y cyfle hefyd i nodi unrhyw fanylyn yr oedden nhw'n fodlon i ni ei gynnwys wrth ddadansoddi, ond nad oedden nhw am i ni ei ddyfynnu'n uniongyrchol.

Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfres o gyfweiliadau unigol lled-strwythuredig gyda phawb ond un o'r ymarferwyr Gwella oedd ag achosion (N=8)⁴. Cynhaliwyd y cyfweiliadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn os oedd hynny'n fwy ymarferol iddynt, fel bod cymryd rhan yn cymryd cyn lleied o'u hamser â phosibl. Er mwyn cofnodi newidiadau mewn safbwyntiau, themâu ynghylch rhoi'r peilot ar waith, newidiadau mewn ymarfer, safbwyntiau ar ddeilliannau a sut mae'r prosiect yn gweithio, cafodd ymarferwyr eu cyfweld wrth i'r peilot ddechrau cael ei gyflwyno. Cafodd ymarferwyr eu cyfweld unwaith eto ar ddiwedd eu hachosion, ac eto ar ôl iddyn nhw adael y prosiect. Cynhaliwyd eu cyfweiliad olaf pryd bynnag yr oedden nhw'n gadael y prosiect, boed hynny'n gynharach na'r disgwyl neu pan gaewyd eu hachosion

olaf. Canolbwyntiodd y cyfweiliadau ar brofiadau'r ymarferwyr o weithio gyda'r prosiect, eu safbwyntiau ar yr ymyriadau, a'u barn ynglŷn â'r effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd y cyfweiliadau cychwynnol a'r rhai olaf yn trafod yr un pynciau er mwyn cofnodi unrhyw newid ym marn yr ymarferwyr a'u profiadau. Roedd y cyfweiliad olaf ychydig yn wahanol gan ei fod yn cynnwys rhagor o gwestiynau am natur penodol y gwaith ac am arferion gwaith yr ymarferwyr. Gofynnwyd hefyd am ragor o fanylion am y deilliannau i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Yn ystod blwyddyn gychwynnol y peilot, fe wnaethom hefyd gynnal cyfweiliadau gyda rheolwr y Gwasanaeth (N=1), y Cyfarwyddwr Cynorthwyol oedd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y gwasanaeth (N=1), a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig (N=3) oedd wedi cefnogi a hyfforddi tîm Gwella ynglŷn â'r ymyriadau therapiwtig. Cafodd rheolwr gwreiddiol y Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol eu cyfweld eto ar ddiwedd y prosiect. Rhwng 45 a 67 munud oedd hyd y cyfweiliadau.

3.2.2 Rhieni, gofalwyr a phlant

Roedd y plant, y rhieni a'r gofalwyr oedd yn gysylltiedig â'r prosiect yn rhan ganolog o'r gwerthusiad. Lle bo'n bosibl, roedd teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y lle cyntaf drwy'r ymarferydd Gwella penodol oedd yn gweithio gyda phob teulu. Cafodd yr holl rieni, gofalwyr a phlant y cyfle i 'gymryd rhan' a sawl cyfle i wrthod a/neu dynnu'n ôl o unrhyw ran, neu'n gyfan gwbl, o'r gwerthusiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe wnaeth yr ymchwilydd gwrdd â'r rhieni a'r gofalwyr cyn iddyn nhw gymryd rhan. Roedd eu hymarferydd Gwella yno i'w cyflwyno, i roi'r cyfle iddyn nhw gwrdd â'r ymchwilydd a chlywed am y gwerthusiad a beth fyddai cymryd rhan yn ei olygu iddyn nhw. Rhoddodd hyn y cyfle iddyn nhw ofyn unrhyw gwestiynau ac ystyried a oedden nhw am gymryd rhan ai peidio. Mewn rhai achosion, gan fod y gweithiwr wedi gadael, neu oherwydd ystyriaethau amser i'r rhieni a'r gofalwyr, cysylltodd yr ymchwilydd â'r rhieni neu'r gofalwyr yn uniongyrchol a gwneud trefniadau ar gyfer cyfweiliadau. (Cytunodd y teuluoedd ar y dull hwn gyda'r ymarferydd Gwella neu reolwr prosiect Gwella.) Ar wahân i un achlysur, cafodd y gofalwyr a'r rhieni eu cyfweld ar wahân i'r plant – gyda chyfweiliadau'n cael eu cynnal ar ddiwrnod gwahanol neu cyn i'r plentyn ddod

⁴ Gweler adran 4.2 am ragor o wybodaeth am dîm Gwella. Fel y nodir yno, ni chafodd y nawfed ymarferydd na chafodd ei gyfweld ei gynnwys gan mai am gyfnod byr yn unig y treuliodd ar y prosiect a rhoddodd y gorau i ofalu am achosion gweithredol ar ôl bod yn absennol oherwydd salwch.

adref o'r ysgol. Roedd rhieni a gofawyr yno pan oedd y plant yn cael eu holi, ond yn gyffredinol roedden nhw'n gwneud rhyw weithgaredd arall neu mewn ystafell arall gyda'r drws ar agor.

Cymerodd 25 o rieni a gofawyr oedd yn gysylltiedig â'r prosiect ran yn y gwerthusiad. Roedd y rhain yn cynnwys cyfweiliadau gyda'r canlynol ar draws 18 o'r 24 o deuluoedd fu'n rhan o'r prosiect⁵: Tadau/llystadau (N=5); Mamau/llysfamau (N=9); Teidiau/Neiniau sy'n rhoi gofal (N=3); Mamau maeth (N=7); Tadau maeth (N=1)⁶. Cafodd dau riant eu cyfweld ddwywaith gan fod ganddyn nhw fwy nag un plentyn yn gysylltiedig â'r prosiect ar draws y ddwy flynedd. Naill ai nad oedd modd cysylltu â theuluoedd o flwyddyn un y cysylltwyd â nhw eto am gyfweiliad dilynol, neu fe wnaethon nhw wrthod cymryd rhan.

Ym mlwyddyn un, cymerodd bawb ran ar wahân i bedwar teulu; gwrthododd tri theulu gymryd rhan - cafodd dau ofalwr gofal eu gwahodd i gymryd rhan ac fe gytunon nhw i'r ymchwilwyr gysylltu â nhw, ond ni wnaeth un ateb galwadau'r ymchwilwyr, ac fe wnaeth un arall ganslo oherwydd ymrwymadau teuluol ac ni wnaeth alw'r ymchwilwyr yn ôl wedi iddyn nhw gysylltu i geisio aildrefnu; penderfynwyd na fyddai'n briodol cysylltu ag un teulu. Prin iawn fu eu cysylltiad â Gwella cyn hynny, ac nid oedd wedi bod yn gysylltiad cadarnhaol. Ar ben hynny, nid oedd yr ymarferydd ar gael mwyach i hwyluso'r cysylltiad. Am resymau moesegol, fe benderfynon ni nad oedd yn briodol galw pobl yn ddirybudd. Ym mlwyddyn dau, cymerodd bawb ran ar wahân i ddau deulu: unwaith eto, cytunodd dau deulu maeth gymryd rhan yn y lle cyntaf, ond ni wnaethon nhw ateb pan geisiodd yr ymchwilwyr gysylltu â nhw.

Roedd y cyfweiliadau gyda rieni a gofawyr yn rhai lled-strwythuredig ac roedden nhw'n canolbwyntio ar: 1) eu cysylltiad â'r prosiect, sut a pham y daethon nhw i gymryd rhan, sut gwnaeth y prosiect weithio a'u profiad o gymryd rhan; 2) eu barn ynghylch Gwella, beth oedden nhw'n ei hoffi, a fydden nhw'n newid unrhyw beth, a oedd yn

wahanol i'w profiadau gyda gwasanaethau eraill (ac os felly, pam); 3) pa wahaniaeth wnaeth Gwella (os o gwbl), a wnaethpwyd unrhyw addewidion gwag, sut a pham y gwnaeth Gwella unrhyw wahaniaeth. Roeddem yn ymwybodol bod rhai o'r rhieni a gafodd eu cyfweld yn agored i niwed, ac fe geision ni ddatblygu perthynas gyda nhw'n gyflym. Fe egluron ni nad oedd rhaid iddyn nhw gymryd rhan mewn unrhyw gyfweiliad, ac roedd ein cwestiynau yn canolbwyntio ar enghreifftiau a phrofiadau. Fe wnaeth y cyfweiliad bara rhwng 45 a 90 munud.

3.2.3 Cynnwys plant drwy ddulliau creadigol ar sail chwarae oedd yn rhoi'r plentyn yn gyntaf

Cafodd cryn dipyn o waith cynllunio ei wneud er mwyn i ni allu ymgysylltu â phlant yn briodol. Cafwyd sêl bendith y rhieni i gynnwys y plant ac fe gawson ni drafodaeth gyda'r ymarferydd Gwella perthnasol ynglŷn â'r ffordd orau a mwyaf cyfforddus a hwyliog o gynnwys pob plentyn. Roedd y rhain yn seiliedig ar y gemau a'r gweithgareddau yr oedden nhw wedi chwarae gyda nhw. Cafwyd trafodaeth gyda'r rhieni a'r gofawyr hefyd cyn y cyfweiliad lle bo hynny'n bosibl. Nid oedd rhaid i'r plant gymryd rhan, a phan oedd y plant yn dweud nad oedden nhw am siarad â'r ymchwilydd, bydden nhw naill ai'n rhoi'r gorau i gymryd rhan neu bydden nhw'n cymryd rhan mewn ffordd arall os oedden nhw'n fodlon siarad â'r ymchwilydd o hyd.

Cymerodd 19 o blant ran yn y gwerthusiad. Ni wnaeth saith o blant gymryd rhan am eu bod yn rhan o grwpiau o frodyr a chwiorydd gyda rhieni/gofawyr oedd wedi gwrthod neu nad oedd modd cysylltu â nhw ynglŷn â chymryd rhan yn y gwerthusiad. Gydag un achos yn y flwyddyn beilot, ac un achos ym mlwyddyn dau, cafodd y gofawyr achos eu cyfweld, ond cytunwyd na fyddai'r plentyn yn cael ei wahodd. Roedd hyn oherwydd pryderon ynghylch beth oedd orau iddo, gan ei fod wedi cael profiad o sawl ymarferydd ac nid oedden ni am ei ddrysu ymhellach drwy gyflwyno oedolyn arall oedd yn gysylltiedig â'r prosiect mewn rhyw ffordd. Cytunwyd ar hyn hefyd gyda rhieni a gofawyr saith o

⁵ Mewn rhai achosion, roedd plant wedi bod yn byw gyda gofawyr maeth a rhieni, ac fe geision ni gynnwys y gofawyr a'r rhieni; fe wnaethon ni hyn hefyd pan newidiodd y gofynion mynediad ar gyfer y plentyn, a daeth y ddau riant yn gysylltiedig â Gwella.

⁶ Nid oedd yr holl rieni yn byw gyda'i gilydd ond os oedd y prosiect yn cefnogi'r ddau riant, fe gymeron nhw ran yn y cyfweiliad gyda'i gilydd; cafodd llysfamau eu cyfweld gyda'i gilydd; nid oedd unrhyw lystadau neu gariadon gwrywaidd yn gysylltiedig â'r prosiect; mewn rhai achosion, dim ond y llysfam a gymerodd ran, ac roedd hynny'n adlewyrchiad o bwy oedd yn gysylltiedig â phrosiect Gwella ei hun yn ôl pob tebyg.

blant, (roedd pedwar ohonyn nhw'n rhan o ddau grŵp o frodyr a chwiorydd). Roedd hyn oherwydd pryderon y gallai eu plant fod yn drist ynghylch peidio â gweld eu hymarferydd mwyach ac y byddai gofyn i'r plentyn amdanyn nhw eu gwneud yn drist neu'n anhapus. Roedd hyn yn wir gydag un pâr o frodyr/chwiorydd oedd yn cael trafferth deall pam nad oedden nhw'n cael gweld eu hymarferydd mwyach. Gyda sêl bendith teuluoedd, anfonwyd gweithgareddau a deunyddiau crefft ac amlen â stamp arno at y plant hyn er mwyn iddyn nhw allu tynnu llun neu ysgrifennu, ond ni ddychwelwyd pump ohonyn nhw o fewn amserlen y dadansoddiad⁷.

Roedd y cyfweiliadau gyda phlant yn cael eu harwain ganddyn nhw ac, ar y cyfan, yn seiliedig ar chwarae a gweithgareddau creadigol er mwyn eu helpu i gymryd rhan a chael hwyl wrth gymryd rhan. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys chwarae Jenga, creu golygfeydd 'cyn ac ar ôl' mewn blwch tywod, cylchoedd perthnasoedd, tynnu lluniau a gweithgareddau geiriau am eu gweithwyr a phethau roedden nhw'n eu cofio ac yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi, ac olion llaw am emosiynau. Cawson nhw eu hannog i sôn am beth oedden nhw'n ei wneud gyda'u gweithiwr, beth oedden nhw'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi, ac a oedd unrhyw wahaniaethau iddyn nhw. Roedd y cyfweiliadau hefyd yn dilyn naratif y plant ac roedd y drafodaeth hefyd yn cynnwys sut dylai gweithwyr fod gyda plant, deall y berthynas rhwng y gweithiwr a'r plentyn, a gadael y prosiect. Roedd y deunyddiau a anfonwyd at y plant yn canolbwyntio ar weithgareddau tebyg er mwyn cael yr un barn a safbwyntiau. Roedd rhai cyfweiliadau'n cynnwys ambell gwestiwn oherwydd tybiwyd bod hynny'n fwy priodol na gweithgareddau creadigol. Cynhaliwyd tri gyda grwpiau o frodyr/chwiorydd gyda'i gilydd. Parodd y cyfweiliadau gyda'r plant rhwng 20 a 100 munud ac fe wnaethon nhw gyfrannu 17 tudalen o luniau a geiriau ysgrifenedig yr ydym wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad.

3.2.4 Gweithwyr proffesiynol oedd yn gysylltiedig â Gwella

Fe geision ni gynnwys yr holl weithwyr proffesiynol o asiantaethau partner (N=58) sydd wedi chwarae rhan yn y prosiect mewn ryw ffordd. Rhoddodd ymarferwyr Gwella wybodaeth am y gweithwyr proffesiynol oedd yn gysylltiedig ag achosion, a chadwodd y fîm ymchwil mewn cysylltiad cyson trwy gydol cyfnod 12 mis pob ymyriad i wneud yn siŵr bod y manylion yn gyfredol. Mewn nifer fach o achosion (saith o 65), fe benderfynon ni beidio â chynnwys gweithwyr proffesiynol y cawsom fanylion cyswllt ar eu cyfer oherwydd, yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r ymarferydd Gwell, fe nodon nhw mai prin oedd eu hymwybyddiaeth o waith prosiect Gwella h.y. un sgwrs dros y ffôn, neu un cyfarfod byr yn unig ar y dechrau i gyflwyno eu hunain a'r prosiect.

Cysylltwyd â'r gweithwyr proffesiynol naill ai tua diwedd yr achosion, neu yn achos rhai gweithwyr proffesiynol academaidd, tua diwedd y flwyddyn academaidd, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod ar gael i gymryd rhan a chofnodi eu barn cyn iddyn nhw adael am yr haf. Lle bo'n bosibl, cafodd gweithwyr proffesiynol eu gwahodd i gyfweiliad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn er mwyn i ni darfu cyn lleied â phosibl ar eu gwaith⁸. Roedd y cyfweiliadau'n rhai lled-strwythuredig a chawson nhw eu haddasu i ymatebion y gweithwyr proffesiynol a'u dealltwriaeth o'r prosiect. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag 1) barn gyffredinol y gweithwyr proffesiynol ynghylch prosiect Gwella; 2) eu profiadau o gydweithio â'r prosiect gan gynnwys unrhyw rôl yn y broses gyfeirio; a 3) unrhyw fyfyrddodau ynglŷn â'r effaith maen nhw wedi'i gweld ar y plentyn a/neu eu teulu neu ofalwyr. Ymhlith y gweithwyr proffesiynol a wahoddwyd, roedd 27 ohonyn nhw o wasanaethau cymdeithasol statudol, 29 o fyd addysg, ac roedd dau o wasanaethau therapiwtig eraill gan gynnwys CAMHS. Ymhlith y gweithwyr proffesiynol y

⁷ Cafodd popeth hysbys a ddychwelwyd eu cynnwys yn y dadansoddiad, ond cwblhawyd y gwerthusiad yn ystod pandemig y coronafeirws yn 2020, ac mae'n bosibl y gallai rhai o'r deunyddiau hynny fod wedi effeithio ar ddychwelyd y deunyddiau hyn pan nad oedd modd i'r fîm ymchwil gael mynediad ar ôl i'r adeiladau gau.

⁸ Mewn rhai achosion, dim ond cyfweiliad dros y ffôn a gynigiwyd yn y lle cyntaf i weithwyr proffesiynol yn ne Cymru, cyn cael cynnig cwrdd wyneb yn wyneb os na wnaethon nhw ymateb yn y lle cyntaf. Roedd hyn oherwydd prinder adnoddau'r fîm ymchwil pan oedd nifer fawr o achosion yn cau tua'r un pryd. Pan gynhaliwyd yr holl gyfweiliadau yng ngogledd Cymru, roedd gan y fîm ymchwil yr adnoddau i deithio i gyfweiliadau wyneb yn wyneb ar adegau oedd yn hwylus i'r gweithwyr proffesiynol. Felly, roedd modd cynnig cyfweiliad wyneb yn wyneb i'r holl weithwyr proffesiynol yn y gogledd pan gysylltwyd â nhw.

gwnaethom gysylltu â nhw, gwrthododd saith ohonyn nhw gymryd rhan. Mewn chwech o'r achosion hyn, nododd y gweithwyr proffesiynol mai prin iawn fu eu cysylltiad â Gwella, os bu cysylltiad o gwbl, yn ystod eu gwaith gyda'r unigolyn ifanc o dan sylw. Ni chawsom afael ar dri o'r gweithwyr oherwydd anawsterau gyda'r manylion cyswllt. Rydym yn tybio neu'n gwybod mai'r rheswm dros hynny yn y tri achos oedd oherwydd bod y gweithwyr proffesiynol wedi gadael eu swyddi ers dechrau'r prosiect, ac nid ydym wedi llwyddo i gysylltu â nhw ar ôl hynny. Ni wnaeth 15 o'r gweithwyr proffesiynol y ceision ni gysylltu â nhw ymateb i unrhyw un o'n negeseuon. Fe wnaeth 12 o weithwyr proffesiynol ymateb yn y lle cyntaf yn nodi y gallen nhw gymryd rhan, ond ni chafwyd ymateb ganddyn nhw i gynigion pellach dros y ffôn a thrwy ebost i drefnu cyfweiliad. Nid oedd unrhyw reidrwydd ar y gweithwyr proffesiynol i gymryd rhan. Am resymau moesegol, dim ond hyn a hyn o weithiau yr oeddem am gysylltu â nhw cyn dod i'r casgliad nad oedden nhw am gymryd rhan os nad oedden nhw wedi ymateb o gwbl. Nid yw'n anghyffredin ychwaith cael cyfraddau ymateb isel gan weithwyr proffesiynol i ymchwil gan fod ffactorau fel eu llwyth gwaith, symud o'r achos, neu wyliau ac absenoldeb mamolaeth yn cael effaith.

Erbyn diwedd y gwerthusiad, roedd 21 o weithwyr proffesiynol wedi'u cyfweld. Mae'n nodedig mai dim ond dau o'r gweithwyr proffesiynol y cyfwelwyd â nhw oedd o ogledd Cymru. Roedd y gyfradd ymateb yn y gogledd (25%) yn is nag ydoedd yn y de (50%), Nid oeddem yn gallu esbonio'r gwahaniaeth hwn yn y gyfradd ymateb. Roeddem yn ymwybodol o'r pellter rhwng y gweithwyr proffesiynol hyn a'r fîm ymchwil, felly cynigiwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn i'r holl weithwyr proffesiynol yn y gogledd yn y lle cyntaf. Roedd hyd y cyfweiliadau'n adlewyrchu faint o gysylltiad uniongyrchol a gafodd y gweithwyr proffesiynol gyda'r gweithiwr/gweithwyr Gwella ac a oedden nhw wedi bod yn rhan o'r broses gyfeirio. Oherwydd hynny, yn ôl pob tebyg, roedd y cyfweiliadau gyda gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol yn tueddu i fod yn hirach na'r cyfweiliadau gyda gweithwyr addysg proffesiynol. Rhwng 10 a 35 munud oedd hyd y cyfweiliadau gyda gweithwyr proffesiynol.

3.2.5 Data ffeiliau achosion

Yn ogystal â data cyfweiliad ansoddol, mae data a gofnodwyd gan ymarferwyr Gwella am bob achos wedi'i gasglu i'w ddadansoddi. Cafodd data craidd anhysbys (gwybodaeth ddemograffig ac am gyfeirio) a gedwir am holl ddefnyddwyr y gwasanaeth eu casglu gan y fîm ymchwil, yn ogystal â rhywfaint o ddata naratif am sesiynau, cyfathrebiadau a hanes cysylltu⁹. Ceir manylion y wybodaeth hon yn adran 4.10 yr adroddiad. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys sgôr deilliannau ar gyfer pob cyfnod y gwnaeth yr ymarferydd Gwella ddiweddarau'r wybodaeth hon. Mae adran 5.6 yr adroddiad hwn yn trafod y deilliannau a gofnodwyd ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Teithiodd aelodau o'r fîm ymchwil i swyddfeydd Gwella ym Mhen-y-bont ar Ogwr, de Cymru, er mwyn casglu copïau o'r data gweinyddol hwn yn ddiogel. Cafodd y data a gasglwyd ei storio'n ddiogel ar rwydwaith Prifysgol Caerdydd.

3.2.6 Storio data

Recordiwyd y cyfweiliadau drwy ddefnyddio dictaffon gyda chaniatâd y cyfranogwyr. Cafodd yr holl gyfweiliadau eu recordio a'u trawsgrifio gan drawsgrifydd profiadol ac uchel ei barch. Cafodd yr holl data ei lwytho a'i wneud yn ddienw ar y cyfle cynharaf, a storiwyd yr allwedd i'w tynnu enwau yn ddiogel ac ar wahân. Dim ond data gweinyddol dienw a recordiwyd gan yr ymchwilwyr. Mae'r holl ddata, gan gynnwys trawsgrifiadau a nodiadau atblygol ymchwilwyr a gofnodwyd yn electronig o bob cyfweiliad, wedi'u storio'n ddiogel ar gyfrifiadur y Brifysgol a ddiogelir gan gyfrinair ar rwydwaith y Brifysgol, ynghyd â chopïau caled o drawsgrifiadau cyfweiliadau a nodiadau cysylltiedig sy'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd clodwy ar safle'r brifysgol, a dim ond aelodau o'r fîm ymchwil sy'n cael mynediad atyn nhw. Cafodd y data ei godio ar feddalwedd NVivo ar gyfrifiadur a ddiogelir gan gyfrinair y Brifysgol ar rwydwaith y Brifysgol. Caiff data ei gadw am hyd at 5 mlynedd a'i ddinistrio'n ddiogel, yn unol â gofynion SREC. Wrth ddefnyddio NVivo o bell oherwydd cyfyngiadau'r Llywodraeth yn sgîl y pandemig presennol, nid oedd hwn yn cael ei gadw a'i storio ar gyfrifiaduron cartref yr ymchwilwyr.

⁹ Nid yw'r adroddiad gwerthuso yn cynnwys data naratif dau o ddefnyddwyr y gwasanaeth oherwydd nid oedd modd cwblhau diwrnod casglu data olaf y fîm ymchwil oherwydd Covid-19. Mae data craidd ac am ddeilliannau wedi'i gynnwys gan ei fod wedi'i gasglu yn ystod ymweiliadau blaenorol.

3.3. Dadansoddi data ansoddol

O ran ein fframwaith damcaniaethol, nid profi theori neu ddamcaniaeth benodol oedd y diben. Yn lle hynny, roedd gennym ddull thematig oedd wedi'i lywio gan elfennau'r broses a'r gwerthusiad o ddeilliannau, a restrwyd uchod. Roedd hyn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cofnodi ac yn dadansoddi safbwyntiau ar feysydd allweddol trefnu, gweithredu, cyflwyno ac effeithiau. Roedd hefyd yn archwiliadol, er mwyn cofnodi themâu annisgwyl ychwanegol. Roedd y dadansoddiad yn anwythol ac yn ddidwylol – wedi'i yrru gan ddata a'i lywio gan ddamcaniaethau – gan gysylltu data â fframweithiau cysyniadol, ac yn deillio'n bennaf o lenyddiaeth a damcaniaethau perthnasol. Roedd y dull hwn yn ein galluogi i edrych ar ddata'n fanwl ac ateb y cwestiynau ymchwil.

Bu ein strategaeth ddadansoddol yn un thematig ac fe'i cynhaliwyd yn bennaf gan ddefnyddio meddalwedd NVIVO. Roedd mwy neu lai saith set o ddata, wedi'u trefnu yn ôl grwpiau'r rhai a gymerodd ran. Roedd hyn er mwyn dadansoddi o fewn y setiau hyn, ac ar eu traws, i allu triongli ffactorau fel safbwyntiau gwahanol neu debyg. Mae categorïau thematig trosfwaol a themâu dadansoddol wedi'u llywio gan brif feysydd yn ogystal â'r rhai yn deillio o'r codio a chategorïau ar draws y saith set data wedi'u creu. Ffurfiwyd codau cychwynnol, a chafodd codau cysylltiedig eu grwpio a'u huno o bob set ddata ac ar eu traws i greu fframwaith codio o themâu codio ac is-themâu. Cafodd y fframwaith codio hwn ei arwain gan gwestiynau'r ymchwil, y pwyntiau i'w gwerthuso a'r data. Ategwyd hyn gan broses ailadroddus o adolygu a chroes-wirio'r themâu a'r dehongliadau hyn sy'n dod i'r amlwg â llenyddiaeth berthnasol, ymchwil a theori (Flick, 2002). Ym mlwyddyn un y peilot roeddem yn gallu trafod y themâu oedd yn dod i'r amlwg gyda Barnardo's, felly rhoddodd hyn elfen ychwanegol o drylwyrdd i'r dadansoddiad a'r argymhellion cysylltiedig. Aethom ati hefyd i drefnu'r profiadau a gofnodwyd mewn modd ochrol ar draws achosion. Fe wnaeth hyn ein galluogi i adeiladu nifer o astudiaethau achos yn seiliedig ar ddod â nifer o wahanol safbwyntiau ynghyd ynghylch yr un ymyriad. Fe wnaeth hyn ganiatáu i ni greu nifer o astudiaethau achos cadarn er mwyn rhoi dealltwriaeth fanwl o brofiadau go iawn o'r ymyriad, yr effeithiau a adroddwyd a'r rhesymeg ar eu cyfer.

3.4. Nodyn am gyflwyno data a chanfyddiadau

O ystyried maint y peilot, carfanau cymharol fach y rhai a gymerodd ran, a natur gyhoeddus y prosiect, mae posiblirwydd cryf o adnabod fîm y staff, y gweithwyr proffesiynol allanol a'r plant a'r teuluoedd oedd yn gysylltiedig, i'w hunain ac wrth rannu'r adroddiad gwerthuso hwn. Rydym wedi ceisio cydbwysu bod mor ddisgrifiadol â phosibl i fod yn dryloyw ar un llaw, a sicrhau ein bod yn diogelu anhysbysrwydd a chyfrinachedd ar y llaw arall. Rydym hefyd wedi bod yn arbennig o ofalus wrth gyflwyno data ac wrth ddefnyddio dyfyniadau uniongyrchol. Nid ydym wedi cynnwys enwau ac rydym wedi dewis termau cyffredinol fel gofalwr maeth, plentyn, rhiant, mam neu dad. Wrth gyfeirio'n benodol at yr ymarferwyr o dan sylw, rydym yn defnyddio'r term hwn, ond rydym hefyd yn defnyddio'r term 'fîm Gwella' i ddynodi bod y safbwyntiau wedi'u mynegi o fewn strwythur fîm ehangach Barnardo's. Rydym wedi osgoi defnyddio dyfyniadau uniongyrchol gan y rhai y gellir eu hadnabod yn glir o'u swyddi h.y. rheolwr y prosiect, adnoddau dynol, staff cysylltiedig a'r arbenigwyr ymgynghorol oedd yn gysylltiedig. Mae un dyfyniad wedi'i gynnwys, ond mae'n ddisgrifiadol. Nid oes enwau ar y lluniau a dynnwyd gan y plant ac sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Rhoddodd y plant a'u rhieni neu ofalwyr ganiatâd i ddefnyddio'r rhain. Rydym hefyd wedi osgoi defnyddio dyfyniadau y gellir eu hadnabod neu sydd â manylion am achosion penodol.

Adran 4: Trefnu a rhoi ar waith

Mae'r gwerthusiad o'r broses yn canolbwyntio'n rhannol ar ddeall elfennau ymarferol y gwaith o baratoi'r prosiect a'i roi ar waith. Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion a chanfyddiadau o'n dadansoddiad mewn cysylltiad â: hyd a chwmpas y prosiect, fîm Gwella, daearyddiaeth a lleoliad, trefniadau goruchwylio a chefnogi, hyfforddi a chynyddu adnoddau, cydweithio'n ymarferol ag asiantaethau eraill; y broses gyfeirio a meini prawf, a chofnodi. Mae'r broses werthuso yn amlygu sut cafodd arferion eu cyfryngu gan ffactorau'n ymwneud â threfnu, a sut oedd elfennau trefnu yn rhyngweithio ag egwyddorion a chyfeiriad y prosiect. Er enghraifft, sut oedd trefniadau

ariannu a chyflogi yn cyd-fynd ag ymdrechion i flaenoriaethu meithrin perthynas.

4.1 Hyd a chwmpas y prosiect

Ariannwyd y prosiect yn wreiddiol i gael ei gynnal fel peilot i gefnogi plant a theuluoedd am ddwy flynedd – gyda phob plentyn yn cael cefnogaeth am 12 mis llawn. Agorwyd achos cynharaf y flwyddyn beilot ym mis Gorffennaf 2017, gyda'r rhan fwyaf (N= 6) yn dechrau ym mis Medi y flwyddyn honno, dau ym mis Hydref, un ym mis Tachwedd, a dau ym mis Rhagfyr. Yn ne Cymru oedd pob un o'r achosion hyn; roedd dyddiad dechrau'r peilot yng ngogledd Cymru yn hwyrach, felly dechreuodd y rhan fwyaf o'r achosion ym mis Ionawr (N= 3) a mis Chwefror (N= 1). Dechreuodd un achos ychwanegol yn y flwyddyn beilot yn y gogledd ym mis Mi 2018 ar ôl oedi ychwanegol. Mae hynny'n golygu bod y peilot 'blwyddyn un' cychwynnol wedi para 17 mis, gan ystyried y dyddiadau dechrau amrywiol a heb gynnwys achosion y cynigiwyd ymyriad estynedig ar eu cyfer. Er mai cynnig darpariaeth i bob plentyn a theulu am flwyddyn oedd y bwriad, cafodd rhai eu hystyn, a daeth rhai i ben yn gynnar, fel y nodwyd yn 5.2. Rhoddodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol i ariannu'r prosiect ymhellach am flwyddyn ychwanegol. Fe wnaeth 'blwyddyn dau' y peilot bara 14 mis, a chafodd pob achos newydd ym flwyddyn dau ymyriad 12 mis o hyd. Dechreuodd achosion cyntaf ail flwyddyn y cynllun ym mis Ionawr 2019 ac roedden wedi'u cwblhau erbyn wythnos gyntaf mis Chwefror 2020. Daeth yr arian ar gyfer prosiect Gwella i ben ym mis Mawrth 2020.

Rydym yn nodi yr achosodd y cyd-destun ehangach hwn o ariannu am gyfnod penodol oblygiadau ar gyfer rhoi'r prosiect ar waith a'i gyflwyno. Gan ei fod yn cael ei ystyried yn brosiect ymchwil ac ymarfer ehangach yn 'Gwella', roedd blwyddyn cyn y ddwy flynedd pan fyddai ar waith a allai, i ryw raddau, gael ei defnyddio i ddylunio a sefydlu'r dull a'r prosiect. Roedd hynny'n golygu y gallai prosesau recriwtio, paratoi'r prosiect a sefydlu cysylltiadau fod gam ar y blaen yn ystod y flwyddyn baratoadol cyn y dyddiad dechrau disgwyledig ar gyfer cyflwyno'r prosiect. Fodd bynnag, roedd hwn yn ddull ac yn brosiect peilot arloesol ym mhob ystyr, heb unrhyw lawlyfr nac arweiniad. Felly, roedd rhaid i'r elfennau

ymarferol ar gyfer ei threfnu, rhoi ar waith a chyflwyno'r gwasanaeth gael eu sefydlu'n gyflym o fewn amserlen yr ymyriad. Ar ben hynny, fe wynebodd y prosiect anawsterau a amharodd ar y dyddiadau ar gyfer dechrau gweithio gyda phlant a theuluoedd (fel salwch ymysg y staff, rhoi hyfforddiant i ymarferwyr, creu perthnasoedd gydag asiantaethau'n lleol) ac roedd gan yr amserlen oblygiadau o ran rhai agweddau ar roi'r prosiect ar waith (fel cyfeiriadau a'r broses gyfeirio). Golygodd hyn na fyddai'r cynllun gwreiddiol ar gyfer prosiect sy'n cyflwyno 12 mis o ymyriadau yn ystod y ddwy flynedd o dan sylw, ac yna'n dair blynedd maes o law gyda'r arian ychwanegol a roddwyd i'r prosiect, wedi bod yn bosibl heb ryw faint o amser ychwanegol ar gyfer paratoi a dod â'r prosiect i ben.

Cafodd yr arian oedd yn gaeth i amserlen effaith ar staff y fim hefyd, oherwydd gadawodd dau ymarferydd cyn diwedd y prosiect a'u hamser gorffen disgwyledig. Mynegodd yr ymarferwyr hyn yn eu cyfweiliadau eu bod yn drist ynghylch gadael ac roedden nhw am i hynny gael ei nodi oherwydd eu bod yn gwybod beth fyddai effaith hyn ar y plant ar teuluoedd yr oedden nhw'n eu cefnogi ac ar y prosiect (rydym yn ystyried y rhain ymhellach, isod). Fodd bynnag, fe egluron nhw fod natur tymor byr yr arian ar gyfer y prosiect, a'u contract cyflogaeth yn sgil hynny, yn golygu bod angen iddyn nhw chwilio am waith arall cyn diwedd y prosiect.

Nid prosiect Gwella yw'r unig un sy'n wynebu'r heriau hyn. Fodd bynnag, mae'r rhain i'w nodi oherwydd natur prosiectau a ariennir dros gyfnod byr, ond yn fwy felly pan mae'r rhain yn arloesol ac yn gymhleth, yn ceisio rhoi perthnasoedd a phlant yn gyntaf, ac wedi'u dylunio i weithio gyda darpariaeth gyfredol ac asiantaethau allanol, ac angen amser i ennill eu plwyf. Mae rhai effeithiau negyddol ar brofiadau'r plant, y teuluoedd a'r ymarferwyr oherwydd ffactorau trefniadol e.e. gweithwyr yn dod â'u perthynas gyda phlant i ben yn gynnar oherwydd contractau cyflogaeth tymor byr ac amserlenni ariannu. Mae hyn yn dangos sut y gall ceisio rhoi pwyslais ar blant a meithrin perthynas fynd yn groes i ystyriaethau trefniadol. Mae'r ffordd y mae sefydliadau a chomisiynwyr yn ystyried ac yn lliniaru'r effeithiau sy'n deillio o'r mathau hyn o wrthdaro yn her allweddol.

4.2 Tîm Gwella

Ym 'mlwyddyn un' peilot Gwella, roedd saith ymarferydd. Roedd chwech ohonyn nhw yn amser llawn, un yn rhan-amser, ac roedd rheolwr prosiect. Roedd arian gorbenion ychwanegol ar gyfer cefnogaeth weinyddol ac uwch-reoli llinell. Ym mlwyddyn dau, roedd achosion gan dri o'r rheolwyr amser llawn gwreiddiol ac un ymarferydd a ymunodd â'r tîm yn rhan-amser. Hefyd ym mlwyddyn dau, cafodd un o ymarferwyr Gwella (oedd wedi bod gyda'r prosiect yn rhan-amser yn y lle cyntaf, a adawodd am gyfnod cyn i'r arian ychwanegol gael ei gadarnhau, cyn ailymuno) ei benodi'n rheolwr prosiect. Arhosodd y rheolwr prosiect gwreiddiol gyda'r prosiect, ond mewn rôl ran-amser un diwrnod yr wythnos.

4.2.1 Demograffeg ac arbenigedd yr ymarferwyr

Ymhlith y naw ymarferydd oedd yn rhan o'r prosiect o'r dechrau tan y diwedd, menywod oedd wyth ohonynt, a dyn oedd y llall. Roedd gan bob un ohonyn nhw brofiad blaenorol o weithio gyda phlant a phobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ($N = 6$) yn dod o gefndir gwaith a gofal cymdeithasol, roedd un yn dod o gefndir addysg, a'r llall o gefndir therapiwtig broffesiynol¹⁰. Roedd pob un ohonyn nhw'n gyfarwydd ag ymarfer yn ymwneud â pherthnasoedd ac ar sail anghenion, a dywedwyd ei fod yn cael ei ystyried yn 'foethusrwydd' yn eu swyddi eraill. Cafodd profiad blaenorol o weithio gyda rhieni a gofalcwyr ei nodi fel rhywbeth gwerth ei gael, ac roedden nhw i gyd yn gyfarwydd â systemau gwasanaethau cymdeithasol (roedd rhai yn weithwyr cymdeithasol cymwys). Roedd hyn yn hanfodol ar gyfer elfen y rôl oedd yn cynnwys gweithio gydag asiantaethau eraill ac ategu darpariaeth gyfredol i deuluoedd.

Dim ond dau o'r ymarferwyr oedd â chefnidir ym maes dulliau a thechnegau therapiwtig; roedd gan un brofiad penodol o ddefnyddio technegau chwarae therapiwtig (Therapi Chwarae) oedd yn rhan o ddull Gwella, ac roedd un arall yn therapydd drama cymwys. O ystyried elfen seicolegol y dull, mae elfennau trefniadol fel hyfforddi a datblygu, a chefnogaeth gan arbenigwyr trawma a chlinigol, yn rhan bwysig o'r gwerthusiad ac yn cael eu

hystyried yn adrannau 4.6 a 4.5. Wrth i ni drafod, roedd dulliau penodol o fewn egwyddorion y dull a allai fod wedi tanseilio hyder yr ymarferwyr yn eu harbenigedd eu hunain pe bydden nhw'n meddwl bod rhaid cadw atyn nhw'n gaeth wrth gyflwyno'r ymyriad. Fodd bynnag, wrth i'r peilot fynd rhagddo roedd yn amlwg yn y cyfweiliadau bod cefndir proffesiynol yr ymarferwyr yn llywio eu dehongliad o ddull Gwella. Roedd hyn yn rhoi hyblygrwydd iddyn nhw gyfarwyddo eu gwaith gyda phlant a theuluoedd, yn ogystal a llywio ymarfer ei gilydd drwy rannu dysgu.

Mae pwysigrwydd y gallu hwn i fod yn ymatebol i'w weld hefyd ym marn y rhieni a'r gofalcwyr ynglŷn â'r rhieni wnaeth eu cefnogi. Fe wnaeth rhieni yn benodol amlygu pwysigrwydd y gweithiwr ei hun wrth lywio profiad y prosiect a bod y gweithiwr yn rhan hanfodol o beth oedd yn gwneud i'r prosiect 'weithio'. Wrth wneud hynny, fe gyfeirion nhw at ba mor agored oedd yr ymarferwyr, eu dealltwriaeth, eu synnwyr digrifwch a'r gallu i ymddiried ynddynt. Fel y gwelir yn yr enghraifft isod, er bod y nodweddion hyn yn amlwg yn rhan o bersonoliaethau'r ymarferwyr, mae'r data'n awgrymu bod natur hyblyg dull Gwella a'r ffaith ei fod yn seiliedig ar anghenion yn ategu'r rhinweddau hyn.

Mam: *Mae hi'n fwy deallgar. Rwy'n teimlo mod i'n gallu bod yn agored gyda hi. Mae'n hi'n teimlo, fel mod i'n gallu agor i fyny yn hyderus ac... mae oherwydd ei phersonoliaeth a'i synnwyr digrifwch ...ro'n i'n gwbl agored gyda hi yn syth.*

Ymchwilydd: *Ok, ac a oedd hynny'n wahanol i'r gweithwyr eraill rydych wedi'u cael?*

Mam: *Mae'n wahanol iawn i weithwyr eraill oherwydd rwy'n eitha byr fy amynedd gyda phobl, os ydyn nhw'n fy hoffi, dyna ni, os nad ydyn nhw, dwi ddim am newid fy ffordd. Ond nes i gymryd ati [yr ymarferydd] o'r dechrau. Rwy'n mynd i weld ei heisiau achos mae pobl ddiffuant fel [ymarferydd] mas yna sy'n helpu ac yn poeni amdanon ni, nid ar gyfer ei gwaith yn unig, roedd hi yno ar gyfer y teulu hefyd. Y teulu oedd yn dod gyntaf iddi, nid ei gwaith.*

¹⁰ Nid oedd y tîm ymchwil yn gwybod beth oedd cefndir un ymarferydd. Dim ond am gyfnod byr y bu'r ymarferydd yn gysylltiedig ac nid oedd ar gael ar gyfer casglu data.

Roedd yr holl rieni a gofalwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil yn hoffi eu gweithwyr. Fodd bynnag, roedd eu profiadau o'r prosiect, yn enwedig eu ffydd yn y gweithiwr, yn amlwg yn gysylltiedig â'u canfyddiad o arbenigedd a gallu'r ymarferwyr; roedd hyn yn ymwneud â gallu'r ymarferwyr i gefnogi eu plentyn – nodon nhw, er enghraifft, bod y plentyn o dan eu gofal yn hoffi eu gweithiwr ac yn hoffi eu gweld, a pha mor bwysig oedd hynny – a'r cyngor a'r cymorth ymarferol a gawson nhw. Mewn achosion lle'r oedd gan y teuluoedd bryderon, er eu bod yn pwysleisio bod eu gweithiwr yn ddymunol iawn, roedden nhw'n poeni a oedd gan yr ymarferydd ddigon o brofiad a dealltwriaeth o'r ymyriad. Fodd bynnag, fe gyfeiriodd y rhieni a'r gofalwyr at arbenigedd, sgiliau a gallu'r ymarferwyr i'w helpu a'u cefnogi yn y rhan fwyaf o achosion. Mae hyn i'w weld yn yr enghraifft isod:

"does gennym ni mo'r ddealltwriaeth broffesiynol i ofyn y cwestiynau perthnasol iddo pam mae'n gwneud rhai pethau. Gyda [ymarferydd] yn amlwg [mae] ganddo'r profiad a phopeth fel yna, rydyn ni'n dweud wrth [ymarferydd] pam mae'n gwneud hyn, 'gallai hyn fod oherwydd...' ac yn sydyn rydyn ni'n gallu gweld, ie wrth gwrs, mae hynny'n bosib. Nawr mewn sefyllfa lle mae ganddo ryw faint o agwedd tuag atom ni, efallai nad ydyn ni'n deall o gwbl pam mae'n gwneud hynny, rydyn ni'n dweud wrtho pam wyt ti fel yna, pam wyt ti'n bod yn ymosodol a phob dim, dwi ddim yn gwybod. Ond gallai [ymarferydd] fel gweithiwr proffesiynol feddwl am bosibiliadau eraill"

Gofalwr maeth

Yn hyn o beth, nododd y rhieni a'r gofalwyr ddwy rinwedd oedd eu hangen ar weithiwr proffesiynol effeithiol yn eu barn nhw: y gallu i greu perthynas gadarnhaol; a dealltwriaeth ddamcaniaethol ac ymarferol a sgiliau y gellir eu rhoi ar waith yn barchus. Dywedodd y mwyafrif llethol o rieni a gofalwyr bod ymarferwyr Gwella yn dangos y rhinweddau hyn. Roedd ambell eithriad lle'r oedden nhw'n teimlo bod gweithwyr yn dilyn y technegau ymyrryd yn rhy gaeth ac yn ymddangos fel eu bod wedi'u gorfodi yn hytrach na rhai digymell.

Roedd gan y plant fu'n rhan o'r gwerthusiad safbwyntiau tebyg i'r rhieni a'u gofalwyr. Tynnodd bob un ohonyn nhw sylw at sut eu gweithiwr yn cael ei werthfawrogi am fod yn garedig, gofalgar, hwyliog, doniol ac yn eu

gwneud iddyn nhw chwerthin. Fe rannon nhw eu bod yn hoffi eu gweithwyr oherwydd bod ganddyn nhw wên hardd, eu bod bob amser yn hapus, ddim yn gas a'u bod yn eu hoffi'n fawr iawn. Cafodd y llun canlynol ei dynnu gan blentyn 7 oed i ddangos pa mor agos yr oedd hi'n teimlo at ei gweithiwr, a dywedodd y geiriau 'hapus, cymwynasgar, hardd a hwyl' wrth yr ymchwilydd i gyfleu beth oedd yn bwysig iddi am ei gweithiwr. Eglurodd ei bod wedi tynnu llun 'pen mawr' ar gyfer ei gweithiwr oherwydd bod gan ei gweithiwr 'ymennydd mawr, yn gwybod llawer ac yn gallu gwneud llawer o bethau'.



Plentyn, 7 oed

Mae hyn yn cyd-fynd ag adborth gan rieni a gofalwyr, sef bod gallu siarad â phlant yn fedrus ac yn wybodus am eu teimladau a bod yn gadarnhaol wrth gyfathrebu â phlant yn hanfodol. Roedd cysondeb yn rhywbeth oedd yn bwysig i blant hefyd. Mae'r dyfyniad canlynol gan blentyn 10 oed yn sôn am pam mae'n hoffi ei gweithiwr gymaint, ac yn ei chymharu â gweithwyr eraill mae hi wedi'i adnabod:

"Byddai'r bobl sy'n dweud fy mod i'n bwysig yn mynd i ffwrdd am amser maith ond aeth [ymarferydd Gwella] am tua pythefnos ond daeth yn ôl ...ond ro'n i'n ok gyda hynny oherwydd doedd o ddim fel ei bod wedi mynd am bron i flwyddyn oherwydd dwi'n meddwl aeth [gweithiwr cymdeithasol] am dros ddeufis."

Plentyn, 10 oed

Yn ogystal â sgiliau ac arbenigedd mewn deall trawma ac rhoi cefnogaeth i blant ac ar sail anghenion, mae

safbwyntiau pawb oedd yn gysylltiedig â'r prosiect yn cyd-fynd â'r canfyddiadau yn yr adolygiad mapio llenyddiaeth ar gyfer y dull; bod sefydlogrwydd, cynaliadwyedd ac ymatebolrwydd yn feini prawf perthynol allweddol i ymarferwyr.

4.2.2 Absenoldebau a newidiadau i staff

Bu absenoldebau ymysg staff y tîm dros gyfnod o fisoedd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd salwch yn ogystal â chyfnod mamolaeth wnaeth amharu ar y gwaith gyda theuluoedd ym mlwyddyn un. Fe wnaeth hynny olygu y daeth pum achos i ben cyn y dyddiad y bwriadwyd i'r ymyriad ddod i ben, neu cawson nhw eu hymestyn i flwyddyn dau a'u rhoi i ymarferwyr eraill. Ym mlwyddyn dau, gadawodd un o'r ymarferwyr y prosiect 1-2 fis cyn y dyddiad y bwriadwyd i'r ymyriad ddod i ben ar gyfer dau o'u plant a'u teuluoedd. Ni wnaeth unrhyw aelod arall o'r tîm adael yn gynnar, ac ni fu unrhyw absenoldebau salwch hirdymor yn ystod blwyddyn dau.

Nodwyd yn rhai o'r cyfweiliadau gyda staff y prosiect bod absenoldebau oherwydd salwch wedi achosi problemau ac roedd goblygiadau tarfu o'r fath i'r plant oedd wedi'u heffeithio gan yr absenoldebau hyn i'w gweld mewn cyfweiliadau gyda gofalwyr a rhieni, yn ogystal â'r gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda nhw. Roedd hi'n anodd rheoli'r tarfu hwn mewn rhai achosion a mynegwyd pryderon mewn rhai cyfweiliadau nad oedd cyfle i rywun wneud gwaith rhywun arall oedd yn sâl gan fod y tîm yn fach. Roedd hyn yn rhywbeth a godwyd gan y gweithwyr proffesiynol oedd yn gysylltiedig â'r achosion gyda'r rhai a effeithiwyd gan hyn.

"Dwi'n meddwl i ni yn [lleoliad], cafodd ei siomi gan y staff, y staff unigol oedd yn gwneud y gwaith. Felly, rwy'n meddwl bod absenoldeb a newidiadau ymysg y staff a gafodd gryn effaith ar y perthnasoedd oedd yn cael eu meithrin rhwng gofalwyr gofal a'r gweithiwr, y plentyn a'r gweithiwr. Ac yn amlwg, mae'r perthnasoedd hyn yn allweddol ar gyfer y model, felly fe wnaeth y diffyg sefydlogrwydd hwn olygu y cawson ni ddeilliannau eithaf gwael. A dwi ddim yn meddwl mai model gwael neu ddamcaniaeth wael oedd i'w gyfrif am hynny. Roedd o'n anffodus ei fod yn dîm bach ac nad oedd gennym yr adnoddau i wneud

yn siŵr eu bod yn gallu helpu pobl ifanc mewn modd amserol hefyd."

Gweithiwr cymdeithasol

Fel y cyfeiriwyd ato yn y dyfyniad uchod, mae natur yr ymyriad, sydd wedi'i lunio i feithrin perthynas gyson rhwng un ymarferydd a phlentyn a'u rhiant/gofalwr/gofalwyr, er mwyn creu cyd-destun perthynol diogel ac ystyrlon ar gyfer y 'gwaith', ynddo'i hun yn creu problemau pan mae ymarferydd yn absennol dro ar ôl tro. Mae hyn oherwydd ei fod yn effeithio ar y plentyn yng nghyd-destun y berthynas bersonol honno – maen nhw'n gweld eisiau eu gweithiwr, yn teimlo'n ddryslyd, wedi'u siomi a gall hyn effeithio ar y ffydd sydd ganddyn nhw yn yr ymarferydd. Fel y dywedodd un teulu maeth:

Gofalwr 1: Fe wnaeth hi wrthod ei gweld?

Gofalwr 2: Un neu ddau o weithiau, na, doedd hi ddim eisiau.

Gofalwr 1: Roedd hi'n benderfynol nad oedd hi am ei gweld hi. A byddai hi'n dod i mewn a byddai hi'n rhedeg i fyny'r grisiau? A byddai hi fel, dwi ddim am ei gweld hi. Fe wnaeth hi fy ffonio un diwrnod. Ro'n i'n siarad â [ymarferydd] a doedd hi ddim eisiau siarad â hi. Ac ro'n ceisio ei hannog, mi fydd yn hwyl, dydyn ni ddim am dy adael di, rydyn ni am eistedd yn yr ystafell. Os oes rhaid imi, oedd ei hagwedd. Ond roedd hynny oherwydd doedd [yr ymarferydd] ddim...

Gofalwr 2: Yn gyson.

Gofalwr 1: Ie, am ei bod hi'n hoffi [ymarferydd]? Dywedodd hi ei bod yn ei hoffi felly roeddech yn gwybod eu bod yn dod ymlaen.

Roedd y broblem hefyd yn golygu bod natur yr ymyriad yn gweithio yn erbyn defnyddio ymarferwyr eraill i roi help llaw fel ateb syml pan oedd rhywun yn sâl neu ar gyfnod mamolaeth. Pan ddigwyddodd hyn, nid oedd camau wrth gefn i'w cymryd os oedd salwch annisgwyl neu ymarferwyr yn gadael y prosiect yn gynnar. Yn y pen draw, un ateb oedd cynnig ymyriad estynedig i'r teuluoedd sydd wedi'u heffeithio. Cynigiodd hyn rywfaint o gysondeb drwy aros gyda'r ymarferydd cychwynnol neu symud i ymarferydd gwahanol os disgwyliar i'r absenoldeb fod am amser maith. Roedd

un o'r teuluoedd a gymerodd ran yn teimlo y dylai'r ymyriad gyda'r ymarferydd newydd gael ei ymestyn i 12 mis (ychwanegol) arall, ac roedd hwn yn ateb oedd yn anodd ei roi ar waith yng nghyd-destun ariannu tymor byr. Rydyn yn nodi yma y tynnodd un teulu¹¹ yn ôl o'r prosiect gan nad oedd modd cynnig estyniad hirach iddyn nhw. Roedd dau deulu am i ni nodi yn y gwerthusiad eu bod yn siomedig na chafodd y plentyn o dan eu gofal y gefnogaeth a addawyd iddyn nhw. Er hyn, roedden nhw hefyd yn pwysleisio eu bod yn parhau i gefnogi'r syniad y tu ol i'r ymyriad, yr ymarferwyr eu hunain, a dywedon nhw bod angen y prosiect. Roedden nhw'n deall bod ffactorau trefniadol wedi amharu ar eu profiadau, a bod natur tymor byr y prosiect wedi gwaethygu'r ffactorau hynny. Dyma oedd casgliad un gofalwr maeth:

"rydyn ni'n gwerthfawrogi'r bobl hyn sy'n creu'r prosiect am ei fod yn creu prosiect sydd wir yn gofalu am anghenion plant. A'r biwrocratiaeth a'r ariannu, popeth arall sy'n gallu difetha prosiect, dyna pam nad yw wedi weithio.

Gofalwr maeth

Er bod goblygiadau tarfu oherwydd absenoldeb yr ymarferwyr a rhoi rhybudd o adael yn hynod arwyddocaol i'r plant a'r teuluoedd yn ogystal â llwyddiant yr ymyriad, fe wnaeth ffactorau trefniadol ac amserlen y prosiect amharu ar ymdrechion i drefnu'r prosiect er mwyn lliniaru'r goblygiadau hyn. Yn rhannol, mae goblygiadau o'r fath yn dangos yr heriau sy'n gysylltiedig â rhoi pwyslais perthynol yr ymyriad ar waith (a'i effeithiolrwydd).

4.3 Daearyddiaeth a lleoliad

Ym mlwyddyn un y prosiect, gweithiodd Gwella gyda phum awdurdod lleol yng Nghymru; ym mlwyddyn dau, canolbwyntiwyd ar weithio gyda phedwar awdurdod lleol. Ym mlwyddyn un, fe wnaeth y ddau ymarferydd Gwella yng ngogledd Cymru (N= 2) weithio ar achosion yn Sir Ddinbych; yn ne Cymru, roedd dau ymarferydd yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin, a dau yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Ym mlwyddyn dau, roedd un o'r ddau oedd wedi gweithio yn Sir Ddinbych yn flaenorol

yn gweithio ar achosion yng Nghonwy, ac roedd y llall wedi'i symud i achosion yn Sir Gaerfyrddin. Roedd un o'r ymarferwyr oedd yn gweithio yn y de yn flaenorol wedi parhau i weithio ar achosion newydd o Abertawe a'u hachosion estynedig o beilot Sir Gaerfyrddin, a gweithiodd yr ymarferydd newydd arall gydag achosion newydd yn Abertawe a Rhondda Cynon Taf, ac achos estynedig yn Rhondda Cynon Taf.

Roedd trefniadau gweithio mewn swyddfa'r ymarferwyr yn amrywio yn ôl beth oedd yn gweithio orau o ran cydweithio â'r awdurdod lleol yn eu hardal ddaearyddol. Ym mlwyddyn un, rhoddodd yr awdurdod lleol weithfannau i'r ddau ymarferydd yn y gogledd. Fodd bynnag, nododd y ddau eu bod yn gweithio gartref yn rheolaidd oherwydd yr ardal ddaearyddol yr oedden nhw ynddi. Ym mlwyddyn dau, fe wnaeth yr ymarferydd ag achosion yng Nghonwy weithio gartref, fel y gwnaeth yr ymarferydd oedd yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin yn unig. Nododd y ddau ohonyn nhw bod gweithfannau ar gael ar eu cyfer yn ôl pob tebyg yn swyddfeydd Barnardo's. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau gweithio ffurfiol ar eu cyfer yn y swyddfeydd hyn ac nid oedden nhw mewn lleoliad hwylus rhwng eu gwaith a'r ymweliadau. Ym mlwyddyn un yn ne Cymru, cafodd yr ymarferwyr yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful weithfan yn yr awdurdod lleol ym Mhen-y-waun, Aberdâr. Roedd y rhai oedd ag achosion yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin yn gweithio yn swyddfeydd Barnardo's yn y Pil, Pen-y-bont ar Ogwr, ym mlynnyddoedd un a dau. Roedd gan bob ymarferydd achosion ar draws ardal ddaearyddol fawr, ac roedd hyn yn arbennig o wir i'r ymarferwyr oedd yn gweithio yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin.

Er bod y ddaearyddiaeth a'r trefniadau talu yn cynnig cyfleoedd i gefnogi teuluoedd ar draws ardal ddaearyddol eang, roedd hefyd yn gwneud pethau'n anoddach ar gyfer y prosiect. Roedd lleoliad a pellteroedd teithio yn dibynnu ar ble'r oedd teuluoedd yn byw yn yr awdurdod lleol, ac roedd rhai ymarferwyr yn byw yn bell oddi ffwrdd eu teuluoedd. Roedd y rhain yn cynnwys y rhai oedd yn gweithio gartref yn bennaf a heb swyddfa ger eu hachosion. Dywedodd rhai ymarferwyr yn y cyfweiliadau bod hyn yn peri anhawster o ran cydlynu amseroedd teithio hirfaith gydag anghenion amserlennu

¹¹ Ni wnaeth un teulu ail-ymgysylltu ar ôl newid y gweithiwr a ddyrannwyd, fodd bynnag ni wyddwn ai dyma'r rheswm dros dynnu'n ôl.

plant a theuluoedd. Roedd hyn yn effeithio ar hyd eu diwrnod gwaith neu eu horiau gwaith, yn enwedig os oedden nhw'n ceisio cwrdd â phlant y tu allan i'r ysgol ac ar wahân i'w rhieni. Mae'n bwysig nodi hyn, gan fod yr hyblygrwydd hwn yn elfen bwysig (i rieni a gofalwyr) o gyflwyno'r prosiect a chyfrannu at lwyddiant yr ymyriad (a drafodir yn adran 5.3), a gallai fod yn broblem gynyddol pe byddai ymarferwyr yn cael rhagor o achosion; felly, dylai unrhyw ymdrechion i liniaru yn erbyn hyn roi pwyslais ar reoli'r ddaearyddiaeth (wrth ystyried sut y dyrennir achosion a llwyth gwaith), yn hytrach na'r hyblygrwydd sy'n rhan o'r dull.

Fe wnaeth y diffyg sylfaen ar gyfer y prosiect o ran prif leoliad ar gyfer y tîm cyfan roi heriau i reolwr y prosiect o safbwynt rheoli a chefnogi staff ar draws prosiect mor eang. Roedd hyn hefyd yn ei gwneud yn anodd creu ymdeimlad cryf o dîm, yn ogystal â chael cyfleoedd i gael cyfarfodydd tîm a chael cymorth cymheiriaid (trafodir hyn ymhellach isod)¹².

4.4 Rheoli llinell, goruchwyliaeth a chefnogi timau

Ym mlwyddyn gyntaf y prosiect, roedd rheolwr prosiect amser llawn yn rheolwr llinell ar ymarferwyr Gwella. Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y gwasanaeth oedd rheolwr llinell rheolwr y prosiect. Roedd gan y rheolwr a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol brofiad helaeth o weithio gyda phlant a phobl ifanc ym meysydd ymarfer CSE a HSB, yn ogystal â rheoli prosiectau yn y meysydd hyn. Fe wnaethon nhw hefyd arwain datblygiad dull Gwella a phrosiect Gwella. Chwe mis cyn diwedd y prosiect, cafodd amser y rheolwr prosiect ei ostwng i un diwrnod yr wythnos. Cafodd un o'r ymarferwyr ei benodi'r rheolwr tîm newydd a barhaodd i fod yn ymarferydd gydag achosion ar waith yn ogystal â rheoli elfen oruchwylol y prosiect.

4.4.1 Rheoli llinell

Roedd goruchwyliaeth yn broses unigol yn bennaf ac roedd i fod i ddigwydd bob deufis yn y lle cyntaf.

Rhoddodd goruchwylwyr y cyfle i drafod unrhyw bryderon, cynnydd a heriau oedd yn ymwneud ag achosion teuluol a'r gwaith gyda phob plentyn, rhiant a gofalwr fel y cynlluniwyd.

Dyweddodd yr ymarferydd yn y cyfweliad na chynhaliwyd goruchwyliaeth ffurfiol rheolaidd ar adegau oherwydd absenoldebau, a bod hyn wedi cynnwys cyfnod hwy nag absenoldeb salwch rheolwr y prosiect. Fodd bynnag, fe wnaethon nhw ddweud y gallen nhw gysylltu â rheolwr y prosiect ar unrhyw adeg yr oedd angen gwneud hynny. Ym mlwyddyn dau, rhoddodd rheolwr newydd y tîm oruchwyliaeth reolaidd.

Cafodd pwysigrwydd cefnogaeth a goruchwyliaeth ei bwysleisio yn yr holl gyfweiliadau gydag ymarferwyr. Gwnaethpwyd hyn naill ai drwy ddefnyddio enghreifftiau cadarnhaol a chysylltu hyn â'u profiadau o weithio ar y prosiect, neu o'r goblygiadau negyddol pan nad oedden nhw'n teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth. Ar y cyfan, roedden nhw'n sôn yn gadarnhaol am ansawdd eu goruchwyliaeth rheoli llinell a'r gefnogaeth a gawson nhw. Yn mlwyddyn un a dau, fodd bynnag, cafodd yr oruchwyliaeth ysbeidiol dros gyfnodau o amser, a'r ymdeimlad o fethu cynnig goruchwyliaeth arall yn ystod yr absenoldebau hyn, ei hamlygu fel problem o ran lles y staff, morâl a hyder. Ym mlwyddyn un yn benodol, siaradodd yr ymarferwyr am deimlo'n unig, a dywedodd rhai nad oedden nhw'n hyderus ynghylch sut oedden nhw'n mynd ati i roi'r dull ar waith ac angen sicrwydd. Pan oedd goruchwyliaeth yn cael ei chynnig yn rheolaidd, siaradodd ymarferwyr am werthfawrogi'r gefnogaeth fugeiliol a lles.

4.4.2 Cefnogaeth gan gymheiriaid

Ar ddechrau'r prosiect, roedd cyfarfodydd tîm hanner diwrnod ar gyfer holl staff y prosiect. Fel ffordd o fynd i'r afael â pha mor anghysbell oedd y tîm, sefydlwyd system 'cyfeillio' rhwng yr ymarferwyr hynny oedd fwy neu lai'n cynnwys yr un lleoliadau.

Cafodd pwysigrwydd cefnogaeth gan gymheiriaid ei godi mewn sawl ffordd. Fe soniodd ymarferwyr Gwella am

¹² Mae'r data yn dangos na ddefnyddiwyd technoleg, ar wahân i ebost, fel ffordd o liniaru yn erbyn yr heriau hyn o ran daearyddiaeth a gweithle. Cwblhawyd y gwerthusiad hwn yn ystod pandemig 2020. Mae'r cyfyngiadau cysylltiedig yn cyflwyno cyfyng gyngor perthnasol ac ateb posibl gan fod llawer o weithleoedd gan gynnwys timau gofal cymdeithasol wedi gorfod symud camau goruchwyllo i blatfformau ar-lein. Gall dysgu gwersi o hyn fod yn gyfle i symud ymlaen o ran trefnu.

bwysigrwydd y gefnogaeth gan yr ymarferydd yr oedden nhw wedi'u paru gyda nhw, ac roedd hyn yn arbennig o wir i ddau ymarferydd a siaradodd am eu diffyg hyder wrth wneud eu gwaith o ran yr heriau oedd yn gysylltiedig â rhoi'r ymyriad ar waith a defnyddio dull Therapi Chwarae yn enwedig. Fe sonion nhw am sut roedden nhw'n gwerthfawrogi'r cyfle i drafod eu hachosion a'u gweithgareddau, a nodon nhw eu bod yn gwneud hynny'n eithaf rheolaidd (yn wythnosol a bron yn ddyddiol mewn rhai achosion). Dywedon nhw hefyd y bydden nhw wedi hoffi cael mwy o gyfathrebu ar draws y tîm cyfan oherwydd fe dywedodd llawer o ymarferwyr nad oedden nhw mewn cysylltiad ag unrhyw un ar wahân i'r ymarferydd arall yn eu rhanbarth. Mae'r data yn dangos y gallai fod cysylltiad rhwng y diffyg hyder hwn a theimlo'n ynysig oddi wrth ymarfer, gan beri goblygiadau i'r ymarferydd a'u gwaith gyda theuluoedd. Mae trawsgrifiadau'r ymarferwyr yn dangos yn glir eu bod yn poeni am eu gwaith a bod angen rhagor o gefnogaeth a hyfforddiant.

Yn fwy cyffredinol, dywedodd yr ymarferwyr bod y diwrnodau tîm cyn bwysiced â chyfluoedd dysgu pwysig. ac am werth rhannu ymarfer, dysgu oddi wrth ei gilydd, a pha mor agored yw'r tîm cyfan. Dywedodd o leiaf ddau ymarferydd bod angen cyflwyno goruchwyliaeth mewn grwpiau yn fwy ffurfiol er mwyn siarad am achosion unigol, yn ogystal â chyfarfodydd tîm rheolaidd at ddibenion lles a dysgu yn fwy cyffredinol.

Er nad yw'n anghyffredin i oruchwyliaeth reolaidd fod yn her mewn amgylcheddau prysur ym maes gofal cymdeithasol, mae angen amlygu pwysigrwydd cefnogaeth drwy oruchwyliaeth ar gyfer dull Gwella. Roedd hon yn neges bwysig o'r adolygiad cwrpasu hefyd. Mae gofynion emosiynol yn gysylltiedig â'r rôl. Mae dull Gwella yn ceisio trawsnewid sy'n cynnwys elfen o monitro, ond mae angen goruchwyliaeth reolaidd a chadw mewn cysylltiad â'r tîm ar gyfer yr elfen o ddull Gwella lle mae angen bod yn gymwys ar draws nifer o ddulliau arbenigol. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried natur gweithio o bell. Mae'r model a gefnogir drwy'r canfyddiadau yn cynnwys goruchwyliaeth unigol reolaidd, system baru ar gyfer cefnogaeth fwy anffurfiol gan gymheiriaid. Mae hefyd yn cynnwys goruchwyliaeth reolaidd i grwpiau, a chyfarfodydd tîm fel dull mwy ffurfiol o gefnogaeth gan gymheiriaid.

4.5 Cefnogaeth seicolegol/clinigol

Yn ogystal â goruchwyliaeth rheoli llinell, cafodd goruchwyliaeth seicolegol a chefnogaeth asesu er mwyn gweithio ar achosion eu hymgorffori yn yr ymyriad. Cefnogaeth seicolegol yw un o egwyddorion allweddol dull Gwella, ac mae'n cynnwys y canlynol: Mae seicolegydd yn rhoi goruchwyliaeth glinigol i staff Gwella; bydd seicolegydd clinigol yn asesu ac yn dehongli'r mesurau seicolegol a ddefnyddir; a bydd seicolegydd clinigol yn sicrhau ansawdd adroddiadau perthnasol. Pwrpas yr oruchwyliaeth glinigol a fanylir gan Barnardo's yw cynnig lle ychwanegol y tu hwnt i oruchwyliaeth gan reolwyr llinell er mwyn i ymarferwyr fyfyrwyr ar eu gwaith gydag unigolion, yn fwy penodol o ran ystyried y ddeinameg wahanol a allai fod ar waith mewn perthnasoedd perthnasol. Mae hefyd yn gyfle iddyn nhw fyfyrwyr ar lwyddiant neu heriau technegau ymyrryd a ddefnyddiwyd hyd yma, yn ogystal ag ystyried effaith y ddeinameg (emosiynol, seicolegol, datblygiadol) ar y dull a ddefnyddiwyd a sut gallai dull/techneg wahanol weithio'n wahanol.

Yn ymarferol, ym mlwyddyn un y peilot, er i seicolegwyr ac arbenigwyr trawma chwarae rhan amlwg o ran llunio achosion ac elfennau asesu'r gwaith gyda phlant a theuluoedd, nid oedd yr oruchwyliaeth glinigol/trawma yn rhan ffurfiol o'r gwaith yng nghontract yr arbenigwyr, a chafodd ei chynnig ar sail ad hoc a llai ffurfiol. Felly, er nad oedd darpariaeth ar eu cyfer i gynnig goruchwyliaeth barhaus, roedden nhw'n fodlon gwneud hynny ar gyfer ymarferwyr Gwella yn ôl yr angen. Dywedodd rhai o'r ymarferwyr eu bod wedi ei defnyddio, ond dywedodd y rhan fwyaf nad oedden nhw wedi gallu cael mynediad ati fel ffynhonnell gefnogaeth barhaus.

Nododd rhai ymarferwyr y byddai wedi bod o fudd cael goruchwyliaeth neu arweiniad ychwanegol ynglŷn â defnyddio'r modelau therapiwtig sy'n rhan o'r prosiect. Am resymau ymarferol a chostau, nid oedd y gweithiwr proffesiynol a gyflwynodd hyfforddiant Therapi Chwarae a thechnegau Seicoleg Datblygiadol Ddeuol yn ffynhonnell sefydlog o gefnogaeth barhaus yn y prosiect (ar wahân i un sesiwn goruchwyllo grŵp yn gynnar yn y prosiect). Dywedodd rhai ymarferwyr Gwella y byddai wedi bod o gymorth pe bydden nhw neu rywun arall sydd wedi'i

hyfforddi yn y meysydd hyn wedi cynnig goruchwyliaeth barhaus. Ar ben hynny, mynegodd y tri ymgynghorydd therapiwtig/clinigol oedd yn ymgynghorwyr ym mlwyddyn un y prosiect bryder ynghylch y diffyg goruchwyliaeth glinigol ym model Gwella; dywedon nhw y byddai ymgorffori'r oruchwyliaeth ar draws y peilot wedi helpu pwyslais therapiwtig yr ymyriad oherwydd byddai wedi rhoi hwb i hyder a sgiliau'r ymarferwyr wrth ddefnyddio dulliau therapiwtig. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y tri arbenigwr hyn a chwaraeodd ran ym mlwyddyn un yn gysylltiedig â thechneg neu fodel penodol yn yr ymyriad (elfennau TRM, DDP neu Therapi Chwarae'r dull). Felly, rhaid ystyried i ba raddau y gallai goruchwyliaeth gynnwys dull sy'n defnyddio'r tri dull gwahanol a'r meysydd arbenigol:

"Rwy'n meddwl bod yr hyfforddiant yn dda iawn. O ran goruchwyliaeth, fe wnaeth [hyfforddwr y cwrs] hyd yn oed ddweud ar y cwrs dwi newydd fod arno ein bod wedi dysgu llawer yn ystod y pedwar diwrnod, ond yn eich goruchwyliaeth y mae gwir angen ei ymgorffori gyda DDP yr ydych yn ei 'nabod sy'n gwybod llawer am hyn, ond does ganddon ni mo hynny, felly rydyn ni wedi cael yr hyfforddiant, ac maen nhw fel petai'n dweud, dyna chi, gwnewch y gwaith. Ac mae angen rhywun arnoch drwy'r amser, sy'n deall y pethau hyn ac sy'n gallu dweud 'beth am fel hyn neu fel arall' neu 'na, fe wnaethoch waith da os gwnaethoch chi hynny', chi'n gwybod, y math yna o beth. Dwi'n ceisio cofio'r hyfforddiant. Dwi'n ei ailddarllen gryn dipyn achos mae rhywun yn anghofio, ond dydy o ddim yr un fath â chael rhywun medrus a phrofiadol wrth law i'ch arwain. Mae'n siŵr fy mod i'n ffodus bod gen i rywun sydd wedi ysgrifennu'r TRM felly o leiaf mae gen i hynny. Nes i ei weld yn gynharach heddiw ac ro'n i'n gallu esbonio fy mhroblem gyda'r plentyn ma. Mae'n sôn gryn dipyn wrtha i am y TRM ac mae'n help mawr er mwyn ei ymgorffori mewn achos go iawn. Felly, mae gen i un elfen ohono, ond nid y gweddill achos dyw e ddim yn gwybod dim byd am therapi chwarae na ryw lawer am DDP."

Ymarferydd Gwella

Mae'r pwynt hwn am y posibilrwydd o wrthdaro rhwng gwahanol ddulliau yn cael ei ategu gan fyfyrddau ymarferwyr ar y gefnogaeth a gynigiwyd iddyn nhw gan weithiwr proffesiynol clinigol oedd yn gysylltiedig

â gwasanaeth 'mewnol' Barnardo's. Dywedodd rhai ymarferwyr nad oedden nhw'n meddwl bod yr oruchwyliaeth hon yn addas nac o lawer o gymorth gan fod ymyriad Gwella yn dra gwahanol.

Yn ail flwyddyn y prosiect, rhoddwyd trefniadau ffurfiol ar waith, a chynigwyd goruchwyliaeth glinigol yn fisol am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Nodwyd gennym ym mlwyddyn dau yr hyder oedd gan yr ymarferwyr gyda'u gwaith gyda phlant a theuluoedd. Dywedon nhw eu bod yn llawer mwy hyblyg o ran sut roedden nhw'n ymgorffori'r holl egwyddorion sy'n rhan o'r dull (e.e. ni chafodd Therapi Chwarae ei defnyddio bob amser), ac roedd yn ymddangos fel petai goruchwyliaeth glinigol (fel dull neu ymyriad) yn cael ei arwain i raddau llai gan gyngor, a'i bod yn canolbwyntio llawer mwy ar weithio'n berthynol a deall ymddygiad ac anghenion y plentyn. Ar ddiwedd yr ail flwyddyn, dywedodd pob ymarferydd eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn dawel eu meddwl ynghylch eu cynllun gwaith, ac roedden nhw o'r farn bod hyn yn gysylltiedig â siarad am werth yr oruchwyliaeth reolaidd hon gydag arbenigedd glinigol.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cysylltiad rhwng y ddwy elfen hon. Roedd ymarferwyr yn teimlo'n fwy hyderus yn eu rôl pan oedden nhw'n cael eu goruchwyllo'n glinigol mewn modd oedd yn dibynnu llai ar fodelau a dulliau ymyrryd penodol. Awgryma hyn fod goruchwyliaeth glinigol yn hanfodol i'r ymyriad er mwyn hwyluso dealltwriaeth o drawma a thrafod cynlluniau gwaith yr ymarferwyr, yn hytrach nag ymgynghori ar y technegau a'r modelau penodol sy'n rhan o ddull Gwella yn gyffredinol.

4.6 Hyfforddiant a meithrin gallu

Mae dull Gwella yn seiliedig ar egwyddorion sy'n deillio o fodel Adfer ar ôl Trawma (TRM), chwarae perthynol (wedi'i lywio gan Therapi Chwarae), Ymarfer Datblygiadau Deuol (DDP) a dull Chwaraegarwch, Derbyn, Chwilfrydedd ac Empathi (PACE) sy'n defnyddio damcaniaeth cysylltu, a dealltwriaeth seicolegol o ddatblygiad plentyn gan gynnwys datblygiad yr ymennydd ac effaith trawma. Mae angen dealltwriaeth benodol ar gyfer y rhain, yn ogystal â datblygu set benodol o sgiliau.

Rhoddwyd hyfforddiant i'r ymarferwyr am y dull Therapi Chwarae, DDP, TRM a deall ymddygiadau rhywiol niweidiol. Darparwyd hyfforddiant Therapi Chwarae a DDP gan ymgynghorydd allanol a darparwyd yr hyfforddiant TRM/HSB gan y gweithiwr cymdeithasol sy'n arbenigo mewn trawma a ddatblygodd y TRM, a bu hefyd yn rhan o'r prosiect a gynigiodd oruchwyliaeth seicolegol.

Oherwydd ffactorau trefniadol, ni chafodd pob ymarferydd hyfforddiant cyn dechrau gweithio gyda phlant a theuluoedd. Cafodd un ymarferydd yr hyfforddiant DDP chwe mis ar ôl pawb arall oherwydd absenoldeb salwch ar adeg yr hyfforddiant gwreiddiol. Nid oedd modd i un o'r ymarferwyr gael hyfforddiant Therapi Chwarae na DDP, yn rhannol oherwydd y ddaearyddiaeth a phryd oedd yr hyfforddiant ar gael. Yn yr achos hwn, roedd gan eu hymarferydd cyfaill brofiad blaenorol mewn Therapi Chwarae ac o weithio gyda'r ymgynghorydd a gyflwynodd yr hyfforddiant Therapi Chwarae a DDP, felly fe anfonodd y manylion ymlaen o'r hyfforddiant a rhoi rhywfaint o gefnogaeth gyda'r dulliau hyn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, dangosodd yr ymarferwyr ddiffyg hyder mewn rhai agweddau ar y gwaith hwn yn y cyfweiliadau ym mlwyddyn un gan fynegi eu rhwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg mewnbyn arbenigol. Roedd hyn, yn rhannol, oherwydd pa mor ymrwymedig oedden nhw i'r dulliau a'r modelau penodol yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd. Er enghraifft, mewn achosion lle'r oedd Therapi Chwarae'n cael ei hystyried fel y prif ddull o gyflwyno ymyriad ar gyfer dull Gwella, mae'r data yn dangos bod diffyg hyder proffesiynol ymhlith yr ymarferwyr hyn. Nid oedden nhw'n teimlo bod digon o arbenigedd ganddyn nhw i'w gyflwyno'n llwyddiannus (roedd hwn yn deimlad cyffredin ymysg ymarferwyr, p'un a oedden nhw wedi cael hyfforddiant Therapi Chwarae ai peidio). Daeth diffyg hyder tebyg a'r angen am ragor o hyfforddiant am drawma yn ystod plentyndod a'i effaith i'r amlwg o ran i ba raddau yr oedd disgwyl i TRM a DDP lywio eu hymarfer, a'u dealltwriaeth bod angen mewnbyn seicolegol arbenigol yn eu gwaith.

Fodd bynnag, fel yr ydym yn ei drafod yn fanwl yn adran 5.5, roedd tŷn yr ymarferwyr ynglŷn â sut roedd y dulliau a'r modelau hyn wedi llywio eu gwaith yn dra gwahanol erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf a thrwy gydol yr ail flwyddyn. Daeth hyn i'r amlwg yn eu hyder cynyddol

yn eu trafodaethau am y rhesymeg a'r diben ar gyfer eu gwaith; nid angen hyfforddiant heb ei ddiwallu oedd i'w gyfrif o reidrwydd am addasu'r dull a'i ddefnyddio'n fwy hyblyg, oherwydd gallai fod wedi deillio o'r hyn a ddysgwyd yn ystod y peilot. Yn ôl un ymarferydd:

"Rwy'n meddwl fod llawer mwy o bwyslais ar bethau fel Therapi Chwarae a'r DPP a phethau fel yna ar y dechrau. Yn y pen draw, hyd yn oed ymysg y rhai sydd wedi cael hyfforddiant, nid oes gennym lawer o brofiad o rai meysydd ac mae angen rhywfaint o gefnogaeth arnoch chi o ran cael eich goruchwyllo'n barhaus a phethau felly. Felly, i ryw raddau, dydyn ni heb ganolbwyntio ar y pethau hynny gymaint ag oedden ni wedi disgwyl y bydden ni'n ei wneud yn wreiddiol. Ond dwi ddim yn meddwl bod hynny o reidrwydd yn ddrwg o beth. Yn amlwg, fedra i ddim ond siarad am fy achosion i, ond dwi'n meddwl ein bod diwallu anghenion y gwaith mewn ffyrdd eraill beth bynnag i ryw raddau. Hyd yn oed gyda mwy o bwyslais ar DPP a PACE, a fydden ni wedi'i ddefnyddio beth bynnag? ...fel y soniais yn flaenorol, rydyn ni'n teilwra'r gwaith i'n teuluoedd, felly hyd yn oed pe taswn wedi gwneud yr hyfforddiant a chael llawer o oruchwyliaeth a chefnogaeth efallai na fyddwn wedi defnyddio'r dulliau hyn beth bynnag."

Ymarferydd Gwella

Yn amlwg, os yw Therapi Chwarae, TRM a DPP yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r dull, gallen ni ddod i'r casgliad bod buddsoddi rhagor mewn hyfforddiant a rhoi cefnogaeth barhaus ar gyfer defnyddio'r tair elfen yn hanfodol hefyd; fodd bynnag, er bod hyfforddiant yn y dulliau hyn yn rhan bwysig o feithrin sgiliau ymarferwyr Gwella, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod lefel yr hyfforddiant ac a oes angen cefnogaeth barhaus ar ymarferwyr, yn dibynnu ar i ba raddau mae'r ymarferwyr yn teimlo bod y dulliau hyn yn berthnasol yn eu cynllun gwaith unigol gyda phob plentyndod a'u teulu.

Mae'r data yn dynodi bod natur beilot y prosiect, a'r hyblygrwydd a ddynodwyd uchod, wedi annog diwylliant o chwilio am wybodaeth a sgiliau newydd a chafodd y rhain eu hymgorffori yn y modd hyblyg y cyflwynwyd yr ymyriad. Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod, roedd hyfforddiant a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol ar gael ar gyfer yr ymarferwyr, a chwiliodd rhai

am hyfforddiant ychwanegol ar ben hynny. Nododd un ymarferydd iddi gael hyfforddiant am therapi cerddoriaeth, anawsterau dysgu, awtistiaeth, a hyfforddiant ychwanegol am Brofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod (ACEs). Ni chynigwyd y cyrsiau hyn fel mater o drefn i'r ymarferwyr felly aethon nhw arnyn nhw os oedden nhw o ddiddordeb ac ar gael i ymarferwyr unigol (dywedodd rhai nad oedd y rhain ar gael ym mhob ardal). Ochr yn ochr â hyn, roedd yn amlwg yn y data bod ymarferwyr yn dod â'u harbenigedd eu hunain i'w gwaith, fel defnyddio technegau therapi drama neu weithgareddau penodol yn seiliedig ar chwarae. Roedden nhw hefyd yn defnyddio eu hymchwil eu hunain ac yn rhannu syniadau am ddulliau a gweithgareddau â chydweithwyr:

"dywedodd un o fy nghydweithwyr wrtha i ddod ei bod yn cyflwyno therapi cerddoriaeth, a gofynnais iddi am hynny, a dywedodd ei bod wedi prynu llyfr a siaradodd amdano"

Ymarferydd Gwella

"mae'n ymwneud yn bennaf â chwilio ar-lein a chael llyfrau a phethau fel yna i'n helpu ni. Dwi'n meddwl eich bod yn creu eich ffyrdd penodol eich hunain o gefnogi'r plentyn o dan sylw. Weithiau rwy'n meddwl y gallen ni ddod â llawer o hyn ynghyd, a chreu rhyw fath o adnodd sy'n dod â'n holl adnoddau at ei gilydd"

Ymarferydd Gwella

Mae hyfforddi a datblygu staff yn rhan graidd o ddull Gwella ac mae'n elfen bwysig o drefnu'r prosiect. Mae gan hyn oblygiadau o ran trosiant staff ac ymsefydlu; mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'n pwynt cynharach am y cyd-destun ariannu cyffredinol. Mae'r buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant, a datblygu ystod gyfoethog o sgiliau a dysgu am dechnegau arbenigol fel TRM a DDP, yn ogystal â gwaith creadigol, perthynol ac ar sail chwarae, yn dynodi bod y peilot hwn wedi sefydlu gweithlu tra medrus, a bod colli'r cyfalaf dynol hwn oherwydd problemau sy'n ymwneud â throsiant yn arwyddocaol.

Fe wnaeth y buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant a'r anogaeth i ddatblygu sgiliau yn Gwella greu

amgylchedd o ddysgu a chreadigrwydd. Yn y cyd-destun hwn, mae'n anodd cynnig goruchwyliaeth arbenigol ar gyfer bob dull. O ganlyniad i hynny, roedd yr ymarferwyr yn defnyddio pob dull mewn ffyrdd hyblyg ac eclecticig yn ôl pob golwg, ac roedd hyn yn cyd-fynd â cheisio bod yn hyblyg i sefyllfaoedd unigryw teuluoedd.

4.7 Meini prawf cyfeirio

Dyma oedd meini prawf cyfeirio'r prosiect: 1) bod y plant rhwng pump ac un ar ddeg ar ddechrau'r gwaith; 2) eu bod mewn achosion oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol mewn rhyw ffordd; eu bod wedi cael profiad o drawma sylweddol cyn eu bod yn bump oed; a 4) bod tystiolaeth o gymhlethdod penodol yn eu hamgylchiadau neu ymddygiad.

Ar wahân i'r un am oedran, nid oedd unrhyw un o'r meini prawf hyn yn berthnasol i bob plentyn oherwydd roedd gan staff awdurdodau lleol hyblygrwydd a disgresiwn wrth gyfeirio, ac fe wnaethon nhw ddefnyddio eu barn eu hunain wrth dderbyn achosion. Nid oedd rhai o'r teuluoedd yn gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol pan ddechreuon nhw fod yn rhan o'r prosiect. Cafodd rhai o'r plant a gymerodd ran eu cyfeirio'n rhannol oherwydd pryderon ynghylch eu hymddygiad, ond nid oedd rhai yn ymddwyn mewn ffyrdd oedd yn peri pryder, neu bod pryderon eu bod yn dawedog. Mewn un achos, nid oedd unrhyw drawma sylweddol yn eu bywyd blaenorol am eu bod wedi bod o dan ofal ers i'r plentyn gael ei eni. Fodd bynnag, roedd trawma yn yr achos hwn yn cyfeirio at 'drawma cyn-enedigol' ar sail profiadau'r fam fiolegol o drais yn ei herbyn pan oedd yn feichiog. Ar ben hynny, roedd cymryd rhan ym mhrosiect Gwella yn cynnwys amrywiaeth eang o resymau oedd yn ymwneud â'r plentyn yn benodol¹³. Gall y rhain gynnwys hanesion trawmatig sy'n arbennig o gymhleth neu estynedig, neu angen cefnogaeth ddwys o ran amser neu fwy'n seiliedig ar deulu'n gyffredinol na'r hyn yr oedd gweithwyr proffesiynol statudol yn gallu ei gynnig.

¹³ Ceir gwybodaeth fwy penodol yn naratif y ffeiliau achos, ac mae manylion ychwanegol wedi'u trafod mewn cyfweiliadau gydag ymarferwyr Gwella a gweithwyr proffesiynol y gwasanaethau cymdeithasol fu'n gysylltiedig â chyfeirio achosion at brosiect Gwella.

Mae'r data demograffig a chyfeirio a gofnodwyd ar gyfer achosion Gwella yn defnyddio ffurflen gofnodi safonol Barnardo's. Ni wnaeth dyluniad canolog y system hon adael i ymarferwyr Gwella ddewis y meini prawf gwirioneddol a ddefnyddiwyd wrth ddewis achosion. Felly, mae'n bosibl bod y canlynol yn cynnwys meysydd nad ydyn nhw o reidrwydd yn adlewyrchu sut oedd y data'n berthnasol i brosiect Gwella. Gallai hyn ymwneud â materion ehangach ynghylch defnyddio systemau safonol ar gyfer ymyriadau penodol.

- **Ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol (n=1)**
- **Plentyn o dan ofal (n=4)**
- **Trais, cam-drin neu esgeuluso (n=11)**
- **Person agored i niwed y mae angen cymorth arno (n=7)**
- **Rheswm arall dros gyfeirio (DS. Nid oes testun rhydd i roi manylion pellach) (n=8)**

Dyweddodd rhai o'r ymarferwyr eu bod wedi cael nifer o gyfeiriadau ac wedi gorfod blaenoriaethu. Dywedodd eraill eu bod wedi cael trafferthion derbyn cyfeiriadau ac wedi cefnogi plant nad oedden nhw'n addas ar gyfer y prosiect yn eu barn nhw. Dywedodd ambell un o dîm Gwella nad oedd unrhyw feini prawf ar gyfer gwahardd, ac y gallai'r rhain fod o gymorth os bydd y prosiect yn parhau. Roedd cynnwys plant o dan ofal a phlant ag anawsterau dysgu yn ddau faes penodol i'w hystyried.

4.7.1 Plant mewn gofal maeth

Er nad ydyn nhw wedi'u cynnwys mewn meini prawf penodol ar gyfer cyfeirio, roedd plant mewn gofal maeth yn rhan o'r garfan yn y prosiect ochr yn ochr â'r rhai sy'n byw gyda rhiant neu o dan ofal perthynas. Roedd hyn yn rhannol er mwyn deall sut oedd yr ymyriad yn gweithio yn y cyd-destun perthynol hwn.

Mae'n ddiddorol ystyried barn gofalwyr maeth mewn cysylltiad â hyn. Dywedodd rhai gofalwyr maeth bod ansicrwydd ynghylch a oedd angen yr ymyriad ar gyfer y plentyn o dan eu gofal, neu a oedd yn addas ar ei gyfer, ac roedden nhw'n teimlo bod yr ymyriad naill ai'n

amharu ar eu gallu i feithrin eu perthynas eu hunain pan oedd y rhain yn cael ei ffurfio (dyma rywbeth y gwnaeth plentyn ei grybwyll yn ei gyfweiliad hefyd). Neu, dywedon nhw bod yr ymyriad yn 'rhywbeth dymunol' ond nid oedden nhw'n siŵr a fyddai'r prosiect yn gwneud mwy o wahaniaeth gyda phlant eraill. Mynegwyd y pryderon hyn ochr yn ochr ag awgrym y byddai hwn yn ymyriad addas a phwysig ar gyfer rhai plant a theuluoedd, fel y nodir isod:

"Ond i fod yn deg, yn y gorffennol dwi wedi dweud wrth [ymarferydd] mod i wedi meddwl am gynifer o blant dwi wedi'u cael yma a fyddai wedi elwa o hwn. Wrth feddwl yn ôl am un o fy lleoliadau, byddai wedi bod o gymaint o fudd iddo fe a'i fam. Byddwch yn hwyliog, dyna sut i greu cysylltiad â phlentyn. Gwrandewch, dangoswch ddiddordeb, yr holl weithgareddau a wnaethon ni. Pe bydden ni wedi rhoi'r rhain ar waith gyda'r plentyn hwnnw a'i fam, byddai pethau wedi gallu bod yn wahanol iawn ... Mae yna rieni mas yna sydd angen cael eu haddysgu sut i fod yn blentyn gyda'ch plentyn, yn ogystal â bod yn oedolyn pan mae angen bod yn oedolyn. A dwi ddim yn meddwl bod y cyfan yn ddi-werth, dim ond yn ddi-werth iddi hi [y plentyn yn y prosiect]"

Gofalwr maeth

Er mai pethau positif yn unig oedd gan y rhieni i'w ddweud am y prosiect yn y cyfweiliadau, fe wnaethon ni nodi mai gofalwyr maeth oedd y rhai a fynegodd rhai safbwyntiau llai positif. Mynegwyd safbwyntiau o'r fath ynghylch dull gweithredu a chyflwyno'r prosiect yn bennaf; roedd rhai ohonyn nhw'n ymwneud â'r tarfu a brofwyd, fel yr ystyriwyd yn adran 4.2, ac eraill yn ymwneud â'r pryderon hyn mewn cysylltiad â pha mor addas yw'r prosiect ar gyfer y plentyn. Rydym yn awgrymu y gallai hyn fod yn gysylltiedig ag i ba raddau y gwnaeth elfen berthynol y dull lywio'r ymyriad, a deilliant y prosiect yn benodol, sef gwella'r berthynas rhwng y plentyn a'i brif ofalwr/ofalwyr. Mewn achosion o'r fath lle mynegwyd pryderon ynghylch pa mor addas yw'r prosiect, roedd yr ymyriad wedi canolbwyntio'n benodol ar y berthynas rhwng y gofalwr a'r plentyn. Roedd y rhain hefyd yn rhannu cryn ddealltwriaeth o sut a pham mae

chwarae a gweithgareddau creadigol yn gallu bod o ddefnydd er mwyn meithrin gyda phlant sydd wedi cael profiad o drawma. Pan wnaethon nhw sôn am gymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg gyda'r ymarferydd, roedden nhw wedi teimlo eu bod wedi'i gorfodi neu'n anghyfforddus, neu'n 'ddymunol' ac yn 'hwyl' ond heb bwrpas yn ôl pob golwg. Felly, mae'n debygol y gallai'r pwyslais hwn ar wella'r berthynas fod wedi peri problem.

Ateir y dadansoddiad uchod gan safbwyntiau'r gofalmwr maeth oedd yn hynod bositif ynghylch y prosiect. Mewn achosion o'r fath, ni wnaeth y gwaith ganolbwyntio ar feithrin eu perthynas gyda'r plentyn drwy chwarae, os o gwbl. Yn hytrach, roedden nhw'n cael eu cynnwys drwy ddod yn rhan o'r system gefnogi oedd yn 'ymwybodol o faterion trawma', a chanolbwyntiodd yr ymyriad ar ddatblygu dealltwriaeth o ymddygiad ac anghenion plentyn, a/neu waith oedd yn canolbwyntio ar gynnig cefnogaeth drwy sesiynau un i un gyda'r plentyn yn unig. Mae'n ddiddorol bod rhai manteision allweddol a rannwyd gan yr un cyfranogwyr oedd â phryderon ac awgrymiadau ynghylch meini prawf cymhwysedd. Roedd y manteision hyn yn ymwneud â phrofiadau tebyg o gael y cyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth a chynghor gan yr ymarferydd, a manteision y gwaith un i un a gafodd y plentyn; fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu hystyried yn elfennau craidd o'r ymyriad.

Yn gryno, roedd angen pwyslais cynyddol ar hyblygrwydd wrth weithio gyda'r gofalmwr maeth er mwyn symud i ffwrdd o elfennau o'r model. Roedd gofalmwr maeth yn fwy tebygol o werthfawrogi a dangos cefnogaeth dros weithio'n uniongyrchol gyda phlant ac am waith a ddatblygodd eu dealltwriaeth o ymddygiad ac anghenion y plentyn. Mae'r dadansoddiad hwn yn cytuno y dylai plant o dan ofal fod yn gymwys ar gyfer yr ymyriad.

Nodwyd gennym hefyd y cafodd rhai o'r plant o dan ofal maeth eu dychwelyd gartref i fod o dan ofal eu rhiant/rhieni yn ystod y prosiect, ac mai dyma oedd pwyslais y gefnogaeth wedi hynny, ond nid oedd wedi bod yn rhan o'r rheswm dros gyfeirio yn wreiddiol. Pe na byddai'r plant hyn wedi cael eu cynnwys yn y prosiect, ni fyddai'r broses bontio hon wedi cael ei chefnogi drwy'r ymyriad.

Dywedodd gweithwyr proffesiynol y gallai'r meini prawf cyfeirio gael eu hehangu i gynnwys brodyr a chwiorydd

o dan ofal maeth, a byddai hyn yn cynnig dull ar gyfer y teulu cyfan. Cafodd hyn ei nodi hefyd gan rai gofalmwr maeth mewn cysylltiad â'u plant eu hunain a'r rhaniadau posibl a allai ddigwydd wrth ymgymryd â gwaith perthynol uniongyrchol yng nghartref y teulu pan nad yw rhai plant yn cael bod yno. Cafodd grwpiau o frodyr a chwiorydd eu cynnwys yn yr ymyriad, ond gallai'r terfyn oed fod yn faen prawf oedd yn atal rhai brodyr a chwiorydd rhag cymryd rhan.

4.7.2 Plant ag anawsterau dysgu

Cafwyd awgrymiadau hefyd ynghylch sut mae angen ystyried pa mor addas yw dull Gwella ar gyfer plant ag anawsterau dysgu. Nid oedd hyn yn rhan o unrhyw feini prawf ar gyfer cyfeirio neu eithrio ychwaith. Codwyd hyn mewn cysylltiad ag achosion oedd â phlant awtistig neu ag anableddau difrifol. Nid oedd un o'r gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran gyda'r plant hyn yn teimlo bod yr ymyriad yn addas i'r plentyn o dan sylw. Dywedodd fod y sesiynau fel petai'n gwneud y plentyn yn drist neu'n ansicr a mynegodd bryderon mawr ynghylch yr effaith ar ymddygiad y plentyn yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â phryderon ynghylch p'un a oedd gan yr ymarferydd brofiad o weithio gyda phlant awtistig. Yn yr un achos, dywedodd yr ymarferydd Gwella ei fod yn teimlo bod y berthynas rhyngddyn nhw a'r seicolegydd proffesiynol a'r gweithwyr proffesiynol eraill wedi wynebu anawsterau oherwydd y gwahaniaeth mewn barn ynghylch defnyddio dulliau atal gyda phlant awtistig. Fe wnaethon ni nodi bod y sesiynau'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar y dechrau, a dywedodd y gofalmwr maeth yn y cyfweiliad bod yr anawsterau ymddygiadol cychwynnol (newidiwyd y lleoliad oherwydd y rhain) wedi deillio yn ôl pob tebyg o symud o'r sesiwn Gwella i amgylchedd yr ysgol mor gyflym. Efallai nad yw heriau o'r fath yn gysylltiedig â phlant awtistig yn unig, ond gallen nhw fod yn waeth os yw arferion a phontio yn arbennig o bwysig i'r plentyn awtistig. Nodwyd gennym bod o leiaf dau achos arall pan ddywedodd y rhieni bod eu plant yn y broses o gael diagnosis ar gyfer awtistiaeth, ac fe sonion nhw am allu'r ymarferydd i weithio gyda'u plentyn. Mae'r safbwyntiau hyn yn awgrymu bod sgiliau penodol yn y maes hwn sy'n arbennig o angenrheidiol ar gyfer y rhai oedd yn rhoi cynnig ar waith therapiwtig neu ddwys gyda phlant ag anawsterau dysgu. Fe wnaeth yr adolygiad mapio systematig amlygu hefyd y gallai dulliau

cyfannol fod yn anaddas er mwyn i'r afael a HSB gyda phlant ag anabledd dysgu difrifol, ac y gallai ymyriadau ymddygiadol fod yn fwy priodol.

O ystyried y plant y cyfeirir atyn nhw yn y prosiect, a phwyslais yr ymyriad, mae'r dadansoddiad yn awgrymu y byddai oedran, yn ogystal â bodloni o leiaf dau faen prawf arall, yn ddull defnyddiol ac yn cynnig ffordd o flaenoriaethu pwy fyddai'n addas. Ni ddylai plant o dan ofal gael eu heithrio o reidrwydd rhag bod yn gymwys i gymryd rhan yn y prosiect. Dylid ystyried pa mor addas yw'r dull ar gyfer plant ag anawsterau dysgu. Mae angen cefnogi hyn yn benodol drwy sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau amrywiol penodol i wneud gwaith o'r fath yn rhan o'r dull.

4.8 Y broses gyfeirio

Cynhaliwyd y broses o gyfeirio plant a rhieni neu ofalwyr at brosiect Gwella mewn ymgynghoriad â'r awdurdod lleol oedd yn cymryd rhan yn y peilot. Gan amlaf, dechreuodd hynny gydag uwch-reolwyr ac wedi hynny gyda gweithwyr cymdeithasol unigol ac ymarferwyr Gwella. Roedd hyn fel arfer yn cynnwys rheolwr y gwasanaeth yn cwrdd â phob awdurdod lleol ac egluro'r prosiect a'r meini prawf cyfeirio. Bryd hynny, byddai'r awdurdod lleol yn rhoi eu rhestr fer eu hunain o ddefnyddwyr posibl. Byddai rheolwr gwasanaeth Gwella ac ymarferydd perthnasol Gwella ar gyfer yr ardal ddaearyddol yn cwrdd wedi hynny i drafod y rhestr fer ymhellach. Roedd y rhesymau posibl dros eithrio ar y pwynt hwn yn cynnwys lleoliad ansicr, os oedd eisoes nifer o ymyriadau, neu ymyriad tebyg, yn cael eu cynnal ar gyfer y plentyn, neu os oedd y plentyn yn cael anawsterau eraill a allai olygu nad Gwella oedd yr ymyriad gorau ar gyfer eu hanghenion. Yn ddiweddarach, cynhaliwyd cyfarfod cyfeirio gyda'r rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr i gael cydsyniad terfynol. Byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei drefnu fel arfer drwy'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r tîm gofal maeth perthnasol.

Ym mlwyddyn un, fe wnaeth y llwybr cyfeirio yn yr awdurdod lleol peilot yn y gogledd ddilyn trywydd gwahanol i'r rhai yn yr ardaloedd eraill gan fod gwasanaeth ymyriadau therapiwtig eisoes ar gael. Oherwydd hynny, y gwasanaeth hwn oedd yn cyflwyno'r

cyfeiriadau yn hytrach na thrwy ymgynghori â gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol proffesiynol.

Wrth sôn am y broses gyfeirio, profiadau positif ar y cyfan a gafodd y gweithwyr proffesiynol o asiantaethau allanol ac ymarferwyr Gwella. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran y cyfarfod llunio achos a drefnwyd ar ddechrau'r ymyriad ac yn cael ei ystyried gan y gweithwyr proffesiynol allanol yn rhan o'r broses honno (gweler adran 5.4). Mynegodd dau weithiwr proffesiynol oedd yn gysylltiedig â'r broses gyfeirio nad oedd gan weithwyr cymdeithasol proffesiynol yr amser bob amser oherwydd eu llwythi gwaith, neu ni fyddai'n ymarferol os oedd nifer fawr o achosion yn rhan o'r prosiect. Yn ôl staff Gwella, cafwyd cryn oedi gyda'r peilot yn y gogledd oherwydd ni wnaeth yr awdurdod lleol ddarparu achosion i'w cyfeirio ar yr adegau disgwylidig. Gydag un achos, roedd hyn yn gysylltiedig ag absenoldeb staff yn yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, gan na chafodd gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol proffesiynol o'r awdurdod lleol hwn eu cyfweld, ni all y tîm ymchwil fod yn siŵsut gweithiodd y broses gyfeirio yn ymarferol yn yr ardal, ond gallai fod am resymau tebyg fel llwyth gwaith.

4.3.8 Cynnwys rhieni, gofalwyr a phlant

Nid oedd rhaid cymryd rhan yn y prosiect, ac nid oedd rhaid i'r teuluoedd a'r plant o dan sylw gymryd rhan yn yr ymyriad os nad oedden nhw'n dymuno gwneud hynny. Os na fydden nhw'n cytuno i gymryd rhan, ni fyddai'r achos yn symud ymlaen y tu hwnt i'r pwynt cyfeirio. Cytunodd yr holl deuluoedd a gofalwyr oedd yn rhan o'r peilot gymryd rhan yn y pwynt hwn o'r broses. Dywedodd llawer o'r rhieni eu bod yn frwdfrydig pan glywon nhw am y prosiect a'r gefnogaeth ychwanegol y gallai ei chynnig, a'u bod yn fodlon cwrdd â'r ymarferydd a chlywed am y prosiect. Roedden nhw 'ar dân eisiau bachu ar y cyfle' neu wedi mynegi bod angen help arnyn nhw ac yn falch o glywed am yr ymyriad. Cyfeiriodd yr holl rieni at ba mor wybodus, cyfeillgar a chalonogol oedd yr ymarferwyr wrth gwrdd â nhw, ac fe helpodd hyn i fod yn rhan o'r rhesymau pam oedden nhw'n fodlon cymryd rhan.

"Dwi'n meddwl y daeth hi allan gyda'r gweithiwr cymdeithasol yn y lle cyntaf. Dwi'n meddwl y daeth hi [yr ymarferydd] allan gyda [gweithiwr cymdeithasol] yn y lle cyntaf. Ac wedyn dywedodd hi rywfaint am y

gwaith y byddai hi'n ei wneud. Ie, fe wnaeth hi egluro ei hun a'i rôl yn dda iawn ... roedd diddordeb mawr gen i mewn beth oedd hi'n ei ddweud, beth fyddai hi'n ei wneud. Pan ddywedodd hi hynny, roedd yn gwneud synnwyr am sut roedd [plentyn] yn ymddwyn."

Mam

"Wel, roedd y cyflwyniad a phopeth fel yna am [yr ymarferydd] ac egluro'i hun yn dda iawn. Fe wnaeth hi dawelu ein meddwl am y meysydd o dan sylw ac os oes unrhyw beth mae hi'n gallu ei wneud i helpu ac ati."

Tad


Nid oedd rhai o'r plant yn byw gartref (neu heb unrhyw gynlluniau i fynd adref yn fuan) pan ddechreuodd y prosiect. Dywedodd y rhieni pa mor bwysig iddyn nhw oedd cwrdd â'r ymarferydd i drafod y prosiect a chael eu cydsyniad cyn dechrau ar y gwaith. Fe wnaeth hyn feithrin perthynas dda hefyd yn yr achosion hynny pan newidiodd ffocws y gwaith i helpu'r plentyn i fynd adref a gweithio gyda'r rhieni yn uniongyrchol.

Yn eu cyfweiliadau, dywedodd pob rhiant eu bod yn ddiolchgar am gael eu cynnwys yn y prosiect a bod arnyn nhw angen y gefnogaeth a roddwyd iddyn nhw. Siaradodd y rhan fwyaf o'r gofalwyr am sut y daethon nhw'n rhan o'r prosiect oherwydd sut gallai fod o fudd i'w plant maeth, a dywedodd rhai eu bod yn fodlon cymryd rhan er mwyn cael cefnogaeth benodol i wella eu dealltwriaeth am effaith y trawma yr oedd eu plentyn wedi'i oddef er mwyn gallu eu cefnogi'n well.

Fel y nodwyd yn flaenorol, dim ond tri rhiant wnaeth dynnu eu plant yn ôl o'r prosiect a'r rheswm penodol pam y gwnaeth un ohonyn nhw wneud hynny oedd oherwydd y tarfu a brofwyd. Mae hyn yn awgrymu bod cydsyniad yn broses oedd wastad ar waith. Yn yr un modd, dywedodd tri ymarferydd eu bod yn cael anhawster ymgysylltu â rhai o'r gofalwyr maeth, felly nid oedd y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r ymyriad yr oedden nhw wedi gobeithio ei gynnig. Fodd bynnag, rydym wedi nodi nad oedd o leiaf un gofalwr maeth yn meddwl bod y gefnogaeth yn addas, ond nid nhw oedd i benderfynu tynnu'n ôl ai peidio.

Siaradodd bron yr holl blant am faint roedden nhw'n hoffi eu gweithiwr wrth gwrdd â nhw, bod cwrdd â nhw

'yn dda iawn am eu bod yn ddoniol iawn ac yn gwneud iddyn nhw chwerthin', a'u bod yn 'gyffrous iawn' i gwrdd â nhw. Dywedodd un o'r plant a gymerodd ran yn y gwerthusiad faint roedd hi'n hoffi ei gweithiwr pan wnaeth hi gwrdd â hi, ac ysgrifennodd y neges ganlynol sy'n awgrymu'n glir nad oedd rhaid i'r plentyn hwn gymryd rhan os nad oedd hi'n dymuno gwneud hynny:



"Dydyn nhw ddim yma i fod yn gas na chael gwybod am bob manylyn yn eich bywyd, maen nhw yma i'ch helpu. A gallwch wastad wrthod yr help ond rhwch gyfle iddyn nhw! 😊"

Plentyn, 12 oed

Fodd bynnag, dywedodd un o'r plant a gafodd eu cyf weld nad oedd hi'n teimlo ei bod yn gallu dweud nad oedd hi'n dymuno cymryd rhan. Am ei bod yn gorfod cwrdd â llawer o weithwyr proffesiynol, fe eglurodd y byddai wedi bod yn well ganddi dreulio'r amser yn dod i adnabod ei theulu maeth yn well. Roedd hi'n poeni am ddigio'r ymarferydd am ei bod yn ei hoffi, ac er y byddai'n well ganddi beidio â chymryd rhan yn y prosiect, roedd hi wedi mwynhau rhywfaint o'u hamser gyda'i gilydd. Fe eglurodd:

Roedd yn eitha anodd [dweud hwyl fawr] ond ro'n i hefyd yn eitha hapus achos dydw i ddim eisiau cael un arall, ro'n i'n hapus achos does gen i ddim person arall yn fy mywyd y mae'n rhaid i fi fynd allan gyda nhw, gan fod rhaid imi fynd gyda rhai pobl. Ac ro'n i'n eitha trist achos roedd hi'n neis iawn i mi. [...] Faswn i ddim yn dweud ei bod yn ffrind ond roedd yn oedolyn oedd yn neis iawn i mi. [...] Mae'n teimlo'n rhyfedd ac yn eitha rhwystredig achos mae'n rhywun arall i gwrdd â nhw ac mae gennych lwyth o bobl sydd eisoes yn eich helpu a

does dim angen un arall arna i. [...] pe baswn yn rhywun hyderus iawn wrth siarad â rhywun, baswn siŵr o fod yn dweud dim diolch, dwi'n iawn. Ond os ydych yn rhywun fel fi a ddim eisiau brifo teimladau rhywun, byddwch siŵr o fod yn dweud iawn, fe wna'i gwrdd â nhw. Mae ychydig bach fel bod yn eich tŷ neu yn yr ysgol ac rydw i'n meddwl am... yn meddwl am ar ôl ysgol a beth ydw i'n mynd i wneud gyda hi, a dwi'n meddwl dydw i ddim eisiau gwneud hynny. Ac yna rydw i'n dweud mod i ddim eisiau gwneud hyn, ond wedyn mae'n rhywfaint o hwyl ond ar yr un pryd, dwi eisiau mynd adref. Gallwn i dreulio mwy o amser gyda [rhieni maeth] a fy holl deulu maeth achos bob dydd rwy'n gwneud rhywbeth a does dim angen i mi wneud rhywbeth arall oherwydd wedyn mae llai o amser gen i. Ac wedyn mae hyn i gyd yn golygu bod llai o amser. Ond dwi yn hoffi'r pethau rydyn ni'n eu gwneud, ond ar yr un pryd, dwi eisiau bod gyda fy rhieni maeth hefyd.

Plentyn, 10 oed

Er mai un o'r rhesymau posibl dros eithrio ym mhroses gyfeirio'r prosiect oedd ystyried a oedd y plentyn eisoes yn rhan o nifer o ymyriadau, mae'r adborth gan y plentyn hwn yn awgrymu bod angen i'r plentyn fod yn rhan o'r penderfyniad, neu mae angen ystyried faint o oedolion sy'n gysylltiedig h.y. yn yr achos hwn roedd y teulu maeth a chynorthwyr yr ysgol wedi'u cynnwys yn rhan o ddisgrifiad y plentyn o 'lawer o bobl'. Nid oedd y plentyn hwn yn teimlo ei bod yn gallu dweud nad oedd hi am gymryd rhan, felly pan ofynnwyd iddi 'es i gyda [hi] oedd yr ateb gorau'. Mae hyn yn amlygu ymhellach yr anawsterau a'r sylw sydd eu hangen wrth fabwysiadu dull sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf wrth drefnu pob elfen o'r prosiect wrth geisio bod yn ymwybodol o faterion trawma a chanolbwyntio ar y plentyn.

4.9 Asesu

Rhestr Wirio Symptomau Trawma ar gyfer Pobl Ifanc (TSCYC) a'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ) oedd y dulliau asesu a ddefnyddiwyd yn bennaf yn rhan o'r ymyriad hwn.

Rhoddwyd yr SDQ i rieni neu'r gofalwyr ac ysgolion mewn rhai achosion. Mae'r ddau ddull wedi ennill eu plwyf ac yn cael eu defnyddio'n eang ym maes gofal

cymdeithasol. Mewn rhai achosion roedd yr ymarferwyr yn defnyddio asesiad MIM hefyd sy'n rhan o ymyriad Therapi Chwarae. Yn rhan o hyn mae'r ymarferwyr yn rhoi tasgau Therapi Chwarae i'r plentyn a'r rhiant/gofalwr ac cyn eu harsylwi a chofnodi sut maen nhw'n rhyngweithio. Ategwyd yr asesiadau hyn gan yr adroddiadau seicolegol/arbenigol o'r cyfarfodydd ffurfio achosion.

Er bod rhai ymarferwyr yn bositif ynghylch yr asesiad SDQ, dywedon nhw nad oedd yr ysgolion yn llenwi'r SDQ bob amser, a dywedodd gweithwyr oedd â phrofiad o'i lenwi ei fod yn hir ac yn feichus. Dywedodd yr ymarferwyr hefyd nad oedd TSCYC yn ddull defnyddiol o asesu newid a'i fod yn gwneud i rai ymarferwyr nad oedden nhw'n hyderus ynghylch rhoi rhai elfennau o'r ymyriad ar waith deimlo'n anghyfforddus. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau o'r adolygiad cyflym a rybuddiodd nad yw TSCYC yn rhywbeth sy'n gallu asesu newid yn rhwydd. Mae hyn oherwydd ei fod wedi'i greu i amlygu problemau dwfn ac y gallai gymryd blynyddoedd i ddangos newidiadau o bwys. Felly, efallai nad yw'n ddefnyddiol er mwyn mesur cynnydd yn ystod yr ymyriad 12 mis o hyd.

Dywedodd ymarferwyr nad oedd y tri dull asesu o ddefnydd gyda theuluoedd gan fod yr iaith seicolegol yn rhy anodd neu ddim yn golygu llawer i rieni a gofalwyr. Felly, nid oedd yn addas ar gyfer dull perthynol Gwella. Mae'n werth nodi hefyd y rhybuddiodd yr adolygiad bod yr SDQ yn ddull cydnabyddedig ar gyfer asesu newid, ond mae'r adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar anawsterau. Gallai hyn wneud i weithwyr proffesiynol ganolbwyntio ar elfennau negyddol y person ifanc yn hytrach na cheisio cryfhau elfennau positif. Mewn ymateb i hyn, cyflwynodd yr ymarferwyr eu dulliau eu hunain ar gyfer asesu a chynllunio gyda theuluoedd. Roedd y rhain o gymorth er mwyn i rieni a gofalwyr gyfrannu at osod targedau a chefnogi cynlluniau. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o sicrhau bod yr ymyriad yn gyfranogol ac yn berthynol, ac roedd yr ymarferwyr am allu cael dangos a chadarnhau cynnydd positif i deuluoedd.

4.10 Cofnodi

Cofnododd ymarferwyr Gwella eu gwaith ar y system gofnodi gyfrifiadurol a ddefnyddir ar draws prosesau

rheoli achosion Barnardo's¹⁴. Mae'r system gofnodi hon yn cadw data demograffig (neu 'graidd') yn ogystal â data cofnodi naratif. Cofnododd yr ymarferwyr y data craidd ac am ddeilliannau drwy lenwi'r meysydd oedd eisoes wedi'u gosod ar gyfer gwasanaethau eraill ar draws Barnardo's. Roedd y data am ddeilliannau yn seiliedig ar system sgorio deilliannau a ddefnyddir ar draws Barnardo's yn y DU. Mae'n cynnwys nifer fawr o ddeilliannau posibl lle dewisir y rhai mwyaf perthnasol i'r ymarferwyr sgorio yn eu herbyn (dewiswyd pum deiliant ar gyfer Gwella, fel y nodir yn 5.6). Roedd y cofnod o'r naratif yn fwy penagored; roedd modd teipio cofnod o sesiynau'n uniongyrchol i mewn i'r system neu ei gadw drwy lwytho dogfennau (fel dogfennau word, ebyst a gadwyd, sgrinluniau o negeseuon testun, neu ffotograffau o waith plant) i mewn i'r system.

4.10.1 Natur y cofnodi

Yn y data naratif a recordiwyd ar y system, roedd yn amrywio o ran hyd a manylder ymhlith yr ymarferwyr. Nid oedd templed neu ffurflen safonol ar gyfer cofnodi'r data hwn, felly'r ymarferwyr oedd yn penderfynu beth oedd yn cael ei gofnodi, ac roedd hynny i'w weld yn yr amrywiaeth ymhlith data'r ymarferwyr. (Mae rheswm arall pam mae'n bwysig cynnal archwiliad ansoddol yn uniongyrchol gydag ymarferwyr Gwella ar gyfer ein gwerthusiad.) Mae'r data a gadwyd am ddefnyddwyr y gwasanaeth yn fanylach mewn rhai achosion e.e. fe wnaeth rhai gofnodi gwybodaeth fwy penodol am yr hyn a drafodwyd mewn cyfarfodydd a galwadau ffôn gyda defnyddwyr ac aelodau o'r teulu/gofalwyr, tra bod eraill wedi cofnodi'n fwy cyffredinol am y cysylltiad neu'r prif bwnc trafod mewn cyfarfod.

Fe wnaeth yr holl ymarferwyr gofnodi'r sesiynau y cawson nhw gyda'r plant, eu cysylltiad gyda theuluoedd a gofalwyr, a chysylltiad gyda gweithwyr proffesiynol gan asiantaethau allanol sy'n gysylltiedig â'r plant. Fe wnaeth rhai ymarferwyr gofnodi'r cysylltiad a gawson nhw hefyd gyda staff eraill Gwella, fel sesiynau goruchwyllo gyda rheolwr y prosiect neu ymgynghoriadau ynghylch achosion. Roedd ffurf y cofnod hwn yn amrywio gryn

dipyn, gyda rhai sgysiau dros y ffôn yn cael eu cofnodi bron air am air a rhai'n cael eu cofnodi'n gryno heb fawr o fanylion. Yn yr un modd, cafodd rhai negeseuon testun eu cadw'n llawn ar y system, tra bod rhai eraill yn cael eu hesbonio'n fyr yn unig. Roedd ebyst yn cael eu cadw'n llawn ar y system bron bob amser. Mewn un achos, cawson nhw eu disgrifio yn hytrach na'u cadw'n llawn ac fe ychwanegodd yr ymarferydd nodyn i egluro bod hyn o ganlyniad i broblemau technegol gyda'r system yn atal ebyst rhag cael eu llwytho'n uniongyrchol fel arfer.

Cyfathrebiadau gyda gweithwyr proffesiynol allanol a gofnodwyd

Ar gyfartaledd, roedd ymarferwyr Gwella yn cofnodi 33 o gysylltiadau gyda gweithwyr proffesiynol allanol. Drwy ebost y gwnaethpwyd y rhan fwyaf o'r cysylltiadau hyn. Fe wnaeth y rhan fwyaf o ymarferwyr gofnodi ebyst, galwadau ffôn, a chyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol a arweiniodd at gyfeirio pob plentyn at Gwella. Ym mhob achos, cofnodwyd cyfathrebiadau pellach â gweithwyr proffesiynol allanol. Gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr addysg proffesiynol oedd y rhan fwyaf o'r rhain, ond cofnodwyd ambell gyfathrebiad gyda'r rhai o ofal iechyd a thai. Rhannu gwybodaeth a thrafod gwaith oedd wedi'i gynllunio oedd diben y rhan fwyaf o'r cyfathrebu gyda gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol. Roedd hyn yn aml yn wir gyda gweithwyr addysg proffesiynol hefyd, a chafwyd rhai achosion pan roddodd y gweithiwr Gwella gyngor i'r gweithwyr hyn. Gan amlaf, yr ymarferydd Gwella yn cynorthwyo'r plentyn neu'r teulu i gael mynediad at y gwasanaeth oedd yr achosion o gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol eraill. O ddata'r cyfweiliadau, mae'n debygol na chafodd pob cysylltiad â gweithwyr proffesiynol allanol ei gofnodi ar y system gan fod ymarferwyr Gwella a gweithwyr proffesiynol allanol wedi sôn am gysylltiad parhaus ac ad hoc yn ystod y rhan fwyaf o gysylltiad y plant â Gwella.

Cyfathrebiadau gyda rhieni a gofalwyr a gofnodwyd

Roedd y cysylltiad a gofnododd ymarferwyr Gwella gyda rhieni a gofalwyr yn ymwneud yn bennaf â threfnu

¹⁴ Yn Sir Ddinbych, cofnododd ymarferwyr Gwella fanylion eu hachosion ar system tîm therapiwtig yr awdurdod lleol. Roedd hyn yn rhan o'r trefniant yn y maes gwasanaeth oherwydd y ffordd yr oedd Gwella wedi'i integreiddio'n rhan o dîm yr awdurdod lleol, yn wahanol i sut mae Gwella wedi'i sefydlu mewn meysydd eraill. Dywedodd yr ymarferwyr yn Sir Ddinbych fod y cofnod hwn, yn llai manwl, yn dyblygu eu cofnod ar system Barnardo's.

sesiynau a phryderon logistaidd eraill, yn ogystal â rhannu gwybodaeth. Mewn rhai achosion, roedd gwaith Gwella yn cynnwys gwneud llawer gyda rhieni a gofalwyr fel rhoi cefnogaeth ac arweiniad ar y gwaith oedd yn ymwybodol o faterion trawma oedd yn cael ei wneud gyda'r plentyn, neu roi cyngor a chefnogaeth am fagu plant mewn ymateb i geisiadau penodol am gymorth. Cofnododd yr ymarferwyr 20 o gysylltiadau ar gyfartaledd gyda rhieni/gofalwyr ar gyfer pob achos. Roedd natur y cysylltiad hwn yn amrywio. Yn y cyfweiliadau, dywedodd ymarferwyr Gwella bod hyn oherwydd y ffyrdd yr oedd yn well gan rieni a gofalwyr gyfathrebu ag ymarferwyr. Negeseuon testun, galwadau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb oedd y rhan fwyaf o'r cysylltiadau a gofnodwyd gyda rhieni a gofalwyr. Anaml y defnyddiwyd ebost. Dim ond pedwar gwaith y cafodd ei ddefnyddio, ac roedd gyda gofalwyr maeth ym mhob achos.

Cyfathrebiadau gyda phlant a gofnodwyd

Cofnodwyd y sesiynau gyda'r plant yn fanylach na disgrifiadau o'r cysylltiad, ond roedd cryn amrywiaeth o hyd o ran hyd a dyfnder y cofnodion hyn. Roedd rhai ymarferwyr yn defnyddio templed oedd yn cynnwys: amcanion; cynlluniau sesiynau; adnoddau a ddefnyddiwyd; dadansoddiad; camau a gytunwyd; a chynlluniau ar gyfer y sesiwn nesaf. Fe wnaeth rhai ymarferwyr na ddefnyddiodd y templed hwn gofnodi gwybodaeth serch hynny oedd yn cyfateb i bob un o'r meysydd hyn, ond ni wnaeth rhai gynnwys pob un o'r meysydd hyn wrth gofnodi. Cofnododd pob ymarferydd sesiynau gyda rhywfaint o fanylion am beth wnaethpwyd ac ymateb y plentyn i'r gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, amlinellodd yr ymarferwyr eu hamcan cyffredinol ar gyfer y sesiwn, y rhesymeg ar gyfer pob gweithgaredd, a pheth myfyrdod ar effaith y gwaith ar y plentyn, a'i gysylltiad â chynlluniau cyffredinol yr ymyriad a'r amcanion a gynlluniwyd ar gyfer y plentyn. Roed hyd y dogfennau oedd yn cofnodi pob sesiwn yn amrywio'n fawr. Roedd rhai ymarferwyr yn cofnodi un neu ddau o baragraffau ac eraill yn llenwi dros dudalen o fanylion am y gwaith a myfyrdod ar ei effaith bosibl.

Cofnododd yr ymarferwyr 22 sesiwn waith gyda phob plentyn ar gyfartaledd. Mae amrediad y sesiynau a gofnodwyd yn amrywio rhwng 2 a 46. Mae nifer y

sesiynau a recordiwyd gyda'r plant yn llawer is na'r disgwyl gyda'r rhan fwyaf o achosion, ac nid yw'r achosion na chafodd eu cwblhau yn esbonio hyn. Mae'r cyfweiliadau gyda'r plant, eu teuluoedd a'r gofalwyr, ac ymarferwyr Gwella yn dangos yn glir y cafodd mwy o sesiynau eu cynnal na'r nifer a gofnodwyd ar y system. Ar y cyfan, ar sail y wybodaeth o gyfweiliadau gyda thim Gwella, rhieni a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol allanol, nid yw'r cofnodion o bob math o gysylltiad yn rhoi darlun llawn o'r gwaith a'r cysylltiad a gwblhawyd yn ôl pob golwg. Gallai hyn fod oherwydd anawsterau llwyth gwaith, a godir isod.

4.10.2 Cofnodi fel ymarfer myfyriol

Dywedodd ymarferwyr Gwella eu bod yn ymwybodol bod gwahaniaeth mewn arddull cofnodi rhyngddyn nhw. Er i rai godi'r pwynt bod llawer o amser yn cael ei dreulio ar gofnodi, ac nid oedden nhw'n siŵr a oedd o gymorth o ystyried yr amser sydd ei angen ar gyfer gweddill y gwaith, roedd rhai ymarferwyr Gwella ar y pegwn arall ac o'r farn bod cofnodi'n broses oedd yn eu cefnogi gyda'u gwaith. Daeth i'r amlwg yn y cyfweiliadau, yn enwedig ym mlwyddyn un, fod Gwella yn ffordd wahanol o weithio i ymarferwyr oherwydd hyblygrwydd y deilliannau a'r pwyslais ar chwarae gyda phlant. Fe soniodd rhai am sut oedd cofnodi'r ymarfer yn rhoi mwy o hyder iddyn nhw gyda'r dulliau therapiwtig hyn; roedd hyn yn arbennig o wir i'r rhai oedd yn defnyddio eu cofnod fel gweithgaredd myfyriol oedd yn eu helpu i ystyried y defnydd o chwarae fel dull therapiwtig a gweld pa effaith a allai fod yn ei chael ar y plentyn a chynllunio rhagor o waith; roedd hyn yn eu helpu hefyd i deimlo eu bod yn gweithio tuag at ddeilliannau ac yn cynnig rhywfaint o 'ddilysrwydd'.

"Yr elfen ddadansoddi oedd y rhan nes i wir ei mwynhau wrth gofnodi am ei bod yn eich helpu i feddwl o ddifrif am beth wnaethoch chi. Weithiau, doeddwn i ddim hyd yn oed yn sylweddoli mod i'r gwneud unrhyw beth da, ond wedyn rydych yn ysgrifennu amdano ac mae'n ddiddorol. Roedd yn dweud llawer wrtha i neu'n gwneud imi feddwl sut gwnaeth hi elwa ohono. Mae'n rhoi amser i chi fyfyrto a dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ysgrifennu am y gwaith yn fanwl... i mi, roedd yn ei gwneud yn fwy

*dilys a mod i wedi gwneud mwy na mynd i chwarae
am awr gyda'r plentyn, achos dyna sut mae'n edrych
o'r tu allan"*

Ymarferydd Gwella

Mae'r data'n awgrymu er bod pwysau a (diffyg) amser i'w gyfrif am rywfaint o'r gwahaniaeth mewn arddull a phersbectif ar gofnodi, mae hefyd yn dibynnu ar p'un a oedd cofnodi'n cael ei ystyried yn weithgaredd â phwrpas o ran ffurfio rhan o'r gwaith ei hun ac yn gyfle myfyriol parhaus, neu a oedd yn cael ei ystyried yn ymarfer hel tystiolaeth i grynhoi'r gwaith a wnaethpwyd. Mae hyn yn awgrymu y byddai ymgorffori amser yng nghynlluniau gwaith yr ymarferwyr ar gyfer cofnodi fel gweithgaredd myfyriol yn cefnogi nodau'r dull, yn ogystal â'i annog fel defnydd defnyddiol o amser i ymarferwyr.

Adran 5: Cyflwyno'r prosiect

Yn ogystal ag elfennau trefniadol y prosiect, ceisiodd y gwerthusiad ystyried dyheadau a gwirioneddau nodau'r prosiect wrth ei gyflwyno, ac effaith dull Gwella ar ddeilliannau i blant a theuluoedd. Canolbwyntiodd y rhan hon o'r gwerthusiad ar sut aeth fim Gwella ati i lunio ymyriad cymhleth nad oes arweiniad ar ei gyfer sy'n cynnwys hyblygrwydd proffesiynol a chyd-destunau nad oes modd eu rheoli. Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw'n benodol at sut oedd ymarferwyr yn fwy ymatebol i sefyllfaoedd unigryw yn ystod blwyddyn gyntaf y peilot drwy beidio â chadw mor gaeth at ddyluniad y dull. Mae'r adran hon yn rhoi manylion ac yn cyflwyno'r dadansoddiad mewn cysylltiad â'r plant a'r teuluoedd oedd yn gysylltiedig â Gwella, hyd yr ymyriad, logisteg cyflwyno'r gwasanaeth, ystyriaethau ymarferol yr ymyriad o ran cynnwys asiantaethau allanol a'r gwaith gyda rhieni, gofalwyr a phlant, cyn dod i ben gyda thrafodaeth am y deilliannau i deuluoedd a phlant.

5.1 Y plant a'r teuluoedd oedd yn gysylltiedig â Gwella

Cynnwys 24 o blant oedd y bwriad gwreiddiol. O ganlyniad i ymestyn y prosiect i flwyddyn ychwanegol, roedd 24 o deuluoedd yn cynnwys 31 o blant i gyd a'u rhieni a/neu ofalwyr yn rhan o'r peilot. Roedd pum grŵp

o frodyr a chwiorydd yn gysylltiedig: tri grŵp o ddau, a dau grŵp o dri. Ar yr adeg cyfeirio, roedd y plant rhwng 5 ac 11 oed. Roedd 15 yn ferched ac 16 yn fechgyn.

Roedd 10 o'r plant yn byw gydag o leiaf un rhiant biolegol o ddechrau ymyriad Gwella. Roedd 19 o'r plant a gymerodd ran o dan ofal ar ddechrau eu cysylltiad â Gwella, ac roedd tri o'r rhain o dan ryw fath o ofal gan berthynas. Roedd un o ddefnyddwyr y gwasanaeth o dan orchymyn gwarchod arbennig, ac roedd un gyda rhiant mabwysiadol. Ymhlith y 19 oedd o dan ofal ar ddechrau'r ymyriad, cafodd o leiaf 5 eu dychwelyd i fod o dan ofal o leiaf un rhiant biolegol yn ystod cyfnod ymyriad Gwella. Ni chafodd anawsterau dysgu eu cofnodi'n gyson mewn data craidd, ond o ddata cyfweliadau, disgrifiwyd o leiaf pedwar o blant fel rhai oedd ag anawsterau dysgu, ac roedd gan ddau arall ADD neu'n cael eu hasesu ar y pryd ar gyfer awtistiaeth.

Mae'r rhesymau craidd, a gofnodwyd ac sy'n ymwneud yn benodol â phlant dros gyfeirio i'w gweld yn adran 4.7. Yn ogystal â'r meysydd hyn a nodwyd sy'n peri pryder, ystyriwyd y canlynol wrth lywio'r gefnogaeth a roddir i blant: roedd rhai wedi cael eu cam-drin a'u hesgeuluso mewn sawl ffordd, yn ogystal â phrofi profedigaethau a nifer o newidiadau teuluol a/neu gartref, amgylchiadau byw a gofalwyr. Roedd rhai yn hynod dawedog tra bod eraill yn ymddwyn mewn ffyrdd cymhellol, aflonyddgar, ymosodol neu rywiol amhriodol, yn yr ysgol ac yn cael eu hanfon gartref, neu gyda rhieni a gofalwyr. Canolbwyntiodd meysydd eraill o gefnogaeth ar arswydau nos y plant, ofn mynd i'r gwely, siarad yn ddryslyd am drawma o'r gorffennol neu fel petai'n dal i ddigwydd, methu gwneud ffrindiau, anhawster mynegi anghenion neu emosiynau, pryderon ynghylch gorbaroddrwydd i blesio (a bod yn fwy agored i niwed i bobl a allai eu cam-drin yn sgil hynny), gorbryder, hyder isel, ofn bod ar eu pen eu hunain.

Roedd rhieni a gofalwyr yn cael trafferth gwybod sut i ymateb. Mynegodd rhai orbryder neu ddiffyg hyder yn eu sgiliau magu plant ac roedd rhai wedi ynysu eu hunain am nad oedden nhw eisiau rheoli ymddygiad eu plant mewn mannau cyhoeddus. Roedd pryderon ychwanegol ynghylch 'sefydlogrwydd y lleoliad' neu gadw'r plant gartref. Yn yr achosion hynny lle cafodd plant eu

dychwelyd i fod o dan ofal eu rhieni, roedd pwyslais ar gefnogi'r perthnasoedd hynny, a chymorth i blant a rhieni reoli'r newid hwn.

5.2 Hyd yr ymyriad

Cafodd y prosiect ei ddylunio i fod yn ymyriad 12 mis o hyd, a dyrannwyd ymarferydd Gwella ar gyfer pob teulu i gydweithio â nhw drwy gydol y flwyddyn. (Mewn rhai achosion, gweithiodd yr ymarferydd gyda brodyr a chwiorydd o'r un teulu, ac mewn rhai achosion roedd gan frodyr a chwiorydd ymarferwyr gwahanol, fel arfer oherwydd bod y plant gyda theuluoedd maeth gwahanol ar ddechrau'r ymyriad.)

Ymhlith y 31 o blant a gymerodd ran yn y prosiect, cafodd 27 ohonyn nhw'r raglen gefnogaeth a gynlluniwyd. Cafodd 22 o'r plant hyn y gwasanaeth dros gyfnod parhaus o 12 mis. Cafodd tri ohonyn nhw raglen estynedig oherwydd tarfu a achoswyd gan absenoldeb gweithwyr; mewn un achos roedd hyn o ganlyniad i gyfuniad o absenoldeb a chyfnod mamolaeth; ac mewn dau achos roedd hyn o ganlyniad i'r gweithiwr yn gadael y prosiect yn gynnar. Yn yr achosion hynny, bu'r gweithiwr newydd a ddaeth yn ei le yn absennol oherwydd salwch, cyn gadael. Erbyn hynny, roedd y gweithiwr gwreiddiol wedi dychwelyd a chymryd yr achosion unwaith eto. Daeth cefnogaeth i ben ychydig yn gynnar i un plentyn (ar ôl tua un mis ar ddeg) wedi i'r ymarferydd adael y prosiect, a barnwyd y byddai cael ymarferydd newydd i gymryd yr awenau yn achosi gormod o strach. Yn gryno, cafodd mwyafrif y plant a gymerodd ran yn y peilot y rhaglen gefnogaeth 12 mis o hyd a gynlluniwyd. Cynigiwyd estyniad i'r ymyriad i rai o'r plant a'r teuluoedd yn y pen draw oherwydd absenoldeb ymysg yr ymarferwyr, a gweithiodd rhai gyda sawl ymarferydd am yr un rheswm.

Daeth yr ymyriad i ben yn gynnar ar gyfer pump o blant. Roedd tri o'r rhain yn frodyr a chwiorydd lle penderfynodd y rhiant roi'r gorau i gymryd rhan yn y prosiect yn gynnar. Fel y trafodwyd yn adran 4.2, daeth yr ymyriad i ben mewn achos arall oherwydd absenoldeb tymor hir yr ymarferydd Gwella. Yn y naill achos fel y llall, cynigiwyd cefnogaeth ymarferydd newydd i'r plentyn a'r rhieni/gofalwyr. Yn un o'r achosion hyn, gwrthododd y gofalwyr y cynnig oherwydd yr oedi wrth drefnu

darpariaeth amgen. Roedd y llall yn un o'r achosion hynny lle gadawodd yr ymarferydd a dychwelyd nes ymlaen. Er i weithiwr newydd gael ei ddyrannu ar gyfer yr achos yn y cyfamser, a'i ailddyrranu i'r gweithiwr gwreiddiol wedi hynny, rhoddodd y rhiant y gorau i gymryd rhan pan ddychwelodd y gweithiwr gwreiddiol.

5.2.1 Pwysigrwydd amser

Fe wnaeth staff Gwella gydnabod mai rhywbeth prin oedd cael arian wedi'i ymrwymo i weithio gyda phlant a theuluoedd am 12 mis. Fe wnaethon nhw hefyd fyfyrto ar bwysigrwydd y cyfnod amser hwn oherwydd yr amser sylweddol a allai fod ei angen i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth. Ar ben hynny, roedd angen cynllunio ar gyfer dod â'r gefnogaeth i ben, gan olygu bod rhwng chwech a naw mis yn nes ati o ran yr amser y byddai'r ymarferwyr yn cydweithio â'r plant a'r rhieni neu ofal ar elfennau craidd o ddull Gwella. Dywedodd llawer o'r ymarferwyr eu bod yn teimlo y byddai wedi bod yn well cael cyfnod o ymgysylltu â theuluoedd cyn cynnal rhai o'r gweithgareddau asesu a chreu cynllun gwaith, oherwydd byddai'n hynny'n eu galluogi i'w seilio ar anghenion y teulu. Roedden nhw hefyd yn teimlo bod cyfleoedd wedi'u colli i adeiladu ar y perthnasoedd a ddatblygwyd a'r gefnogaeth a sefydlwyd. Fodd bynnag, ni chafodd y rhain eu pwysleisio fel pwynt, o bosibl am eu bod yn awyddus i'r ymyriad barhau drwy'r arian.

Mae'r data o'r cyfweiliadau gyda rhieni a gofalwyr yn ategu barn fîm Gwella am yr amser sydd ei angen i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda nhw a/neu gyda'u plant, a dywedon nhw pa mor bwysig yw rhoi amser i wneud hynny cyn dechrau cymryd rhan mewn elfennau o'r ymyriad. Soniodd y rhieni a gymerodd ran yn y gwerthusiad yn benodol am brofiadau blaenorol o gefnogaeth drwy eu cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol. Bryd hynny roedden nhw'n teimlo bod pobl yn eu camddeall a'u barnu a'u bod felly'n amharod i ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol ac ofn cymryd rhan. Fe gymerodd hi rai wythnosau i ymddiried yr ymarferydd a manteisio ar y gefnogaeth yn llawn, fel y dangosir isod:

Tad: Weithiau baswn yn dal yn ôl ac wedyn wedi i [ymarferydd] fynd, byddwn yn difaru na wnes i ddweud beth oedd ar fy meddwl. Ac

rydych ychydig bach yn amharod dweud pethau ar adegau, ac ar ôl ychydig nes i benderfynu mod i am ddod allan gyda beth sydd ar fy meddwl.

Ymchwilydd: A pha mor hir wnaeth hynny gymryd? A wnaeth hi gymryd mwy o amser o ran bod yn barod i ymddiried a siarad?

Tad: Do. Gallai fod tua'r pedwerydd, pumed, efallai hyd yn oed y chweched tro i mi ei gweld cyn i mi ddod allan o fy nghragen a dweud rhywbeth os oedd angen.

Gellir cydnabod pryderon posibl plant yn ystod yr wythnosau cyntaf hefyd wrth gwrdd ag ymarferwyr, a'r angen i feithrin ymddiriedaeth. Mae hyn yn cynnwys teimlo eu bod yn gallu rhannu eu safbwyntiau a'u teimladau yn ogystal â theimlo'n ddiogel i fod ar eu pen eu hunain gyda'r ymarferwyr. Daw rhywfaint o hyn i'r amlwg yn y dyfyniad canlynol gan blentyn yn sôn am ei phryderon ynghylch cwrdd â'i gweithiwr yn ystod yr wythnosau cyntaf:

"Yn ystod yr wythnosau cyntaf, doeddwn i wir ddim eisiau gwneud hyn achos weithiau doedd [gofalwr] ddim yn yr ystafell, gan amlaf fyddai [gofalwr] ddim yno ac ro'n i'n eithaf ofnus am beth mae'n mynd i wneud gyda mi, gallai fod yn lleidr. Er nad yw hi ddim."

Plentyn, 9 oed

Dywedodd pob plentyn bod chwarae gemau a pheidio â gorfod 'siarad am bethau drwy'r amser' a theimlo'n 'ddiogel' yn bethau roedden nhw'n eu hoffi am eu gweithiwr, ac fe soniodd y rhieni eu bod yn ymddiried yn yr ymarferydd am eu bod yn gallu gweld bod eu plant yn eu hoffi ac yn edrych ymlaen at eu gweld. Fe wnaeth gofalwyr maeth yn benodol amlygu pwysigrwydd sicrhau bod yr ymweliadau'n gyson dros gyfnod o amser wrth gefnogi plant oedd wedi bod drwy drawma yn eu bywyd cartref ac sydd wedi deillio o ganlyniad i ansefydlogrwydd perthynol neu a darfwyd arnyh nhw pan oedden nhw o dan ofal ac yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol:

"Sefydlogrwydd sy'n bwysig, mae angen sefydlogrwydd ar bob un ohonyn nhw. Rhaid rhoi'r gorau i'w gwrthod a'u siomi, mae mor wael i'r plant."

Gofalwr maeth

Gofalwr 1 A dyma'r peth arall, nid eu bywyd cartref a beth mae wedi bod drwyddo yw'r unig bethau sy'n achosi trawma. Cafodd ei gymryd i ffwrdd ac wedyn cael saith gofalwr maeth, ac mae'n deg dweud bod un neu ddau ohonyn nhw'n annymunol, roedd pob un yn fyr dymor.

Gofalwr 2: Nid dyna'r prosiect, nage?

Gofalwr 1: Na, beth dwi'n geisio'i ddweud yw nid plentyn sydd wedi bod drwy drawma gartref yw hwn. Mae'r diwydiant ei hun wedi ychwanegu at y trawma, ac wedyn mae cael prosiect sy'n cael ei adael ar ei hanner, i mi mae hynny'n golygu siomi'r plant yn ofnadwy. Rydyn ni'n gyfrifol, mae pob un ohonon ni'n gyfrifol am hynny.

Mae'r safbwyntiau hyn yn awgrymu bod angen ystyried trawma wrth drefnu'r prosiect i alluogi cysondeb a sefydlogrwydd er mwyn osgoi achosi trawma o'r fath eto i blant. Mae'n arwyddocaol mai'r unig adborth a allai gael ei ystyried yn negyddol gan rieni yn y cyfweiliadau, neu fu'n rhan o'u barn ar beth ddylai newid yn y prosiect, yn ymwneud yn ddi-ffael â hyd ac amseriad y gefnogaeth. Yn ogystal â barn ynghylch addasrwydd, hwn oedd un o'r ychydig newidiadau a awgrymwyd gan ofalwyr maeth. Dywedon nhw eu bod yn teimlo bod angen rhagor o amser ar eu plentyn i gael cefnogaeth. Roedd hyn o ystyried y trawma a brofwyd a'r perthnasoedd oedd wedi'u sefydlu drwy'r ymyriad a'r posibiliadau o adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd:

"[maen nhw] yn ei ddeall yn iawn ac [maen nhw] wedi cyrraedd lefel sy'n deall [plentyn] a sut mae [plentyn] yn gweithio. Does neb yn mynd i gyrraedd yr un lefel gydag e oni bai eu bod nhw'n meithrin perthynas ac ymddiriedaeth gydag e, a dyna pam mae hi mor siomedig eich bod chi bron yno lle gallech fod wedi cael rhyw fath o effaith o ran ei helpu i ddelio gyda'r trawma."

Gofalwr maeth

"Ie, dwi'n meddwl y dylai fod tua deunaw mis o hyd er mwyn gallu mynd trwy nifer o bethau oherwydd roedd ganddo nifer o broblemau fel mynd fyny grisiau yn y tywyllwch, canolbwyntio er ei fod wedi gwella

rhywfaint. Pe byddai'r rhaglen fymryn yn hirach, gyda mwy o weithgareddau a allai fod gwella pethau hyd yn oed yn fwy... achos wrth feddwl amdano, mae blwyddyn yn swnio fel amser maith ond mae bob yn ail wythnos, dim ond tua 24 gwaith y flwyddyn yw hynny, felly er ei fod yn swnio fel tipyn, dyw e ddim mewn gwirionedd.'

Gofalwr sy'n perthyn

I rai rhieni, yn rhannol oherwydd llwyddiant y prosiect, cafodd eu cysylltiad â Gwella ei dynnu ar yr adeg pan oedd asiantaethau eraill hefyd yn rhoi'r gorau i roi cefnogaeth. Er ei fod yn cael ei gydnabod fel cam pwysig a phositif, roedd pryder ynghylch y posibilrwydd o fethu bryd hynny o ystyried y newid sylweddol mewn amgylchiadau teuluol o ganlyniad i dynnu'r gwasanaethau hyn yn ôl:

"Penderfynais ei wneud, felly meddyliais y baswn yn rhoi cynnig arni. Ond gyda gwasanaethau cymdeithasol, cefais wneud hynny. Yn ffodus iawn, maen nhw wedi fy ngadael, felly mae pawb yn mynd. Achos rydw i wedi dod mor bell. Felly roedd yn eitha da i mi (yn oedi) a dwi'n hapus, ac eto dwi ddim yn hapus achos dwi wedi dod i'r arfer â'r drefn o bobl yn dod ac yn gwneud gwahanol bethau. Ond yn amlwg mae angen i mi ddysgu sefyll ar fy nhraed fy hun, ond dwi'n 30 erbyn hyn felly mae'n rhaid i mi geisio dysgu.

Mam

Tad: *Wrth fagu plant ar sail trawma neu fagu plant mewn ffyrdd therapiwtig fel rydyn ni'n ei wneud, mae'n anodd iawn ac mae angen i chi gymryd camau bychain a gweld beth sy'n gweithio. Yr unig gyngor faswn i'n ei gynnig fyddai bod angen teilwra'r help ar gyfer anghenion y teulu rydych chi'n eu helpu. Dydw i ddim yn dweud na chawson ni'r cymorth hwn achos dwi'n meddwl y cawson ni. Yn anffodus, rydyn ni'n agosáu at ddiwedd y prosiect a dyma'r adeg pryd y gallen ni fod yn cymryd mwy ymlaen achos rydyn ni'n ymdopi â 90% o bethau. Gyda'r 10% arall y mae angen hwb ychwanegol arnon ni.*

Llysfam: *Rhywbeth a allai roi help llaw i ni.*

Fel y nodwyd uchod, roedd y pryder ynghylch y posibilrwydd o bethau'n mynd o'i le wedi i'r gwasanaeth ddod i ben yn arbennig o amlwg ymysg teuluoedd oedd â phlant oedd wedi dychwelyd ar ôl bod o dan ofal. Roedd tynnu'r gwasanaeth a phrosiect Gwella yn ôl yn newid o bwys i'r plant hefyd, a dywedodd rhieni a gofalwyr bod eu plant yn poeni ynghylch pwy fyddai'n siarad â nhw nawr, ac a fydden nhw'n gorfod dychwelyd i fod o dan ofal. Mewn achosion o'r fath, ni wnaeth y teuluoedd awgrymu y dylai'r ymyriad barhau yn yr un modd o reidrwydd, ond nid oedden nhw am weld y gefnogaeth yn dod i ben yn llwyr, ac roedden nhw'n dymuno bod mewn sefyllfa o allu cysylltu 'pe byddai pethau'n mynd o'i le' neu er mwyn tawelu meddyliau eu plant. Mae hyn i'w weld hefyd yn y dyfyniad uchod: nad oedd y teuluoedd yn awgrymu cael gwasanaeth di-ddiwedd, ond y dylai'r gefnogaeth leihau'n raddol.

5.2.2 Dod â'r gefnogaeth i ben

Mae'r drafodaeth uchod yn gysylltiedig â'r broses o ddod â'r gefnogaeth i ben gyda phlant a rhieni a gofalwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafodd y broses o ddod â'r gefnogaeth i ben ei rhagweld ac roedd modd ei rheoli rhwng yr ymarferydd a'r teulu. Ni wnaeth yr ymarferwyr ddefnyddio proses safonol ar gyfer dod â'r broses i ben, ond roedd rhai arferion a rannwyd. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod y plant yn ymwybodol ac yn cael eu hatgoffa ymlaen llaw y bydd yr ymarferwyr yn rhoi'r gorau i weithio gyda nhw. Byddai hyn yn dechrau ar ddyddiad penodol tuag at ddiwedd y 12 mis drwy atgoffa'r plant o hyn bob wythnos, a dod â'r prosiect i ben drwy wneud rhywbeth arbennig gyda'i gilydd fel rhywbeth i edrych ymlaen ato ac fel dathliad. Siaradodd yr ymarferwyr am geisio sicrhau bod y plant yn cael 'diwedd positif', pwysigrwydd cydnabod teimladau'r plant a nhw eu hunain am ddod â'r berthynas i ben, a cheisio rhoi dewis i'r plentyn ynghylch beth hoffon nhw ei wneud ar eu hymweliad olaf fel ffordd o roi rheolaeth iddyn nhw.

Roedd bron yr holl blant fu'n rhan o'r gwerthusiad wedi'u heffeithio'n emosiynol wrth sylweddoli na fydden nhw'n gweld eu gweithiwr eto. Roedd rhai yn amlwg yn ddig am hyn, ac fe sonion nhw am weld eisiau eu gweithiwr. Siaradodd rhai o'r rhieni a'r gofalwyr am y newidiadau positif yn ymddygiad eu plant yn gwaethygu o ganlyniad i beidio â gweld eu gweithiwr. Roedd hyn yn arbennig o wir

gyda'r garfan dwy flynedd – roedd ymyriad rhai ohonyn nhw wedi'i ymestyn, ac roedd rhai wedi dychwelyd i fyw gyda'u rhieni yn ystod yr ymyriad. Yn ôl pob golwg, nid oedd rhai plant yn deall efallai na fydden nhw'n gweld eu gweithiwr eto. Roedd llawer o'r plant yn cael trafferth deall pam y daeth y berthynas i ben er bod y rhieni wedi'u hatgoffa am y cyfarfod olaf a bod hyn wedi'i egluro wrthyn nhw, ac am y ffyrdd gofalus y ceisiodd yr ymarferwyr reoli hyn. Siaradodd y rhieni am sut gwnaeth eu plentyn wrando, ond eu bod heb ddeall neu sylweddoli beth oedd diwedd y gefnogaeth yn ei olygu. Roedd rhieni hefyd, er eu bod yn cydnabod bod y berthynas yn un 'broffesiynol', yn sôn am sut bydden nhw'n gweld eisiau eu gweithiwr, yn teimlo'n drist am na fydden nhw'n e'u gweld nhw eto, neu roi gwybod iddyn nhw sut oedd pethau'n mynd.

Rhannodd y gweithiwr proffesiynol allanol yr un farn ynglŷn â sut mae angen cyflwyno ymyriadau dros gyfnod hwy er mwyn ymdopi â'r heriau hyn. Roedd y mwyafrif llethol yn bositif ynglŷn â hyd yr ymyriad ac yn pwysleisio pa mor brin ac 'anhygoel' oedd cael prosiect â'r cyfle i weithio gyda theuluoedd i'r fath raddau dros gyfnod o flwyddyn, a dywedodd llawer o weithwyr proffesiynol bod hyd yr ymyriad yn elfen bwysig iawn o'i lwyddiant. Fodd bynnag, fe wnaethon nhw awgrymu hefyd y gallai'r ymyriad elwa o gyflwyno proses fwy graddol ar y diwedd er mwyn hwyluso diweddglo gwell. Er i rai gweithwyr proffesiynol siarad yn bositif am sut oedd yr ymarferwyr yn rheoli'r broses o ddod â'r gefnogaeth i ben, nodwyd mai diweddu'r ymyriad ar ddiwedd y flwyddyn (neu amserlen estynedig) oedd y bwriad o hyd, a dywedodd rhai y byddai proses fwy graddol o ddod i ben wedi bod o fudd i rai o'r plant. Mynegodd rhai gweithwyr proffesiynol hefyd bryderon am gydnabod problemau dwfn a allai fod angen cymorth am gyfnod hwy ar eu cyfer. Awgrymodd rhai y gallai'r gefnogaeth fod wedi parhau er mwyn ymdopi â newid ar draws amgylchiadau byw neu flynyddoedd ysgol – a dywedodd rhai gweithwyr addysg proffesiynol bod ymddygiad cynharach wedi dod i'r amlwg ar ôl i ymyriad Gwella ddod i ben. Fodd bynnag, fe wnaeth pob gweithiwr proffesiynol gydnabod bod arian yn cyfyngu ar ddarpariaeth yn anochel.

Mae canfyddiadau o'r fath yn cefnogi'r cyfnod o 12 mis ar gyfer cyflwyno'r ymyriad. Mae barn y rhai a gymerodd ran a phrofiadau plant a rhieni o sut ddaeth y gwasanaeth i ben yn dangos bod angen ei ymgorffori'n rhan o gyfnod o

ddod â'r gefnogaeth o ben yn raddol i rieni a gofalmwyr yn ogystal â chyfle i'r plant ddweud sut maen nhw'n teimlo ar ddiwedd y 12 mis. Dylai fod hyblygrwydd i barhau â rhyw elfen o gefnogaeth os bydd asesiad yn dangos bod hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r deilliannau a gynlluniwyd.

Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod hyd yr ymyriad yn hanfodol ar gyfer llwyddiant tymor byr a thymor hir yr ymyriad a'r deilliannau i deuluoedd mewn tair ffordd; yn gyntaf, creu'r ymddiriedaeth angenrheidiol sy'n hanfodol er mwyn i'r ymarferwyr allu ymgysylltu. asesu'n briodol, a chynllunio gwaith mewn modd hewristig gyda rhieni a phlant, yn ail, hwyluso diweddglo sy'n rhoi elfen o reolaeth i blant a rhieni; yn drydydd, ac mewn cysylltiad â'r ail gam, sicrhau bod yr ymyriad yn dod i ben yn unol ag asesiad o anghenion a sefyllfa'r teuluoedd, yn hytrach na chadw'n gaeth at drefniadau a chyfyngiadau ariannu. Bydd y graddau y gall y prosiect yn gallu hwyluso'r tair ystyriaeth hefyd yn pennu i ba raddau y caiff y rhain eu hwyluso ac 'ystyried materion trawma' wrth ei drefnu a'i gyflwyno. Mae'r heriau a'r profiadau negyddol sy'n gysylltiedig â gadael y rhaglen yn codi'r cwestiwn sut mae hyn yn debyg i brofiadau blaenorol y plentyn o golli perthynas, ac a oes ffordd o gynnig elfen o reolaeth i'r plentyn dros y broses o ddod â'r rhaglen i ben.

5.3 Logisteg cyflwyno

Dyluniwyd y prosiect fel bod yr ymyriad yn ymgysylltu mewn modd cyson a pharhaus yn ystod y 12 mis. Wrth drefnu'r prosiect, rhagwelwyd y byddai'r gefnogaeth yn cael ei chynnig yn wythnosol ac yng nghartref y teulu yn bennaf. Ystyriwyd hyn wrth drefnu cynlluniau gwaith ar gyfer ymarferwyr, ac roedd gan y rhan fwyaf o ymarferwyr rhwng dau a phedwar achos ar yr un pryd. Fodd bynnag, roedd gan un ohonyn nhw chwe achos yn y flwyddyn beilot, ac fe wnaeth un ymarferydd weithio gydag un achos am y rhan fwyaf o'r flwyddyn wedi i'r gefnogaeth ddod i ben ar gyfer un rhiant oedd â thri o blant. Yn yr ail flwyddyn, fe reolodd pob ymarferydd naill ai ddau neu dri achos.

Gan ddibynnu ar y trefniadau cefnogi ar gael ac anghenion y plentyn a'r rheini neu'r gofalmwyr, roedd y logisteg o gyflwyno'r gwasanaeth yn wahanol rhwng ymarferwyr ac ymysg plant, rhieni a gofalmwyr. Roedd hyn

yn cynnwys pa mor aml roedden nhw'n ymweld, lleoliad yr ymweliad a'r dulliau cyfathrebu.

Roedd yr ymweliadau yn wythnosol fel arfer a thua awr o hyd. Mewn rhai achosion, fe wnaeth yr ymarferydd gwrdd â'r plentyn yn unigol a gyda'u rhieni neu ofalwyr yn unigol wedi hynny bob yn ail wythnos. Mewn achosion eraill, roedd yr ymarferydd yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r berthynas rhwng y plentyn a'r teulu, felly roedd gwaith yn cael ei wneud gyda nhw yn bennaf ac yn digwydd yn wythnosol. Roedd ymarferwyr yn gallu trefnu sesiynau gyda'r plant o amgylch amserlen y teulu. Roedd y trefniadau a'r cysylltiadau y tu allan i'r ymweliadau a drefnwyd yn amrywio o ran dull wrth i ymarferwyr gyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a gofalwyr drwy negeseuon testun, dros y ffôn, a thrwy ebost mewn rhai achosion.

Gyda 14 o'r 31 o blant, yn yr ysgol y cynhaliwyd y sesiynau gyda'u hymarferwyr yn bennaf. Roedd hyn naill ai am ei fod yn lleoliad ar gyfer cwrdd y tu allan i gartref y teulu neu oherwydd roedden nhw'n gwybod bod eu profiad yn yr ysgol yn faes lle'r oedd angen cefnogaeth. Ymhlith y 14 plentyn, cafodd un ohonyn nhw sesiynau un-i-un gartref, cafodd saith waith gartref gyda'u rhieni/gofalwyr (gyda'u brodyr/chwiorydd mewn tri achos), a chafodd pump sesiwn un-i-un rhywle arall (cafodd dau y rhain gyda'i gilydd am eu bod yn frodyr/chwiorydd). Mewn pedwar o'r achosion hyn, cawson nhw eu cynnal mewn car wrth naill ai yrru i/o'r ysgol gyda'r gweithiwr Gwella, ac roedd y lleoliad yn hyblyg yn yr achos oedd yn weddill (h.y. mewn parc neu gaffi). Mewn tri chais ychwanegol, ceisiwyd gweithio mewn ysgol, ond ni wnaeth barhau. Roedd y rhesymau dros roi'r gorau i'r gwaith yn wahanol ym mhob achos: mewn un achos, penderfynodd y gweithiwr Gwella nad oedd angen gweithio yn yr ysgol gan nad oedd profiad y plentyn o'r ysgol neu ei ymddygiad yno yn peri pryder; mewn un achos, rhoddodd yr ymarferydd Gwella y gorau iddi am nad oedd yn bosibl dod o hyd i le priodol yn yr ysgol; mewn un achos, roedd y sesiynau'n cael effaith negyddol ar ymddygiad y plentyn felly daethpwyd â'r sesiynau yn yr ysgol i ben. Ar gyfer y tri achos hyn, yn ogystal â'r 14 achos arall lle na chynhaliwyd gwaith yn yr ysgol o gwbl, cynhaliwyd y gwaith gartref.

Dywedodd teuluoedd bod yr hyblygrwydd hwn yn wahaniaeth positif o gymharu â'u profiadau blaenorol o wasanaethau. Dywedon nhw eu bod yn gwerthfawrogi gallu trefnu'r gefnogaeth o gwmpas eu hymrwymadau a sut mae'r dull yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a chydweithio'n positif â'r ymarferydd, fel sy'n cael ei ddangos isod:

"Y peth da am [ymarferydd] yw ei bod hi wastad yn gofyn i mi yn gyntaf cyn gwneud unrhyw beth, felly mae'n gofyn am fy marn ac fy nealltwriaeth e.e. gallai hwn weithio'n dda, beth wyt ti'n ei feddwl? Felly, roedd yn gwneud i mi deimlo mod i'n gallu gweithio gyda hi yn hytrach na bod hi'n dweud ein bod am wneud hyn ar ddiwrnodau penodol. Efallai mod i ddim yn hoffi 5, 6 a 7, chi'n gwybod be dwi'n ei feddwl?"

Tad

Mam: Nid oedd unrhyw bwysau arna i. Os oedd gennych chi bethau eraill i'w gwneud, roedd modd aildrefnu, felly ro'n i'n teimlo'n gyfforddus yn hytrach na bod pwysau arna i, neu deimlo mod i ddim eisiau bod yma, chi'n gwybod be dwi'n ei feddwl?

Dad: Weithiau byddai hi'n dod i ngweld i a [partner] ac eistedd a chael sgwrs a byddai hi'n gwybod beth i'w wneud wedyn ar gyfer y sesiwn nesa pan fydden ni i gyd gyda'n gilydd.

Mam: Doedd hi ddim yn rhoi unrhyw bwysau, fyddai hi ddim yn eich gorfodi i wneud pethau. Byddai hi'n gofyn i ni a oedd hi'n iawn i mi aros yma am hanner awr arall, os ddim, byddai hynny'n iawn a byddai hi'n mynd a phethau fel yna.

Ymchwilydd: Oeddech chi'n teimlo eich bod yn gallu dweud wrth yr ymarferydd adael?

Mam: Oeddwn.

Dad: Weithiau ro'n i'n dweud bod hyn yn ormod i mi, ro'n i'n teimlo fy nghalon yn curo oherwydd fy ngorbryder. Ond roedd hi'n deall sut ro'n i'n teimlo.

“Nid oedd unrhyw bwysau arna i. Os oedd gennyh chi bethau eraill i’w gwneud, roedd modd aildrefnu, felly ro’n i’n teimlo’n gyfforddus yn hytrach na bod pwysau arna i, neu deimlo mod i ddim eisiau bod yma, chi’n gwybod be dwi’n ei feddwl?”

Mam

Mae’r dyfyniad uchod yn awgrymu hefyd i ba raddau y gall trefniadau diniwed yr olwg a arweinir gan weithwyr proffesiynol effeithio ar deuluoedd. Mae gwaith perthynol yn cynnwys cydnabod sut gall arferion gwaith o’r fath eu profi ac effeithio ar deuluoedd. Yn ôl y data, roedd yr arferion hyn yn arwyddocaol wrth feithrin y berthynas waith oedd ynddi hi ei hun yn rhan hanfodol o lwyddiant yr ymyriad. Yn y ddau achos pan roddodd teuluoedd y gorau i gymryd rhan oherwydd anghysondeb ac absenoldebau ymarferwyr, fe wnaethon nhw sôn hefyd am anhyblygrwydd yr ymarferydd ac effaith hyn ar y plentyn. Roedd hyn naill ai oherwydd bod rhaid i’r plentyn fethu clybiau a digwyddiadau neu am nad oedd yr amseru’n cyd-fynd yn dda â’u harferion (e.e. cyfarfod yn syth ar ôl ysgol pan oedd y plentyn yn flinedig ac yn llwglyd).

Mae hyn yn ategu ymhellach bod angen i ymyriadau gydnabod anghenion plant a theuluoedd wrth ystyried logisteg yr ymarfer. Er enghraifft, siaradodd rhai plant am sut roedden nhw’n mwynhau cwrdd yn yr ysgol, ond dywedodd un plentyn cymaint oedd hi’n casáu hynny am ei fod yn gwneud iddi deimlo’n wahanol i’w chyfoedion a theimlo nad oedd hi’n ‘blentyn normal’. Dywedodd plant eraill eu bod yn mwynhau ymweld â lleoedd a bod hyn wedi eu helpu i siarad â’u gweithiwr, tra bod eraill yn teimlo’n fwy cyfforddus bod gartref gyda’u rhiant neu ofalwr gerllaw.

Roedd amrywiaeth hynod eang y trefniadau yn adlewyrchu bwriadau penodedig yr ymyriad, ac roedd llwyth achosion yr ymarferwyr yn rhan allweddol o alluogi dull o’r fath. Dywedodd yr ymarferwyr bod eu llwythi achosion yn eu galluogi i fod yn hyblyg gyda’u trefniadau a gyda theuluoedd a phlant mewn sesiynau e.e. ymestyn y sesiynau neu orffen yn gynnar a threfnu i ymweld rywbyrd eto ar ddyddiad mwy addas. Fe wnaeth yr hyblygrwydd helpu i wneud eu hymweliadau wythnosol yn fwy cyson hefyd.

“Dwi’n meddwl mai un o’r pethau sydd wedi rhoi rhywfaint o le i ni yw’r ffaith nad ydym wedi cael

llwythi achosion gorlawn. Mae hynny wedi rhoi hyblygrwydd i ni weithio o gwmpas y rhiant a’r plant a beth sy’n digwydd yn eu bywydau nhw. Dwi’n aml yn meddwl gyda’r mathau o deuluoedd rydyn ni’n gweithio gyda nhw, mae ganddyn nhw gymaint yn mynd ymlaen eu bod yn aml yn dweud eu bod yn methu gwneud sesiwn ar y diwrnod neu’r diwrnod cynt. Felly, rydw i’n sicr wedi gallu bod yn hyblyg a dweud os na fedra i ddod dydd Mercher, beth am imi ddod draw ddydd Gwener? Felly, rydw i’n gallu trefnu digonedd o ymweliadau o hyd. A dwi’n meddwl gyda phrosiectau eraill rydw i wedi bod yn rhan ohonynt nhw, mae llwythi achosion llawn iawn wedi fy rhwystro rhag gwneud hynny”

Ymarferydd Gwella

Fodd bynnag, rydym yn nodi y cafodd hyn oblygiadau o ran pa mor bell yr oedd yr ymarferwyr yn gorfod ei deithio’n rheolaidd. Mae hyn yn ategu’r ystyriaethau a wnaethpwyd yn adran 4.3 o ran dyrannu achosion.

5.4 Y dull ar waith - cydweithio ag asiantaethau allanol

Mae gweithio gydag asiantaethau allanol yn rhan annatod o egwyddorion dull Gwella mewn dwy ffordd graidd: yn gyntaf, drwy weithio gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod yr ymyriad yn cyd-fynd â chynlluniau cyfredol ar gyfer plant a’u teuluoedd; ac yn ail, drwy gynnal cyfarfod ‘ffurfio achos’ sy’n cynnwys nifer o asiantaethau. Mae’r ddwy egwyddor yn cyfrannu at nod cyffredinol y prosiect o hwyluso rhwydwaith ehangach o gefnogaeth sy’n ystyried materion trawma o gwmpas y plant a gefnogir drwy’r ymyriad.

5.4.1 Integreiddio â chynlluniau sy’n bodoli eisoes

Egwyddor allweddol yn null Gwella yw y dylai’r ymyriad integreiddio â chynlluniau sy’n bodoli eisoes ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Dylai wneud hynny’n uniongyrchol drwy ategu a llywio trefniadau gofal cymdeithasol sy’n bodoli eisoes ar gyfer plant unigol, yn ogystal ag yn anuniongyrchol drwy fod yn rhan o rhwydwaith o weithwyr proffesiynol o nifer o asiantaethau a rhoi cyngor a goruchwyliaeth ynghylch ymarfer sy’n ystyried materion trawma gyda phlant a theuluoedd. Yn rhan o’r nod ar gyfer prosiect ehangach

Gwella, roedd disgwyl i natur arbenigol rôl yr hwylusydd alluogi awdurdodau lleol i wneud y defnydd mwyaf o'u hadnoddau drwy eu helpu i lywio penderfyniadau pan mae angen ymyriadau arbenigol.

Roedd y gweithwyr proffesiynol hynny a gydweithiodd agosaf ac yn uniongyrchol ag ymarferwyr Gwella yn dod o'r gwasanaethau cymdeithasol statudol, addysg yn ogystal ag iechyd i raddau llai. At ddibenion gwerthusiad y tîm ymchwil, cafodd y tîm ymchwil enwau a manylion cyswllt 58 o weithwyr proffesiynol a chwaraeodd ran amlwg yng ngwaith Gwella gyda un plentyn neu ragor. Roedd 28 yn weithwyr proffesiynol o fyd addysg, 27 o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ac roedd tri yn weithwyr iechyd proffesiynol (gan gynnwys un o CAMHS, un nyrs ysgol ac un gweithiwr seiciatryddol proffesiynol). Nodwyd gennym yn adran 3.2 yr anhawster oedd yn gysylltiedig â chynnwys gweithwyr proffesiynol allanol yn y gwerthusiad hwn. Er bod y prosiect wedi gweithio gydag ystod a nifer o weithwyr proffesiynol yn rhan o rwydwaith y gwasanaethau o gwmpas pob plentyn, mae'r data gan yr 21 o weithwyr proffesiynol a wnaeth sylw yn dynodi mai nifer gymharol fach fu'n cydweithio â gweithwyr Gwella yn uniongyrchol i allu rhoi sylwadau cynhwysfawr am y prosiect.

Dywedodd ymarferwyr Gwella bod y perthnasoedd y gwnaethon nhw eu datblygu gyda gweithwyr proffesiynol eraill oedd yn gweithio o gwmpas yn plentyn yn rhai positif ar y cyfan, ac roedd hyn yn ymwneud ag i ba raddau yr oedd gweithwyr unigol yn cefnogi'r prosiect.

Cynnwys gweithwyr proffesiynol o faes gwaith cymdeithasol

Roedd yr ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol y llwyddon ni i'w cynnwys yn y gwerthusiad hefyd yn dweud pethau positif am y prosiect yn bennaf. Yn y cyfweiliadau, dywedodd y gweithwyr cymdeithasol bod ganddyn nhw berthynas waith agos a phositif gydag ymarferwyr. Cynhaliwyd rhai ymweliadau ar y cyd i weld y teulu er mwyn hwyluso cyfathrebu positif, cyfathrebu'n rheolaidd drwy ebost a thros y ffôn, a disgrifiwyd sut oedd y ffordd hon o weithio yn allweddol yn y deilliannau positif a gyflawnwyd gyda rhieni a phlant. Mae'r dyfyniad canlynol yn enghraifft o hyn.

Mae hi wedi bod yn gwbl anhygoel. I fod yn onest, mae'r achos hwn wedi bod yn un anodd. Ond rwy'n teimlo bod llawer o bryderon proffesiynol ynghylch y'r achos hwn am sawl rheswm. Ond roedd [ymarferydd] a mi ar yr un donfedd, fe aethon ni ati i weithio gyda'r teulu hwn mewn ffordd debyg, ac roedd hynny'n wych. Felly, rydyn ni wedi cael diweddariadau drwy ebost, siarad dros y ffon, ymweld â'r teulu ar y cyd. Rydw i wedi cael cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol bob mis neu chwe wythnos ar gyfer [plentyn] rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda, ac mae [ymarferydd] wastad wedi mynd i'r rhain. Mae'n wych, wir fedra i ddim ei chanmol hi ddigon.

Gweithiwr cymdeithasol

Dywedodd gweithwyr cymdeithasol eu bod hefyd yn gwerthfawrogi cael dolen gyswllt ar gyfer pryderon a syniadau ar gyfer gweithio gyda phlentyn penodol, neu ymateb i faterion a godwyd ynghylch y teulu. Mae hyn yn awgrymu bod yr ymyriad wedi cefnogi perthnasoedd da rhwng y teuluoedd a'r gwasanaethau cymdeithasol. (Mewn nifer o gyfweiliadau gyda rhieni, dywedon nhw hefyd ei bod yn gwerthfawrogi bod yr ymarferydd yn y cyfarfodydd gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, a chynnig eu safbwyntiau a'u hyrwyddo, yn ogystal â bod yn gyswllt ar eu cyfer am bod yn teimlo'n fwy parod i gyfathrebu â'r ymarferydd.) Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol bod yr ymarferydd wedi cyfrannu at baratoi gwaith dilynol ar eu cyfer i'w ystyried gyda'r teulu ar ôl diwedd y prosiect.

Fel awgrym bod yr ymyriad yn ategu eu gwaith cyfredol, amlygodd gweithwyr cymdeithasol pa mor werthfawr oedd bod ymarferwyr Gwella yn gallu rhoi cymaint o amser a sylw unigol i deuluoedd. Roedd hyn yn cyferbynnu â'r pwysau ar weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol wrth geisio ymdopi â llwythi achos mawr. Cyfeiriodd rhai at y llwyth gwaith is hefyd gyda phlentyn penodol o ganlyniad i'r prosiect oherwydd nid oedden nhw mwyach yn gorfod rheoli argyfyngau o hyd. Roedd y ffaith nad oedd gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill yn ymwneud ag achosion nifer o deuluoedd erbyn diwedd yr ymyriad yn awgrymu bod yr ymyriad wedi gweithio'n dda ac yn ategu cefnogaeth (fodd bynnag, fe wnaeth hyn gyflwyno cyfres o heriau ynddo'i hun, fel y nodwyd yn adran 5.2).

Roedd manteision eraill a nodwyd gan weithwyr cymdeithasol yn ymwneud ag arbenigedd a safbwyntiau yr ymarferwyr oedd yn ystyried materion trawma; roedd hyn yn wir yn achos y gweithwyr cymdeithasol oedd yn gweithio gyda theuluoedd, yn ogystal ag er mwyn eu hunain drwy reoli gorbryder proffesiynol a llywio dealltwriaeth o anghenion ac ymddygiad y teulu a'r plant.

Roedd yr unig adborth negyddol gan weithwyr cymdeithasol yn ymwneud â'r absenoldebau staff a'r diffyg darpariaeth wrth gefn, a'r effaith ar blant a theulu neu ofalwyr yn sgil hynny. Nododd rhai gweithwyr proffesiynol o wasanaethau cymdeithasol fod elfennau o'r broses gyfeirio, yn enwedig y gwaith papur a lleoliad y cyfarfodydd, yn ogystal â'r cais am ragor o wybodaeth a chyfarfodydd weithiau yn faich ychwanegol ochr yn ochr â'r llwyth gwaith oedd ganddyn nhw eisoes.

"Mewn gwaith cymdeithasol ar lawr gwlad, mae ceisio cael amser ar gyfer popeth yn dalcen caled. Rydw i'n deall bod angen llawer o wybodaeth gefndirol ar Gwella, ond dwi'n meddwl unwaith mae hynny wedi'i wneud, byddai'n well gennyn ni pe bydden nhw'n mynd ati a gwneud y defnydd gorau ohoni yn lle cael llw o gyfarfodydd i'w thrafod.

Gweithiwr Proffesiynol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Roedd y diffyg amser ar gael i weithwyr cymdeithasol yn thema gyffredin yn y cyfweiliadau – gan y gweithwyr cymdeithasol a'r ymarferwyr fel ei gilydd. Ar yr un pryd, er ei bod yn anodd dod o hyd i'r amser sydd ei angen i gydweithio â Gwella, roedd yr un gweithwyr cymdeithasol yn cydnabod bod angen gwneud hyn er mwyn i'r gwaith barhau.

Cynnwys gweithwyr proffesiynol o fyd addysg

Roedd gweithwyr proffesiynol o fyd addysg yn dweud eu bod wedi cael profiadau cymysg o'r prosiect. Roedd hyn yn tueddu i adlewyrchu'r cysylltiad proffesiynol gyda'r plentyn oherwydd roedd llai o ymwybyddiaeth o'r prosiect ac unrhyw ddeilliannau os na chymeron nhw ran uniongyrchol yn y gwaith. Er enghraifft, dywedodd rhai gweithwyr proffesiynol na wnaethon nhw gyfrannu rhyw lawer yng nghyd-destun yr anghenion therapiwtig yr oedd Gwella'n mynd i'r afael â nhw oherwydd nid

oedd y plentyn yn dangos yr anghenion hyn yn yr ysgol. Mewn achosion eraill, dywedodd gweithwyr proffesiynol o fyd addysg eu bod yn dra ymwybodol o Gwella ac wedi chwarae rhan amlwg. Roedd hyn fel arfer mewn sefyllfaoedd lle'r oedd yn hysbys bod gan y plentyn anghenion cefnogaeth yn yr ysgol neu eisoes yn cael cefnogaeth ddwys yn yr ysgol. Mewn achosion o'r fath, roedd y gweithwyr proffesiynol hyn yn canmol y prosiect i'r cymylau ac yn amlygu pa mor brin oedd cael prosiect cefnogi oedd wedi'i greu i weithio ochr yn ochr â byd addysg ac asiantaethau eraill. Dywedon nhw fod hyn wedi cael effaith hynod bositif ar eu gwaith gyda phlant, yn rhannol oherwydd y gefnogaeth ychwanegol a gynigiwyd a gafodd effaith ar ymddygiad y plentyn. Ond roedd hefyd oherwydd y cyfle i weithio ar draws asiantaethau mewn modd oedd yn canolbwyntio ar ddeall anghenion y plentyn a'r rhieni. Mae'r dyfyniad isod yn sôn am brofiad o Gwella sy'n cyd-fynd â nod yr egwyddor sydd yn null Gwella:

Mae'n eitha braf mynd i gyfarfodydd bod [ymarferydd] yn cael cyfle safbwynt y teulu bryd hynny hefyd. Felly, mae gennym yr elfen addysg o bethau, mae gan y gweithiwr cymdeithasol ei hochr hi o bethau ond [ymarferydd] yw'r un sydd wedi bod yno a dod i adnabod y teulu, deinameg y teulu a'u harferion. Felly, mae'n gwybod llawer mwy am y teulu na neb arall. Rydyn ni i gyd yn gwybod rhywfaint, ond hi yw'r un sydd wedi bod gyda'r teulu ac yn gallu rhoi gwybodaeth dda sy'n ddefnyddiol i'r cyfarfodydd ac am bethau fel y gallwn rhoi cynnig ar hyn yn yr ysgol. Felly, ar ôl cwrdd â'r plentyn yn yr ysgol, bydd hi efallai'n dweud ei bod hi'n rhoi cynnig ar hyn, ydych chi'n meddwl bod modd ei roi ar waith yn y dosbarth. Felly, rydyn ni'n cydweithio a dwi'n gallu rhoi gwybod am hyn i athrawes y dosbarth a nyrs y feithrinfa yn y dosbarth, a gallwn geisio rhoi'r un strategaethau ar waith. Felly, mae'n gysylltiad da iawn gyda'r teulu a'r ysgol, a'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd wrth gwrs.

Addysg

Roedd achosion hefyd pan oedd y plentyn yn cael ei gefnogi yn yr ysgol, ond dywedodd y gweithwyr proffesiynol cysylltiedig bod diffyg ymwybyddiaeth o waith Gwella. Roedd hyn yn debyg i achosion lle dywedodd ymarferydd Gwella bod teimlad nad oedd y gweithwyr cymdeithasol o dan sylw yn ymgysylltu'n llawn

i'r prosiect. Mewn un achos o'r fath, nododd y gweithiwr proffesiynol o fyd addysg bod eu diffyg ymwybyddiaeth o'r gwaith yn deillio o wybodaeth a rannwyd â gweithwyr proffesiynol yn yr ysgol, ond na chafodd ei rhannu ymhellach â'r rhai oedd yn gweithio gyda'r plentyn.

Dywedodd rhai o ymarferwyr Gwella eu bod yn cael trafferth creu neu gynnal cysylltiadau gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill mewn rhai achosion. Pan oedd cyfathrebu'n broblem, neu heb ddigwydd fel oedd ei angen, dywedodd ymarferwyr mai diffyg ymgysylltiad gan y gweithwyr perthnasol oedd i'w gyfrif am hynny yn ôl pob golwg. Pan soniodd ymarferwyr am berthnasoedd llai positif gyda gweithwyr proffesiynol allanol, roedd hyn fel arfer yn cyfateb i'r unigolion y methodd y fîm ymchwil gysylltu â nhw neu gael cyfweiliad gyda nhw er mwyn eu cynnwys yn y gwerthusiad. Felly, dim ond o safbwynt yr ymarferwyr y gallwn wneud sylw ar y perthnasoedd hyn, ond roedd hyn yn arbennig o wir mewn un rhanbarth penodol. Rydym hefyd wedi nodi bod ymarferwyr wedi sôn am wasanaethau therapiwtig oedd eisoes yn bodoli, felly gallai hynny fod wedi effeithio ar ddiddordeb pobl yn ymyriad Gwella gan ei fod yn debyg i ddarpariaeth sydd eisoes ar gael.

O ystyried bod partneriaeth ar draws nifer o asiantaethau yn rhan o nod cyffredinol y prosiect, gallai'r canfyddiadau awgrymu bod angen creu system gadarn a gwydn o gydweithio ymysg y gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Mae cydweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol a chyfathrebu'n agored â gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda theuluoedd yn hanfodol er mwyn galluogi'r ymarferwyr i effeithio ar ymarfer a darpariaeth sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â dylanwadu ar y rhwydwaith o gwmpas y plentyn. Mae nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n chwarae rhan yn llai pwysig o ran llwyddiant yr ymyriad. Y pwynt pwysig yw p'un a yw ymarferwyr yn gallu gweithio gyda'r asiantaethau perthnasol a'r gweithwyr proffesiynol a nodwyd sydd â rôl arwyddocaol ac sy'n gallu dylanwadu ar yr achos.

5.4.2 'Ffurio achos' ac asesu

Un o egwyddorion allweddol dull Gwella yw 'ffurfio achos' gyda nifer o asiantaethau ar gyfer pob plentyn. Arbenigwyr Trawma ddylai hwyluso hyn drwy

ddefnyddio'r fîm o weithwyr proffesiynol sydd eisoes o gwmpas y plentyn. Y diben yw 'mapio datblygiad' a sefydlu system sy'n ymwybodol o faterion trawma o gwmpas y plentyn.

Y bwriad oedd cynnal hyn ar ffurf cyfarfod a arweinir gan weithiwr therapiwtig proffesiynol neu seicolegydd clinigol. Byddai'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r plentyn a'r teulu yno, gan gynnwys gofalywyr a/neu rieni. Canolbwyntiodd y cyfarfodydd hyn ar greu llinell amser weledol o brofiadau trawmatig y plentyn. Byddai hyn yn creu dealltwriaeth a rennir o sut mae digwyddiadau arwyddocaol wedi llywio datblygiad y plentyn. Byddai'n helpu'r gweithwyr proffesiynol o dan sylw i ddeall sut mae trawma o'r gorffennol yn effeithio ar y plentyn, eu hymddygiad a'u lles, a deall beth allai bod yn 'ymwybodol o drawma' ar gyfer y plentyn penodol hwn ei olygu iddyn nhw yn eu rôl a'r amgylchedd (gwaith). Ar ôl hwyluso'r broses o ffurfio achos, byddai'r gweithiwr therapiwtig proffesiynol neu'r seicolegydd clinigol yn rhoi adroddiad i ymarferwyr Gwella am bob plentyn. Byddai'n dod â'r holl wybodaeth ynghyd o'r llinell amser ac yn ymgorffori dealltwriaeth o ddatblygiad plant, ymgysylltiad a thrawma, a'r bwriad fyddai cynnig safbwynt seicolegol iddyn nhw ar yr ymyriad a gynllunnir ar gyfer pob plentyn.

Dywedodd fîm Gwella pa mor anodd oedd rhoi'r bwriadau gwreiddiol ar gyfer ffurfio achosion ar waith am resymau logistaidd. Fe sonion nhw am yr anawsterau o geisio cael yr holl weithwyr proffesiynol i ymrwmo i'r 2-3 awr angenrheidiol a chael dyddiad ac amser oedd yn addas i bawb. Fe gyflwynodd hyn heriau wrth geisio cefnogi rhwydwaith oedd yn ymwybodol o faterion trawma o gwmpas y plentyn pan nad oedd asiantaethau pwysig yn cael eu cynrychioli. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â'r lefelau ymgysylltu a nodwyd uchod. Mewn achosion fel y rhain, bu ymdrechion i gynnwys gweithwyr proffesiynol mewn ffyrdd eraill, fel yr eglurodd rheolwr y prosiect:

"Pan mae [rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol statudol] wedi ymgysylltu â'r gwaith o ddifrif, mae hynny wedi bod yn haws ond roedd gennym anawsterau o hyd o ran cael pobl gyda'i gilydd yn yr un ystafell ar gyfer pethau fel ffurfio achosion. Roedd rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o wneud yn iawn am adegau pan nad oedd gweithwyr proffesiynol allweddol yn gallu dod i ffurfio achos ar

yr un diwrnod â phawb arall. Felly, fe ddatblygon ni bethau fel ffurflen crynodeb o ymarfer proffesiynol ac aeth gweithwyr Gwella i gwrdd â'r gweithwyr proffesiynol hyn oedd yn methu dod a chynnal yr un math o weithgareddau gyda nhw ac edrych ar fapio datblygiad a phethau fel yna. Felly, roedd modd bwydo hynny'n rhan o'r cyfarfod ffurfio achosion fel bod y person o dan sylw'n teimlo eu bod yn rhan o'r broses. Ac wedyn ar ôl ffurfio'r achos pan oedden ni'n bwydo yn ôl i mewn i'r system, nid oedd y gweithwyr proffesiynol yn teimlo eu bod wedi'u heithrio neu ar yr un dudalen."

Rheolwr Prosiect Gwella

Nodwyd bod anawsterau wrth drefnu cyfarfodydd gan fod y dyddiadau ar eu cyfer yn dibynnu ar pryd roedd yr arbenigwyr ymgynghorol oedd yn rhan o'r prosiect ar gael i'w harwain. Ym mlwyddyn un, cafodd nifer o gyfarfodydd ffurfio achosion eu gohirio a bu oedi wrth lenwi rhai o'r adroddiadau ffurfio achosion oherwydd amgylchiadau personol nad oedd modd eu rhagweld. Mewn rhai achosion, roedd y gwaith eisoes wedi dechrau cyn ffurfio'r achosion beth bynnag. Felly, pan oedd y rhain yn cael eu gohirio, roedd angen i'r ymarferydd barhau â'r gwaith heb allu cwblhau'r elfen benodol hon o'r ymyriad ar unwaith. Ar ben hynny, eglurodd rhai ymarferwyr bod yr adroddiadau a gawson nhw yn llai manwl na'r disgwyl ac nid oeddwn nhw'n rhoi cyfarwyddyd clir ynghylch sut i ymgorffori'r safbwyntiau seicolegol am drawma a datblygiad y plentyn yn y gwaith roedden nhw'n eu gwneud yn eu hachosion. Felly, i raddau amrywiol yr oedd mewnbwn arbenigol yn llywio'r cynlluniau cefnogi. Nid oedd hyn yn broblem i bob ymarferydd o reidrwydd ac awgrymodd rhai y gallai'r wybodaeth yn yr adroddiad asesu gael ei hymgorffori ochr yn ochr a'u dealltwriaeth nhw o'r teulu a'u hasesiad o anghenion, yn hytrach nag arwain yr ymyriad. Daeth i'r hyn i'r amlwg ym mlwyddyn dau yn benodol. Mewn achosion o'r fath, fe awgrymon nhw y byddai oedi wrth ffurfio'r achos er mwyn iddyn nhw gael amser i greu a meithrin perthynas gyda'r teulu a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig yn ffordd fwy buddiol o weithio.

Ar wahân i'r pryderon hyn, soniodd ymarferwyr Gwella am bwysigrwydd y broses hon er mwyn eu galluogi i ddeall hanes ac anghenion y plentyn a chael cynllun cychwynnol sy'n ffocysu ac yn blaenoriaethu cefnogaeth.

Yn ôl rhai, roedd hon yn elfen allweddol o'r dull a ddylai gael ei hymgorffori mewn ymarfer yn y dyfodol. Disgrifiodd y seicolegydd a'r arbenigwr fu'n rhan o'r prosiect y manteision o gynnig trosolwg clinigol ar gyfer plant oedd wedi cael profiad o drawma, ond nad oedden nhw'n cyrraedd y trothwy clinigol i gael cefnogaeth neu oruchwyliaeth. Fel y nodwyd yn adran 4.5, roedd pryderon ganddyn nhw nad oedd eu rôl yng nghynllun y prosiect yn mynd y tu hwnt i'r cyfarfodydd hyn.

Siaradodd pob gweithiwr proffesiynol allanol fu'n rhan o'r gwerthusiad ac yn ffurfio achosion am fanteision y broses hon. Fe amlygon nhw'r cyfle yr oedd y llinell amser yn ei gynnig a thrwy ddod ag arbenigedd gweithwyr proffesiynol o nifer o asiantaethau ynghyd i gael persbectif ehangach ar hanes plentyn. Deallwyd bod rhai gweithwyr cymdeithasol yn allweddol i'r broses hon. Soniodd gweithwyr proffesiynol o fyd addysg nad oedden nhw'n gwybod am yr holl drawma yr oedd plant wedi cael profiad ohono y tu allan i'r ysgol, a bod y cyfarfod hwn a natur weledol y llinell amser wedi rhoi dealltwriaeth well iddyn nhw o ymddygiad a lles y plentyn. Siaradodd gweithwyr cymdeithasol am ba mor werthfawr oedd deall hanes achos plentyn gyda phwyslais penodol ar drawma. Roedden nhw hefyd yn meddwl ei fod yn gyfle defnyddiol i fyfyrion ar beth allai fod ei angen ar y plentyn a'u teuluoedd yn y dyfodol.

"Gallwch ddarllen amdano, ond mae ei weld o'ch blaen mewn diagram, rydych chi'n meddwl does ryfedd mai dyna sut mae'r bachgen druan achos roedd naill ai'n cael eu symud neu roedd ansefydlog yn ei fywyd drwy'r amser dwi'n meddwl, yn ystod pum mlynedd cyntaf ei fywyd, roedd cymaint o bethau'n digwydd. Ond roedd gallu ei weld fel hyn a'i roi mewn persbectif a'r holl liwiau, felly roedd yn eitha gweledol. Ac rydyn ni wedi sôn y bydden ni wrth ein bodd yn gwneud hynny gyda llawer o'r plant eraill yn yr ysgol"
Gweithiwr Addysg Proffesiynol

"Does dim amheuaeth y gwnaeth hyn wella fy ngwaith gyda theuluoedd o ran beth a gollwyd o ganlyniad i symud ysgol a chael gwell dealltwriaeth o'r bobl rydych chi'n ei nabod. Weithiau rydych chi'n tybio bod trawma yn un digwyddiad o bwys, ac roedden ni'n gwybod bod marwolaeth ei dad wedi bod yn ddigwyddiad o bwys, ond mae gweithio gyda

rhywun sy'n mynd trwy'r holl bethau hyn na fyddwn o reidrwydd wedi'i disgrifio fel profiadau trawmatig i blentyn, a gweld y byddai rhywbeth wedi bod yn golled arall ar yr adeg benodol honno. Felly, roeddwn yn gallu sylwi ar bethau nad oeddwn yn ymwybodol ohonyn nhw cyn hynny. Rydw i'n nodi'r pethau hyn o hyd yn rhan o fy ymarfer. Felly, fe wnaeth wella fy ymarfer yn bendant ac mae'n rhywbeth rydw i'n ymwybodol ohono nawr wrth weithio gyda theuluoedd."

Gweithiwr Cymdeithasol Statudol

Fel y dangoswyd uchod, dywedodd y gweithwyr proffesiynol hyn bod y cyfarfod ffurfio achos wedi gwella eu dealltwriaeth o drawma i'r fath raddau fel ei fod wedi llywio eu hymarfer cyffredinol gyda phlant.

Cynnwys rhieni a gofalwyr

Soniodd rhai o'r gofalwyr a'r rhieni hefyd am sut oedd bod yn rhan o'r broses ffurfio achos yn brofiad positif. Nid oedd yn glir o'u sylwadau a oeddwn nhw wedi bod yn rhan o'r cyfarfod ei hun, neu a edrychwyd ar y llinell amser gyda nhw ar wahân i'r cyfarfod, os o gwbl. (Gan ddibynnu ar amgylchiadau'r plentyn, nid oedd yr holl rieni a gofalwyr yn rhan o'r broses ar y dechrau. Felly, gallai amwysedd yr atgofion hyn naill ai ddeillio o'r ffaith nad oedd y rhan hon o'r broses mor bwysig iddyn nhw, ni aethon nhw i'r cyfarfod ffurfio achos, neu ni chynhaliwyd y gwaith hwn gyda nhw.) O ran y gofalwyr hynny a aeth i'r cyfarfodydd hyn, roedd eu brwdfrydedd dros y broses yn arbennig o amlwg, a dywedon nhw y dylai'r broses fod yn rhan o ymarfer safonol ar gyfer plant o dan ofal. Dywedodd un rhiant a'i blentyn pa mor bwysig oedd y llinell amser wedi bod iddyn nhw hefyd. Roeddwn nhw wedi edrych ar y llinell amser gyda'r ymarferydd, ac nid yn y cyfarfod ffurfio achos. Wrth sôn am beth oeddwn nhw'n ei hoffi am y prosiect, aeth un plentyn wyth oed i nôl y llinell amser i ddangos i'r ymchwilydd, gan egluro eu bod yn hoffi hwn am eu bod yn gallu pwyntio at y pethau yr oeddwn nhw eisiau siarad yn eu cylch gyda'r ymarferydd. Cododd un teulu bwynt pwysig ynghylch a oedd modd cynnwys aelodau estynedig o'r teulu wrth ffurfio achos:

"Er mor anodd yw'r amgylchiadau hyn oherwydd y logisteg a'r pellter o dan sylw, dwi'n meddwl bod

hwn yn rhywbeth y gallai prosiect Gwella ystyried ei gynnig i deuluoedd estynedig, os oes neiniau a theidiau, modrybedd, ewythrod sy'n delio gyda'r plant, ac a oes modd eu cynnwys yn y ddealltwriaeth. Gyda [gweithiwr cymdeithasol arall] oedd un o'r pethau wnaethon ni, nid gyda [ymarferydd]. Mae'n cael ei alw'n gylch dealltwriaeth ac mae o gryn ddefnydd er mwyn gwybod beth sy'n digwydd yn y craidd lle mae [plentyn] a pham mae'n gwneud y pethau hyn. Mae [ymarferydd] yn gwybod am hynny, ond ni wnaeth hi gysylltu â ni am hynny."

Tad

Fe sonion nhw am bwysigrwydd y perthnasoedd hyn ac y byddai'n eu helpu i ddechrau dull magu plant sy'n ymwybodol o faterion trawma a rhoi negeseuon cyson i'w plant. Er mai un yn unig o'r rhai a gymerodd ran yn y gwerthusiad a awgrymodd hyn, mae'n codi pwynt pwysig am bwy sy'n cael eu cydnabod yn rhan o'r rhwydwaith sy'n ymwybodol o faterion trawma o gwmpas y plentyn, a'r tueddiad o fewn ymarfer gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar systemau a pherthnasoedd proffesiynol. Byddai ystyried cynnwys teulu estynedig a pherthnasoedd pwysig eraill yn adlewyrchu ethos perthynol y dull. Mae profiadau o Gwella yn cyd-fynd yn gyffredinol ag ymarfer da ar draws sawl asiantaeth yn fwy eang. Mae ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o sefyllfaoedd teuluol drwy rannu gwybodaeth a safbwyntiau.

5.5. Y dull ar waith – cynnwys plant, rhieni a gofalwyr

Gwella'r berthynas rhwng y plant a'u prif ofalwyr oedd yr ail o ddau ddeiliant cyffredinol y prosiect. Yn ymarferol, rhagwelwyd y byddai ymarferwyr Gwella yn cyflawni hyn drwy weithio gyda'r plentyn a'u rhieni/gofalwyr drwy weithgareddau chwarae sy'n seiliedig ar berthynas, a thrwy'r gwaith o helpu'r gofalwr i ddeall effaith trawma ar ymddygiad y plentyn. Fel y nodwyd yn flaenorol, TRM, model PACE a Therapi Chwarae yw'r egwyddorion arweiniol y tu ôl i'r dull.

Ar gyfer 20 o'r 31 o blant, roedd y rhieni neu'r gofalwyr yn rhan o'r gwaith a baratowyd a'r gefnogaeth a roddwyd i'r plentyn, ac roedd yn cynnwys gwaith gyda'r rhieni/

gofalwyr a'r plentyn gyda'i gilydd¹⁵. Y plentyn oedd ffocws y sesiynau yn 9 o'r 31 o achosion, ac roedd y gefnogaeth yn cynnwys eu rhieni neu'r gofalwyr, ond roedd cydweithio yn rhan o'r gwaith a gynlluniwyd¹⁶. Er enghraifft, nododd yr ymarferydd Gwella eu bod wedi cefnogi'r rhieni neu'r gofalwyr drwy gwrdd â nhw un-i-un a siarad â nhw ar wahân dros y ffôn yn rheolaidd i ateb cwestiynau, rhoi'r newyddion diweddaraf a thrafod cynnydd a phryderon. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cefnogi'r rhieni ac eirioli ar eu rhan mewn cyfarfodydd gyda gwasanaethau cymdeithasol. Ar gyfer dau o'r plant, y bwriad oedd cynnal y gwaith a'r ymweliadau gyda nhw yn unig, ac roedd y rhyngweithio â'r teulu a'r gofalwyr yn canolbwyntio ar drefnu cyfarfodydd a rhoi'r newyddion diweddaraf.

5.5.1 Natur beilot yr ymyriad

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, roedd Gwella ynddo'i hun yn ddull unigryw a pheilot oedd y prosiect i'w gyflwyno. Felly, nid oedd unrhyw ganllawiau cyfarwyddol ar gyfer yr ymyriad. Cyfeiriwyd at hyn yn y cyfweiliadau, ac fe siaradodd bron bob ymarferydd am sut y gwnaeth ymyriad Gwella esblygu yn ystod y ddwy flynedd.

Ym mlwyddyn gyntaf y peilot, roedd ymarferwyr yn llawer mwy tebygol o gadw'n gaeth at ddull PACE, TRM neu egwyddorion Therapi Chwarae yn eu gwaith, ond nid y tri ohonyn nhw bob amser. Ym mlwyddyn un, fel y nodwyd eisoes, dywedodd rhai ymarferwyr bod ganddyn nhw ddiffyg hyder yn eu gwaith, gan nodi nad oedden nhw'n gwbl gymwys i ddefnyddio'r dulliau hyn, neu fel arbenigwyr trawma. Pwysleision nhw hefyd bod angen mewnbwn seicolegol neu arbenigol i arwain eu cynlluniau gwaith, gan fynegi pryderon am ddiffyg mewnbwn o'r fath. Mynegon nhw bryder hefyd am arweiniad oedd yn gwrthdaro yn y gefnogaeth seicolegol gawson nhw (gweler adran 4.5). Roedden nhw hefyd yn fwy tebygol o fyfrio ar yr angen i ddilysu eu gwaith, a mynegon nhw bryderon ynghylch beth oedd gweithwyr proffesiynol allanol a gofalwyr yn ei feddwl o'u harbenigedd, eu gwaith a'u heffaith.

Soniodd rhai o dîm Gwella am bwyslais seicolegol y prosiect o ran egwyddorion y dull, sut oedd yr ymyriad yn cael ei asesu, a'r elfen o ffurfio achos. Dywedon nhw sut roedd hyn yn heriol o ran pennu sut byddai'r ymyriad yn edrych yn ymarferol, yn enwedig o ystyried mai gweithwyr gofal cymdeithasol fyddai'n ei gyflwyno mewn cyd-destun cymdeithasol.

"roedd pwyslais ar ofal cymdeithasol yn y prosiect. O wybod hynny, dwi'n meddwl bod hynny'n creu rhyw fath o bwyslais seicolegol hefyd. Felly, dwi'n meddwl bod llawer o'r syniadau ynghylch y meysydd hyn a'r theori yn seicolegol yn hytrach na seiliedig ar ofal cymdeithasol. A dwi'n meddwl bod angen ystyried hyn yng nghyd-destun y prosiect gan fod y ddwy elfen yn dra gwahanol a'r brif her yw dod â nhw ynghyd. Ac... os bydd pobl yn ystyried un o'r elfennau hyn ac nid y llall, gall hynny effeithio ar sut ydych yn meddwl am bethau... dwi'n meddwl bod angen rhoi'r pwyslais cywir ar elfen seicolegol y dull. Ac nid ydyn ni wedi cael mewnbwn seicolegol cyson.

Ymarferydd Gwella

I rai, nid oedd rhoi gormod o bwyslais ar yr elfennau seicolegol wedi helpu yn y pen draw wrth ddisgrifio beth yw'r ymyriad a sut byddai'n gweithio'n ymarferol. Galla'r pwyslais hwn hefyd danseilio arbenigedd yr ymarferwyr os oedd y gweithwyr proffesiynol allanol yn tybio mai ymyriad (seicolegol/cwnsela) a arweinir gan drawma oedd hwn. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn gwnselwyr cymwys nac yn arbenigwyr therapiwtig, a gallai hyn fod i'w gyfrif yn rhannol am rywfaint o'r diffyg hyder a fynegodd yr ymarferwyr.

Bu newid amlwg ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf ac yn yr ail flwyddyn pan ddywedodd yr ymarferwyr eu bod yn cyflwyno'r ymyriad mewn modd mwy hyblyg. Anghenraid oedd y tu ôl i rai o'r newidiadau hyn; e.e. o ganlyniad i'r anawsterau trefniadol a drafodwyd yn flaenorol, fel yr oedi wrth ffurfio achosion, diffyg mewnbwn seicolegol yn y cynlluniau gwaith, ac anawsterau cael mynediad at hyfforddiant, bu'n rhaid i ymarferwyr

¹⁵ Yn un o'r achosion, nid ymarferydd Gwella'r plentyn wnaeth y gwaith hwn. Yn hytrach, y brawd/chwaer oedd ag ymarferydd Gwella gwahanol wnaeth y gwaith gyda'r ddau o blant a'u gofalwyr gyda'i gilydd.

¹⁶ Roedd gan un o'r plant fu'n rhan o'r prosiect ddau ymarferydd, ac fe wnaeth y cyntaf waith gyda nhw ochr yn ochr â'u gofalwr, ond ni wnaeth yr ail ymarferydd hynny.

feithrin perthnasoedd a chynllunio gwaith gyda phlant a theuluoedd heb gynnwys yr elfennau hyn. Ar yr un pryd, nid oedd y cynllun gwaith yn addas ar gyfer yr ymyriad mwyach; e.e. roedd gofawyr yn amharod i ddefnyddio Therapi Chwarae gyda'r ymarferwyr, neu roedd y cyddestun wedi newid i rai o'r plant, fel symud i ofalwyr newydd neu eu rhieni, ac roedd eu prif berthnasoedd a/ neu eu hymddygiad a'u hanghenion wedi newid. Roedd gorfod addasu yn golygu bod natur hyblyg yr ymyriad yn gryfder, ac wrth i ymarferwyr ddod yn fwy profiadol, nid oedden nhw'n cadw mor gaeth at y dulliau PACE, TRM neu Therapi Chwarae fel dulliau penodol. Myfyriodd yr ymarferwyr ar hynny, ac mae'r dyfyniadau estynedig isod yn rhoi trosolwg da o sut gwnaeth y dull esblygu.

"Dwi'n meddwl bod yr hyn oedd yn peri trafferth i ni ar y dechrau yn deillio o beidio gwybod beth oedden ni'n ei wneud am ei fod yn beilot. Erbyn hyn, dwi'n amlwg yn gwybod beth weithiodd yn dda, beth aeth ddim cystal, a byddwn yn llawer mwy hyderus pe byddwn yn cymryd achosion newydd mai dyma beth sydd angen ei wybod. A dwi'n meddwl bod angen yr hyder i fod ychydig yn fwy hyblyg oherwydd roedd diffyg strwythur am ei fod yn newydd. Fe wnes i greu fy strwythur fy hun a phenderfynu gwneud sesiwn ar y cyd un wythnos, un-i-un ar wythnos arall, ac wedyn i'r sesiwn ar y cyd fod yn therapi chwarae gan mai dyna'r hyfforddiant dwi wedi'i gael. Ar wythnos arall, baswn yn ceisio cyflwyno rhywbeth ystyrlon. Am fy mod wedi gweld sut mae wedi gweithio gydag un o fy mhlant tua'r diwedd, yr un gyda'r gofawr maeth, nes i sylweddoli eu bod eisoes yn chwarae dipyn gartref a bod dim angen therapi chwarae i ddweud y gwir na sesiynau ar y cyd yn benodol. I ddweud y gwir, nes i sylweddoli bod y sesiynau un-i-un wedi bod mwy o fudd iddi, felly rhoddais y gorau i'r sesiynau ar y cyd ar gyfer y deufis olaf a chanolbwyntio ar yr un-i-un. Nes i sylwi bod hynny wedi gwella ein perthynas yn sylweddol a'i ffydd ynof fi... am fy mod wedi gweithio ar y prosiect ers tro roedd gen i fwy o hyder i wneud hyn, ond ar y dechrau ro'n i'n cadw at y strwythur achos doeddwn i ddim yn gwybod beth arall i'w wneud. Ac mae'r hyfforddiant gawson ni, roedd y cyngor fel petai'n gwrthdweud ei hun hefyd. Felly, pan oedden ni'n ffurfio achosion, ac wedi meddwl am wneud therapi chwarae, ond roedd llawer o'r cyngor yn ein hannog i ganolbwyntio ar un-i-un gyda'r

plentyn ac yna un-i-un gyda'r rhiant, yn fy achosion i beth bynnag. Ac wedyn pan aethon ni lawr y llwybr therapi chwarae, roedd yn rhaid i ni gydweithio'n agos â nhw, mae hyn yn bwysig iawn. Roedden ni wedyn yn ystyried beth ddylen ni ei wneud, felly fe wnaethom y ddau. O bosib nid oedd yn hynny'n eu gweddu, nid oedd angen hynny ar bob plentyn. Erbyn hyn, dwi'n meddwl y byddai gen i fwy o hyder a phrofiad i feddwl beth fydd yn helpu'r plentyn mewn gwirionedd yn hytrach na chael cynllun cyffredinol ar gyfer pawb."

Ymarferydd Gwella

"Ar y dechrau, roedden ni i fod o greu rhyw gath o becyn i atal CSE ac ymddygiad rhywiol niweidiol, ond nid dyna beth oedd e ac nid yw'n becyn, er ei fod yn ceisio atal y pethau hynny. Mae'n fwy seiliedig ar y plant sydd wedi cael profiad o ryw fath o drawma. Yn amlwg, roedden ni'n gwybod bod y plant yn eu harddegau roedden ni wedi gweithio gyda nhw ar gyfer CSE ac SHB wedi cael y trawma hwnnw. Ond gyda llawer o'r plant, gallech chi ddefnyddio Gwella gydag unrhyw blentyn oedd â chysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol i ddweud y gwir neu wedi profi [trawma]... ond mae'n llawer mwy llac na hynny [y pecyn] ac mae'n fwy o ddull cyffredinol. Mae hyn yn wych am ei fod yn hynod hyblyg... dwi'n meddwl oherwydd natur y plant sydd wedi cael profiad o drawma bod angen iddo fod yn hyblyg, ac nid ydyn nhw'n ffitio mewn blychau taclus, felly mae angen i chi fod yn gyfforddus gyda hynny."

Ymarferydd Gwella

Mae'r hyblygrwydd hwn gyda'r dulliau a'r technegau a ddefnyddiwyd yn cael ei ystyried yn un o brif gryfderau'r ymyriad. Roedd yr hyblygrwydd hwn yn gwneud yn iawn am y gwrthdaro posibl rhwng y dulliau a restrwyd yn null Gwella ac amlygwyd y rhain gan ymarferwyr ar draws blynyddoedd un a dau. Mynegwyd bod angen eglurder ym mlwyddyn un, a chyfeiriwyd at sut oedd peidio â chadw at y dulliau hyn ym mlwyddyn dau fel cyfiawnhad o gryfder y dull. Er enghraifft, mae Therapi Chwarae yn ddull cyfarwyddiadol ac mae'n ymwneud yn benodol â rhyngweithio rhwng y gofawr a'r plentyn, gyda'r ymarferydd yn arsylwi. Nid oedd hyn bob amser yn ddefnyddiol i rai ymarferwyr gan eu bod yn teimlo ei fod yn mynd yn groes i ddull ymarfer a arweinir gan y plentyn, ac nid oedd yn cyd-fynd â rhai o'r argymhellion drwy TRM.

5.5.2 Natur hyblyg yr ymyriad a arweinir gan anghenion

Un o elfennau unigryw'r dull a ddaeth i'r amlwg yn y cyfweiliadau ar draws pob grŵp a gymerodd rhan oedd y pwyslais canolog ar deall anghenion rhieni, plant a gofawyr a chael eu hanfon ganddyn nhw. Roedd hefyd yn ddigon hyblyg i allu defnyddio ystod o dechnegau a dulliau er mwyn gallu ymateb i natur amrywiol y pryderon sy'n ymwneud â thelueoedd penodol.

Erbyn diwedd blwyddyn un, fe soniodd yr ymarferwyr bod peidio â gorfod cael eu harwain gan dasgau neu ddilyn llawlyfr strwythuredig yn rhywbeth positif. Fe bwysleisio nhw'r pwysigrwydd o allu gweithio'n hyblyg gyda phawb oedd yn rhan o'r achos; golygodd hynny eu bod yn gallu ymateb i bryderon o fewn achosion ochr yn ochr â phennu amcanion tymor hirach.

"un o'r pethau da amdano yw bod rhwydd hynt ganddon ni i edrych ar beth ydyn ni'n ei drafod gyda'r teuluoedd, a pha fath o bethau rydyn ni'n eu gwneud. Does ganddon ni ddim cynllun gwaith caeth, dim ond rhyw fath o gynllun gwaith a ysgrifennir ymlaen llaw o beth i'w wneud yn Wythnos 1, Wythnos 2, Wythnos 3. Gallwn feddwl dyma beth sydd ei angen ar y plentyn, dyma beth sydd ei angen ar y rhieni a'r gofawyr, gallwn addasu a bod yn hyblyg... y plentyn a'r teulu sy'n ei arwain, ac nid peth gwael yw peidio â chael eich arwain gan DDP, PACE a Therapi Chwarae.

Ymarferydd Gwella

Roedd gweithwyr gofal cymdeithasol allanol hefyd yn meddwl bod hwn yn un o gryfderau'r ymyriad gan mai anghenion sy'n ei arwain, mae'n seiliedig ar gryfderau, ac nid yw'n rhoi cyngor cyffredinol ar fagu plant nac yn gosod cynllun gwaith ar y teulu.

"Fel y soniais, fe gyfrannodd at y cynllun adfer cyffredinol ac rwy'n teimlo mai eu gwaith nhw oedd hyn gan eu bod wedi cyfrannu at ei lwyddiant. Roedd yn eu cynnwys ac yn cysylltu â phob oedolyn o gwmpas y person ifanc. Roedd hefyd yn addasu i anghenion unigol y plentyn ac yn greadigol iawn yn y modd roedden nhw'n gwneud y gwaith. Roedd yn rhoi pwyslais clir ar y plentyn."

Gweithiwr cymdeithasol

Roedd hyblygrwydd y gwaith, yn ogystal â'r ymarferydd a'i ddull gweithio, yn rhywbeth y gwnaeth rhieni yn benodol sylw arno o ran teimlo bod rhywun yn gwrandao arnyn nhw ac yn eu deall. Roedd hyn gan fod yr ymyriad yn ymateb i'r prif faterion oedd yn bwysig iddyn nhw. Roedden nhw'n teimlo bod y dull yn gweithio am eu bod yn gallu gweld newid lle'r oedd angen gweld newid.

"mae hi'n amlwg yn rhywun sy'n gwella gweithio gyda phobl mewn sefyllfaoedd anodd ac mae ei chefnidir yn golygu ei bod wedi delio â phob math o wahanol bobl, dwi'n siŵr. Ond roedd hi'n gallu gwneud i chi ymlacio a theimlo nad oeddech yn cael eich beirniadu. Roedd hi yno i helpu, heb os nac oni bai. Roedd hi'n amlwg yno i helpu ac am roi'r cyngor a'r cymorth oedd eu hangen arnon ni."

Mam

Fel y dangoswyd uchod, er na wnaeth y rhieni ddweud yn benodol mai 'anghenion oedd yn arwain' yr ymyriad, roedd eu profiadau yn sôn am sut gwnaeth yr ymyriad weithio gyda nhw i nodi beth oedd yn bwysig iddyn nhw. Fel y nodwyd yn adran 4.6, dyma pam oedd rhai o'r deilliannau a'r newidiadau trawsnewidiol a ddisgrifiwyd gan rieni, gofawyr a phlant mor benodol; oherwydd ochr yn ochr (neu'n rhan o) nod i wella lles fel deiliant ffurfiol, pan fu anawsterau e.e. gydag amseroedd mynd i'r gwely neu reoli ymddygiad cyhoeddus, neu blant oedd arnyn nhw ofn y tywyllwch, ymatebodd yr ymarferwyr i'r rhain a'u hymgorffori yn y cynllun gwaith.

Mae hyn hefyd yn helpu i egluro yn rhannol pam nad oedd rhai deilliannau mor glir neu bositif i deuluoedd. Fel y nodwyd yn flaenorol, pan oedd yr ymarferydd yn cadw'n gaeth at dechneg, a'r ymyriad yn cael ei arwain gan ddull (nid anghenion), y rhain oedd yr adegau anghyfforddus yn ôl y gofawyr neu pan oedd yr ymyriad yn anaddas. Ategwyd y safbwyntiau hyn gan fyfyrnodau'r ymarferwyr ar yr achosion cynnar a sut cawson nhw eu haddasu i wneud yn siŵr bod yr ymyriad yn defnyddio dulliau sy'n ymateb i anghenion penodol teuluoedd. Nodwyd gennym fod rhai achosion pan oedd ymarferwyr yn meddwl bod rhai dulliau penodol yn addas er mwyn diwallu'r angen a nodwyd (y cytunwyd arno), ond nid oedd modd defnyddio strategaethau o'r fath am nad oedd y gofawyr yn fodlon eu defnyddio. Yn yr achosion hyn, fe wnaeth hyblygrwydd y dull alluogi'r ymarferwyr i ailgyfeirio ffocws yr ymyriad.

Mae'r elfen hon yn yr ymyriad yn cysylltu â dau o'r prif negeseuon o'r adolygiad mapio systematig. Yn gyntaf oll, mae angen gwahaniaethu rhwng lefelau cymhwysedd ac y gallai rhai gofalwyr neu deuluoedd fod â llai neu fwy o anghenion yng nghyd-destun bod yn ymwybodol o faterion trawma. Yn ail, dylai'r pwyslais ar raglen waith drefnus i wella ar ôl trawma gydbwyso yn erbyn amgylchiadau unigol, yn enwedig gyda gofalwyr maeth a allai fod â chysylltiadau agos, rhywfaint o ddealltwriaeth o drawma eisoes, a hanes cadarnhaol o ofal gyda'r plentyn.

5.5.3 Ffocws yr ymyriad: dull perthynol sy'n ystyried materion trawma ac yn seiliedig ar chwarae o weithio gyda phlant a theuluoedd.

O ystyried natur hyblyg y dull a drafodwyd uchod a sut caiff ei arwain gan anghenion, roedd ymarfer yr ymarferwyr yn amrywio o ran sut rhoddwyd yr ymyriad ar waith gyda phlant, rhieni a'r gofalwyr a'r gweithgareddau a'r dulliau a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag, o'r data roedd yn bosibl dod i'r casgliad bod tair prif elfen yn llywio sut y cyflwynwyd yr ymyriad ym mhob achos:

- ➔ Yn gyntaf, roedd yr ymyriad yn 'ymwybodol o faterion trawma'. Yn ymarferol roedd hynny'n golygu bod cydnabyddiaeth o'r trawma penodol y mae plentyn wedi bod drwyddo, a'r anghenion emosiynol neu les a allai fod yn bresennol neu fod wedi'u gwaethygu o ganlyniad i'r trawma, yn ogystal â sut gallai trawma o'r fath effeithio ar ymddygiad y plentyn. Yn hyn o beth, ni wnaeth yr ymyriad ganolbwyntio ar y trawma ei hun, ac roedd yn fodd o ddeall y gallai fod ystod o resymau y tu ôl i'r anghenion a'r ymddygiadau hyn, oherwydd:
- ➔ Yn ail, canolbwyntiodd yr ymyriad ar berthnasoedd yn bennaf, ac ar ddeall a gweithio i gefnogi y plentyn yng nghyd-destun eu prif berthnasoedd, gan gynnwys y rhwydwaith proffesiynol ehangach o'u cwmpas. Roedd cael yr un ymarferydd yn gweithio gyda'r plentyn, y rhieni a/neu'r gofalwyr, a'r gweithwyr allweddol pwysig yn rhan bwysig o hyn, a mabwysiadwyd dull perthynol at y gwaith gyda phlant a theuluoedd drwy:
- ➔ Yn drydydd, cyflwyno dulliau a gweithgareddau creadigol ar sail chwarae i hwyluso'r berthnasoedd hyn mewn modd cyfranogol oedd yn ystyried materion trawma.

Felly, roedd pwyslais ar berthnasoedd yn rhan ganolog o'r ymyriadau ym mhob achos, a hynny mewn un neu ragor (neu bob un) o'r ffyrdd bosibl ganlynol:

Y cysylltiad perthynol rhwng y rhiant/gofalwr a'r plentyn. Mewn nifer o achosion, roedd yr ymyriad yn cynnwys rhoi cefnogaeth i adeiladu ar y cysylltiadau rhwng rhieni/gofalwyr a'u plant. Cefnogwyd hyn yn bennaf drwy ymgysylltu'n uniongyrchol mewn chwarae a'r celfyddydau, crefftau, gemau a gweithgareddau eraill gyda'i gilydd. Roedd yn cynnwys cefnogi i feithrin cyffyrddiad, cyfathrebu, atgyfnerthu arferion magu, a gweithgareddau creadigol o amgylch dulliau ymdopi ag emosiynau anodd. Gallai'r elfen hon o'r gwaith gynnwys a dilyn egwyddorion dulliau Therapi Chwarae a PACE, ond nid bob amser. Soniodd y rhieni fu'n gysylltiedig â'r math hwn o gefnogaeth am werth dysgu ffyrdd o chwarae ac ymgysylltu â'u plant, o 'feithrin cysylltiad', ac am bwysigrwydd gweld eu plant yn mwynhau chwarae. Dywedodd dau ohonyn nhw eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i atgyfnerthu eu harferion magu plant. Dywedodd rhai o'r plant mai gwneud y gweithgareddau hyn gyda'u gofalwr/rhiant a'r ymarferydd oedd beth oedden nhw'n mwynhau ei wneud fwyaf. Nid oedd gofalwyr maeth bob amser yn gyfforddus â gwneud y gwaith hwn mewn ffordd strwythuredig.

Cefnogi'r berthynas rhwng y rhiant/gofalwr a'r plentyn. Yn hytrach na sicrhau bod yr ymyriad yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng rhieni/gofalwyr a'r plentyn, roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni a gofalwyr gyda'u 'llythrennedd emosiynol' a'u helpu i ddeall ymddygiad eu plentyn mewn modd sy'n ystyried materion trawma. Fe wnaeth hefyd eu cefnogi i fod yn chwilfrydig a gwneud synnwyr o'r problemau posibl ac anghenion y plentyn, er mwyn dyfeisio strategaethau i oresgyn rhai o'r heriau ymddygiadol penodol a mynd i'r afael â'u hanghenion lles. Gall y rhan hon o'r ymyriad gynnwys elfennau o PACE, yn enwedig drwy helpu rhieni/gofalwyr i fyfyrion ar eu profiadau magu plant eu hunain a dysgu patrymau rheoli ymddygiad. Ymatebodd rhieni a gofalwyr yn gadarnhaol i'r elfen hon o'r ymyriad, a dywedon nhw iddi fod fel 'y ffon hud' a beth oedd wedi newid bywyd teuluol ac ymddygiad eu plant er gwell.

Cefnogi'r berthynas rhwng y rhiant/gofalwr a'r plentyn. Yn hytrach na sicrhau bod yr ymyriad yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng rhieni/gofalwyr a'r

plentyn, roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni a gofawyr gyda'u 'llythrennedd emosiynol' a'u helpu i ddeall ymddygiad eu plentyn mewn modd sy'n ystyried materion trawma. Fe wnaeth hefyd eu cefnogi i fod yn chwilfrydig a gwneud synnwyr o'r problemau posibl ac anghenion y plentyn, er mwyn dyfeisio strategaethau i oresgyn rhai o'r heriau ymddygiadol penodol a mynd i'r afael â'u hanghenion lles. Gall y rhan hon o'r ymyriad gynnwys elfennau o PACE, yn enwedig drwy helpu rhieni/gofawyr i fyfrio ar eu profiadau magu plant eu hunain a dysgu patrymau rheoli ymddygiad. Ymatebodd rhieni a gofawyr yn gadarnhaol i'r elfen hon o'r ymyriad, a dywedon nhw iddi fod fel 'y ffon hud' a beth oedd wedi newid bywyd teuluol ac ymddygiad eu plant er gwell.

Meithrin perthynas a chysylltiad gyda phlant.

Roedd hyn yn cynnwys gwaith un-i-un rhwng yr ymarferydd a'r plentyn, a chanolbwyntiodd yn bennaf ar feithrin a modelu perthynas gadarnhaol a llawn ymddiriedaeth gydag oedolyn. Rhan allweddol o'r gefnogaeth hon oedd natur y rhyngweithio oedd yn seiliedig ar chwarae a gweithgareddau. Gallai hyn gynnwys nifer o'r canlynol: gwneud llysnafedd, coginio, tynnu llun, lego, jenga, drymio, chwarae rôl, ymweld â lleoedd, siarad mewn caffis, mynd i'r parc, defnyddio drama a mathau eraill o ddysgu a ymgorfforir. Soniodd ymarferwyr am ddefnyddio gweithgareddau sy'n seiliedig ar fuddiannau'r plant unigol y buon nhw'n gyda nhw. Yn y sesiynau un-i-un hyn, roedd y pwyslais ar feithrin ymddiriedaeth ac ymdeimlad o ddiogelwch i'r plentyn. Gallai hefyd gynnwys trafod emosiynau, teimladau a safbwyntiau ynglŷn â pherthnasoedd eraill, a allai fod gyda rhieni, gofawyr, brodyr a chwiorydd neu gyfeillgarwch gyda phlant eraill. Gallai'r rhan hon o'r ymyriad ymgorffori elfennau o TRM a'i bwyslais ar sefydlu diogelwch perthynol a sylfaen gadarn. Byddai hyn yn cael ei wneud cyn rhoi cynllun cefnogi ar waith er mwyn datblygu deilliannau mwy therapiwtig. Fe wnaeth bron yr holl blant ddefnyddio'r gair 'hwyl' wrth ddisgrifio eu gweithiwr, a defnyddiodd lawer y geiriau 'diogel' a 'theimlo'n gyfforddus'. Cafodd rhai plant drafferth gydag elfennau o'r prosiect (a drafodwyd yn adran 4.8), ond dywedodd pob un eu bod wedi mwynhau chwarae a gwneud gweithgareddau gyda'u hymarferydd Gwella. Dywedodd sawl un bod eu gweithwyr wedi eu 'helpu i deimlo'n well' a theimlo'n hapus, ac nid oedden nhw'n poeni am bethau penodol mwyach. Mynegodd rhai o'r plant eu bod yn gwerthfawrogi nad oedd eu gweithiwr

yn eu gorfodi i siarad am bethau nad oedden nhw'n hoffi siarad yn eu cylch, neu wneud gweithgareddau nad ydyn nhw'n eu mwynhau.

"Dyma gyngor i blant eraill pan mae hi'n eu gweld nhw, peidiwch â phoeni, bydd hi'n eich helpu ac yn gwneud i chi feddwl, gwneud i chi roi'r gorau i feddwl am bethau gwael, gwneud i chi feddwl am bethau hapus. Fel, beth yw eich hoff beth a phopeth"
Plentyn, 9 oed

Ategir yr elfen hon o'r ymyriad gan neges bwysig yn yr adolygiad cwmpasu, ynglŷn â phwysigrwydd cydnabod manteision amrywiol ac unigol, a defnyddio dull anghyfarwyddol wrth roi dulliau'r ymyriad ar waith.

Ategwyd y pwyslais hwn ar blant, rhieni a gofawyr yn yr ymyriad gan ail ddeilliant y prosiect a dwy egwyddor yr ymyriad, a nodir yn adran 2.2. Nod y rhain oedd cefnogi perthnasoedd y plant yn rhwydwaith ehangach y gweithwyr proffesiynol o'u cwmpas. Er bod dull Gwella yn un seicolegol o ran sut mae wedi'i drefnu, mae'r pwyslais hwn ar berthynas a'r cyd-destun perthynol o gwmpas y plentyn yn awgrymu mai ymyriad (perthynol) cymdeithasol yw hwn yn bennaf yn ymarferol.

5.5.4 Gwahaniaethau rhwng prosiect Gwella a mathau eraill o gefnogaeth

Mae'r data gan y rhieni yn dynodi bod rhywbeth unigryw am ymyriad Gwella oedd yn golygu bod ymarferwyr mewn sefyllfa i gyflawni deilliannau gwell ar gyfer plant a theuluoedd. Er bod rhai o'r farn bod hynny oherwydd pwyslais yr ymyriad ar eu cefnogi mewn cysylltiad â'r hyn oedd yn bwysig iddyn nhw, fe wnaethon nhw hefyd gymharu ymarferwyr Gwella â gweithwyr cymdeithasol gan nodi'r gwahaniaeth mewn modd positif. Yn rhannol, mynegwyd hyn drwy gyfeirio at hyblygrwydd ymatebol yr ymarferwyr tuag at drefniadau'r ymyriad (h.y. trefnu ymweliadau, ymateb i alwadau a negeseuon testun, hyblygrwydd ynghylch ble i gwrdd ac am ba hyd, ac o ran aildrefnu pan oedd angen). Fodd bynnag, awgryma'r data bod y gwahaniaeth hwn yn deillio'n rhannol o'r ffaith nad oes rhaid i ymarferwyr gydbwysu'r cyfrifoldeb deddfwriaethol a'r dyletswydd gofal sydd ar ysgwyddau gweithwyr cymdeithasol ochr yn ochr ag elfennau mwy cefnogol eu rôl.

Fe wnaeth rhieni sôn am ddeall rôl bwysig gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau diogelwch plant. Fodd bynnag, os oedden nhw'n teimlo bod y ffocws ar y risgiau sy'n gysylltiedig â nhw fel rhieni, mae hyn wedi golygu edrych ar eu profiadau o fagu plant a'r hyder sydd ganddyn nhw i wneud hynny, gan arwain at ddiffyg ymddiriedaeth a phryderon ynghylch mynegi pryderon a gofyn am gymorth. Mae hyn i'w weld yn y dyfyniadau canlynol:

Mam: *Pan mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dod yma, dydyn nhw ddim yn eu gweld ni gyda'n gilydd. Maen nhw'n amlwg yn mynd â fi i ystafell ar wahân i siarad am bethau, ac yna maen nhw'n mynd â'r plant i ystafell ar wahân i siarad am bethau er mwyn cael gwybod nad ydyn ni'n cuddio unrhyw beth na dim byd felly. Ond gyda [ymarferydd] yn y prosiect yma, rydyn ni a [plentyn] yn eistedd gyda'n gilydd ac mae [ymarferydd] yn gallu gweld sut rydyn ni'n cyd-dynnu a phethau felly. Dydyn ni ddim yn cael ein gwahanu tra bod gweithwyr cymdeithasol yn mynd â'r plant i fyny grisiau ac wedyn fi yn y gegin. Mae popeth yn teimlo ar wahân. Dydyn nhw ddim yn eistedd yma gyda'r plant a thrafod pethau, chi'n gwybod? Achos dwi'n agored iawn gyda nhw... ond maen nhw'n gwneud pethau ar wahân, a dwi'n gwybod sut mae'r plant yn teimlo am hyn, a dydy'r plant ddim yn hoffi hynny.*

Ymchwilydd: *Dwi'n gweld. Ydyn nhw'n dweud pam maen nhw'n gweld hynny'n anodd pan mae'r gweithiwr cymdeithasol yn dod?*

Mam: *Ie, maen nhw'n teimlo fel eu bod yn ceisio eu dal nhw neu fi yn dweud y peth anghywir.*

Ymchwilydd: *Ie, achos roeddech chi'n dweud eich bod yn gallu siarad gyda rhyddid gyda [ymarferydd]?*

Mam: *Mae oherwydd dydw i ddim am dweud y peth anghywir a gwneud iddyn nhw feddwl nad ydw i'n cefnogi'r cynllun neu beth bynnag... Felly, dwi'n teimlo y gall rhai pethau rydych chi'n eu dweud gael eu camddehongli achos maen nhw'n mynd i'w*

hystyried mewn ffordd wahanol gan fod gwaith ganddyn nhw i'w wneud wrth gwrs. Dydw i ddim am fod yn negyddol tuag atyn nhw, achos mae'n wych bod yr holl blant yn dod yn ôl, ond chi'n gwybod.

"Y peth yw gyda gwasanaethau cymdeithasol, rydych chi'n gwybod eu bod yn edrych ar ddiogelwch y plentyn a phethau felly, ac ni fyddai emosiwn yn dod iddi. Os oedd problem, bydden nhw'n mynd â'r plant i ffwrdd at rywun arall sy'n gallu delio gyda hynny"
Tad

Efallai bod yr ymddiriedolaeth a roddir yn ymarferwyr Gwella yn deillio'n rhannol o'r ffaith ei fod yn wasanaeth gwirfoddol. Nid oes rhaid i rieni gymryd rhan ac nid oes amodau'n gysylltiedig na goblygiadau os nad ydyn nhw'n gwneud hynny. Yn ôl pob tebyg, mae gan hyn ryw rôl wrth bennu natur y gefnogaeth a'r deilliannau positif. Er enghraifft, dywedodd rhai rhieni eu bod yn gallu gofyn am gefnogaeth a chynghor, gwneud yn siŵr eu bod yn rhyngweithio'n dda gyda'u plentyn ac yn gwneud yn iawn o ran eu sgiliau magu plant. Roedd hyn yn rhywbeth nad oedden nhw'n credu y gallen nhw ei wneud gyda gweithwyr cymdeithasol statudol rhag ofn y byddai'n cael ei nodi i ddangos nad ydyn nhw'n gallu magu plant nac ymdopi. Fe wnaeth hyn helpu i hwyluso perthynas llawn ymddiriedaeth rhwng yr ymarferydd a'r rhiant, lle gallai'r rhieni ofyn am gefnogaeth a chael cynghor.

Soniodd y rhieni a'r gofalmwyr hefyd am y berthynas wahanol yr oedd yr ymarferydd Gwella'n gallu ei meithrin gyda'u plentyn o gymharu â'r un gyda gweithwyr cymdeithasol. Er mai diffyg amser a llwythi gwaith prysur gweithwyr cymdeithasol oedd y prif resymau a nodwyd dros hynny, gan olygu nad oedden nhw'n gallu ymgysylltu â phlant mewn modd cyson neu actif, mae hefyd yn awgrymu mai'r ymgysylltiad hyblyg, cyson ac anghyfarwyddol oedd yn nodweddu'r berthynas rhwng yr ymarferydd a'r plentyn oedd yn cael ei ystyried y gwahaniaeth rhwng cefnogaeth Gwella a'r gwasanaethau cymdeithasol. Nodir hyn isod:

"Dydyn ni ddim yn gweld [gweithiwr cymdeithasol] yn aml, dydyn ni ddim yn gwneud unrhyw waith fel yna gyda [gweithiwr cymdeithasol]. Mae'n dod yma,

gweld sut mae'r plant, mae hi yma am tua pum, deg munud. Chi'n gwybod, sut mae e, ydy e'n ok, dyna'i gyd, unrhyw broblemau? Dim problemau. Ac yna bydd hi wedi mynd, felly dyna'r cyfan gyda [gweithiwr cymdeithasol]. Weithiau byddai hi'n mynd ag e allan am frechwast a chael sgwrs yno, ond dyw e ddim yn hoff iawn o siarad â phobl felly dyw e ddim yn siaradus, mae'n cadw popeth iddo'i hun. Ond roedd e'n eitha siaradus gyda [yr ymarferydd], yn siarad am gerddoriaeth, ble oedd e wedi bod."

Gofalwr sy'n perthyn

Yn ddiddorol, dywedodd tri o'r teuluoedd bod gwahaniaeth clir rhwng y gemau a'r crefftau yr oedd y gweithwyr cymdeithasol wedi ceisio eu cynnal gyda'r plentyn yn flaenorol, a'r rhai a gynhaliwyd gyda'r ymarferydd. Roedden nhw'n teimlo bod y gweithgareddau oedd yn rhan o gefnogaeth yr ymarferydd Gwella yn galluogi eu plant i fynegi a rhannu eu hemosiynau mewn ffyrdd nad oedd dulliau'r gweithwyr cymdeithasol yn eu galluogi – fel y mynegir isod:

"Dwi'n teimlo, roeddwn nhw'n dda hefyd mewn ffordd gan mai eu ffordd nhw [y gweithwyr cymdeithasol] o wneud pethau yw gyda lluniau. Mae'r lluniau, y pryderon, pwy sydd yn y cartref hapus, pwy nad oeddech ei eisiau yn y cartref. Ond mae [y plentyn] wedi gwneud hynny gynifer o weithiau, roedd angen y math yma o gefnogaeth ar [y plentyn] am ei bod yn teimlo dwi eisoes wedi dweud hynny, pam mae angen i mi wneud yr un peth. Ond roedd y math yma o waith yn hollol wahanol, roedd amdani hi'n mynegi ei hun gyda'i phryderon a beth bynnag arall."

Mam

Dyma farn pedwar o rieni a gofalwyr eraill hefyd wrth sôn am gefnogaeth therapiwtig flaenorol roedd eu plant wedi'i chael. Dywedodd dau ohonyn nhw nad oedd eu plant wedi bod yn edrych ymlaen at y gefnogaeth hon, a dywedodd y pedwar ohonyn nhw mai ychydig iawn o newid a fu mewn ymddygiad (fel gwlychu'r gwely, hunllfau, diffyg hyder ac ymddygiad aflonyddgar

ymosodol). Felly, roedd 'llwyddiant' ymyriad Gwella yn cael ei ddeall hefyd mewn cysylltiad â'r newid mewn ymddygiad o'r fath. Mae hyn yn amlygu unigrwydd yr ymyriad gan olygu ei fod yn wahanol i gwnsela plant a therapi neu waith cymdeithasol 'uniongyrchol'.

Yn y pen draw, roedd bron yr holl deuluoedd a gymerodd ran, gan gynnwys rhieni a gofalwyr sy'n perthyn, yn cytuno bod yr ymyriad yn wahanol i wasanaethau eraill, am ei fod yn 'gweithio'. Fel sy'n cael ei drafod yn yr adran nesaf am ddeilliannau, gwelodd y rhieni a pherthnasau sy'n gofalu newidiadau o bwys ym mywyd teuluoedd, eu dealltwriaeth eu hunain o ymddygiad eu plant a strategaethau i'w cefnogi, yn ogystal â lles eu plant. Roedd teuluoedd yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnyn nhw, a gwelon nhw newid lle'r oedd angen gweld newid. Disgrifiwyd llawer o'r newidiadau a'r effeithiau fel rhai oedd ar gyfer y teulu a'r plentyn yn benodol, gan awgrymu mai natur hyblyg ac ymatebol y dull wnaeth hwyluso hyn.

5.6 Deilliannau

5.6.1 Deilliannau a gofnodwyd

Cofnododd ymarferwyr Gwella gynnydd yn erbyn y pum deilliant canlynol ar gyfer yr holl blentyn:

1. Mynediad at wasanaethau cefnogi;
2. Mwy o wydnwch;
3. Gwella iechyd meddwl a lles;
4. Cartref/amgylchedd gwasanaeth diogel;
5. Lleihau effaith trawma.

Rhestrir pob deilliant ar raddfa bum pwynt, gydag un y sgôr orau, a phump y 'gwaethaf'. Cofnodwyd y deilliannau fel man cychwyn ar ddechrau'r gwaith gyda phlant. Cawson nhw eu diweddarau bob tua tri mis wedi hynny a chofnodwyd y deilliannau terfynol tua'r adeg y daeth yr achos i ben.

Mae'r deilliannau a gofnodwyd yn rhai positif ar y cyfan¹⁷. Ym mhob un ond dau achos (N= 29), cofnodwyd

¹⁷ Nodwyd gennym fod achosion ym mlwyddyn un gydag un ymarferydd a gofnododd ddeilliannau positif, ond ni chafodd hyn ei adlewyrchu yn y cyfweiliad gyda'r rhiant/gofalwr a siaradodd am brofiadau negyddol a/neu ddiffyg deilliannau positif. Mae'r graddau y mae hyn yn adlewyrchu gwahanol safbwyntiau a rhywfaint o newid positif, yn bwnc i'w ddadansoddi ymhellach.

rhywfaint o welliant ar draws rhai deilliannau o leiaf. Ni chofnodwyd newid yn un o'r achosion oedd yn weddill. Fodd bynnag, daeth yr achos hwn i ben yn gynnar pan roddodd y rhant y gorau i gymryd rhan, felly nid yw'n cynrychioli blwyddyn lawn o ymyriad. Cofnodwyd gwaethgiad yn gyffredinol mewn un achos. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu'r data naratif a gofnodwyd ar gyfer yr achos nac yn y cyfweiliad. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a oedd y ffaith fod y system gofnodi yn defnyddio sgoriau uwch ar gyfer deilliannau gwaeth wedi peri dryswch i'r ymarferydd wrth gofnodi. Mae rhagor o fanylion yn atodiad 1.

Ar gyfartaledd, fe wnaeth defnyddwyr y gwasanaeth wella ar draws pob deiliant:

- ➔ 'Mynediad at wasanaethau cefnogi' oedd y deiliant lle gwelwyd y gwelliant lleiaf (+0.86 ar gyfartaledd), a 'Mwy o wydnwch' oedd y deiliant lle gwelwyd y mwyaf (+1.62 ar gyfartaledd);
- ➔ Dyma'r tri deiliant lle cofnodwyd y cyfraddau uchaf o welliant: 'Lleihau effaith trawma' (N= 26), 'Gwella iechyd meddwl a lles' (N= 27), a 'Mwy o wydnwch' (N= 28).
- ➔ Cofnododd llai o ddefnyddwyr y gwasanaeth welliant ar gyfer 'Gwella iechyd meddwl a lles' (N= 19) a 'Mynediad at wasanaethau cefnogi' (N= 16; roedd y data ar gyfer y deiliant hwn hefyd ar goll mewn dau achos). Y ddau gategori hyn oedd â'r cyfraddau uchaf o ddim gwelliant hefyd (N= 11 yn y ddau gategori);
- ➔ Ni chafodd newid ei gofnodi mewn pum achos yn unig ar gyfer 'Lleihau effaith trawma';
- ➔ Dim ond gyda thri o blant y gwelwyd dim newid o ran 'Mwy o wydnwch' a 'Gwella iechyd meddwl a lles';
- ➔ Yr unig ddeilliannau lle gwelwyd gwaethgiad i unrhyw ddefnyddiwr oedd 'Mynediad at wasanaethau cefnogi' (N= 2), 'Gwella iechyd meddwl a lles' (N= 1), a 'Cartref/amgylchedd gwasanaeth diogel' (N= 1).

5.6.2 Anawsterau wrth gofnodi effaith

Mewn nifer o'r cyfweiliadau gydag ymarferwyr ym mlwyddyn gyntaf y peilot, mynegon nhw bryder nad

oedden nhw'n creu newid. Roedd hyn, yn rhannol, o ganlyniad i anhawster wrth roi tystiolaeth o effaith yn erbyn yr asesiadau, deilliannau caeth a dyddiadau caeth er mwyn adrodd yn eu herbyn (bob tri mis). Codwyd hyn yn yr un modd yn y cyfweiliadau gyda'r ymarferwyr ar y diwedd. Disgrifiwyd yr anawsterau wrth gofnodi'r deilliannau positif i blant a theuluoedd a allai fod wedi'u heffeithio o ganlyniad i'r ymyriad. Mewn achosion o'r fath, ac efallai o ganlyniad i hynny, ni wnaeth yr ymarferwyr esbonio effaith yr ymyriad yn yr un termau â'r rheini, a'u lliniaru drwy ddefnyddio geiriau fel 'niwlog', 'meddal' neu 'rhy syml'.

Mynegodd gweithiwr proffesiynol o fyd addysg y pryder hwn hefyd ynghylch effaith yr ymyriad. Ar ôl llenwi'r ffurflen ddeilliannau, fe soniodd nad oedd modd iddi gyfathrebu'r deilliannau ar gyfer un plentyn fel yr oedd hi'n eu hystyried. Fel y nodwyd yn adran 4.7, gallai hyn fod o ganlyniad i broblemau wrth ddefnyddio systemau safonol ar gyfer ymyriadau penodol. Yn fwy cyffredinol, gall rhoi tystiolaeth o newid positif yn erbyn deilliannau cyffredinol fod yn arbennig o anodd ar gyfer ymyriad sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd plentyn ac sy'n cynnig cefnogaeth unigryw wedi'i theilwra. O ran ystyriaethau trefnu a chyflwyno'r prosiect, mae pennu amcanion i'w hadrodd yn eu herbyn ar gyfer ymyriad o'r fath yr un mor heriol.

Mae hyn yn cyflwyno heriau i'r gwerthusiad hwn gan fod niferoedd isel i'w hadrodd yn eu herbyn a chan fod y deilliannau unigol ar gyfer teuluoedd. At ddibenion y gwerthusiad hwn, mae'n bwysig nodi na wnaeth y deilliannau ffurfiol ar gyfer yr ymyriad na'r gwelliannau a fesurwyd mewn achosion unigol, grynhoi neu gyfleu'r effaith a'r deilliannau a gofnodwyd gan y rhai fu'n rhan o'r gwerthusiad. Os ydym yn ystyried y pwyslais ar anghenion y plentyn unigryw fel rhan hanfodol o ddeall ymyriad Gwella, dylem hefyd gydnabod bod deilliannau unigryw ar gyfer plant a rhieni yn ddymunol ac yn unigryw. Felly, drwy'r gwerthusiad hwn, rydym wedi ceisio cynnwys ymdeimlad o adroddiadau'r teuluoedd eu hunain o achosion wnaeth gynnig profiadau trawsnewidiol, a gwelliannau wnaeth newid bywydau mewn rhai achosion. Ar ben hynny, dim ond newidiadau i blant a theuluoedd sydd wedi'u cynnwys yn y deilliannau a gofnodwyd, nid newidiadau i weithwyr proffesiynol cysylltiedig.

Rydym yn nodi isod y deilliannau hynny a ddisgrifiwyd gan bob grŵp a gymerodd rhan, yn ogystal â'r adegau

pan gafodd yr un deilliannau eu hamlygu a'u hategu'n annibynnol ar draws y grwpiau hyn. Rydym hefyd yn nodi enghreifftiau pan ystyriwyd na chafwyd fawr o effaith.

5.6.3 Effeithiau a deilliannau a adroddwyd – rhieni a gofawyr sy'n perthyn

Roedd pob un o'r 17 o rieni a'r gofawyr sy'n perthyn fu'n rhan o'r gwerthusiad hwn yn unfrydol yn eu canmoliaeth o'r prosiect a'r newidiadau oedd wedi digwydd o ganlyniad i'r gwaith yr oedden nhw a'u plant wedi'i wneud gyda'r ymarferydd, a'r gefnogaeth a gafwyd, Fe wnaeth pawb oedd yn y grŵp a gymerodd ran bwysleisio effaith gadarnhaol y prosiect. Er bod rhai o'r effeithiau hyn yn ymwneud yn benodol â phlant a theuluoedd, roedd yr effeithiau a'r deilliannau eraill yn ymwneud â'r newid yn eu dealltwriaeth o'u plant, newidiadau mewn arferion magu plant, eu lles ei hunain, a newidiadau yn ymddygiad a lles eu plentyn.

Ymhlith yr 17 hyn a gymerodd ran, wrth sôn am effaith y prosiect, dywedodd 15 ohonyn nhw eu bod wedi meithrin cysylltiad gyda'u plant, eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gallu i fagu plant, ac yn deall sut i chwarae a bodloni anghenion eu plant. Soniodd tri rhiant am arwyddocâd hyn yng nghyd-destun y ffaith bod eu plant wedi cael eu symud o fod dan eu gofal yn flaenorol a bod hynny wedi achosi lefelau uchel o orbryder a diffyg ffydd yn eu gallu i fod yn rhiant cyn yr ymyriad. Cafodd hyn ei grybwyll fel rhywbeth arbennig o bwysig i un rhiant oherwydd dychwelodd ei phlentyn i fod yn ôl o dan ei gofal yn ystod yr ymyriad. Yn yr achos hwn, helpu'r broses hon i ddigwydd a chefnogi eu perthnasoedd gyda'i gilydd oedd ffocws yr ymyriad. Roedd y fam hon yn y broses o groesawu ei holl blant gartref ac er nad Gwella yn unig sy'n gyfrifol am yr effaith ehangach hon, roedd o'r farn mai'r gefnogaeth a gafodd drwy'r ymyriad oedd i'w gyfrif am ei hunanhyder, a hyder y gwasanaethau cymdeithasol yn ei gallu i fod yn rhiant a'r broses bontio bositif gyda'i phlentyn.

Nododd y grŵp hwn hefyd y gwelwyd gwelliannau arwyddocaol yn lles ac ymddygiad eu plant. Roedd y newidiadau a welwyd yn amrywio ac yn tueddu i fod yn benodol i'r plentyn a'u hanghenion blaenorol e.e.: ddim yn cael arswydau nos neu hunllefau mwyach; ymgartrefu gartref; ddim yn mynegi ofn mwyach y bydd trawma o'r gorffennol yn digwydd eto; cymryd

rhan mewn chwarae a bod â diddordeb mewn gemau; gwneud ffrindiau; ddim ofn y tywyllwch mwyach a gallu cysgu ar eu pen eu hunain yn eu hystafell; gallu bod ar eu pen eu hunain yn eu hystafelloedd gwely; gallu canolbwyntio'n llawer gwell; y gallu a'r hyder i fynegi a lleisio eu hemosiynau – megis hapusrwydd, tristwch a'u gofidion; magu hyder; mwy o hunan-barch; bod yn ymwybodol o'u cyrff mewn ffordd bositif; cymryd llai o risg yn eu hymddygiad; a llawer llai o bryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol; ddim yn cael eu hanfon gartref o'r ysgol mwyach; llai o ddicter ac ymddygiad ymosodol. Dywedodd dau deulu bod y newid wedi bod mor drawsnewidiol, roedden nhw'n teimlo bod ganddyn nhw blentyn gwahanol. Mae enghreifftiau o newidiadau a'u pwysigrwydd i'w gweld isod:

"Wel, tan tua pryd oedd hi? Tua mis yn ôl, roedd [plentyn] yn fy ngwely o hyd. Mae yn ei ystafell wely ei hun erbyn hyn. Ond mae pethau bach fel yna yn enfawr i mi a [plentyn]."

Mam

"Ei mwynhad, doedd hi ddim yn mwynhau pethau o'r blaen. Roedd yn anodd iawn ei chymell neu dwyn perswâd arni i wneud unrhyw gemau. Mae ei gweld hi'n chwerthin a faint mae hi wedi gwella gyda hynny, cefais i a [ymarferydd] ein rhyfeddu... mae'n unigryw. Mae'n unigryw ac mae'r union beth oedd ei angen ar [plentyn] a mi. Yn amlwg ar yr adeg gywir. Ni allai fod wedi digwydd ar adeg well achos ro'n i wedi cyrraedd pen fy nhennyn o ran beth i'w wneud gyda [plentyn]. A gallai fod hyn fod wedi'i hachub rhag does wybod beth am ei bod mor drafferthus a gallwn nawr weld ei bod yn rhesymu pethau am ei bod wedi gorfod gwneud hynny yn y gemau. Roedd rhaid iddi feddwl, canolbwyntio, cymryd tro - doedd hi ddim yn arfer gwneud hynny, ond mae wedi dysgu sut i wneud hynny."

Mam

"Dwi'n meddwl ei fod yn dda iawn er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chael amser o safon gyda'n gilydd. Ac mae dysgu am wahanol ffyrdd o ymdopi ag emosiynau [plentyn] a bod [plentyn] yn gallu ymdopi â'i emosiynau oherwydd cyn hynny, cyn dechrau'r gwaith, ni fyddai [plentyn] yn crïo ac ni fyddai'n dweud dim, byddai'n cadw pellter ac yn meddwl, os

yw e'n mynd i ddigwydd, mae'n mynd i ddigwydd, a does dim bwys ganddo. Ond mae gwneud y gwaith gyda [ymarferydd] wedi helpu [plentyn] i ddod o'i gragen a dweud 'na, dydw i ddim eisiau gwneud hynny', neu 'ni ddylai hyn fod yn digwydd, dylai fod fel hyn'. Ac mae nawr wedi crïo, rhywbeth na wnaeth unrhyw un ohonon ni ei weld yn wneud o'r blaen."

Mam

Fel y nodwyd uchod, i rai teuluoedd, un o'r prif newidiadau i rieni oedd yn eu dealltwriaeth o drawma a'i effaith ar emosiwn ac ymddygiad y plant, a'u gallu i ddeall a rheoli hyn ar gyfer eu plant. Mynegodd pob un hyn mewn rhyw ffordd, fodd bynnag eglurodd 12 o'r rhai a gymerodd ran bod hyn yn bwysig iawn iddyn nhw. Siaradon nhw am sut maen nhw'n meddwl mewn ffordd wahanol am ymateb i'w plentyn a deall eu hymddygiad, neu eu bod wedi (neu wrthi'n) dysgu strategaethau ymdopi ar gyfer ymddygiad eu plant ac ymateb i'w hemosiynau, neu eu bod erbyn hyn yn gallu gweld safbwynt eu plentyn a sut i ymateb. Fel yr eglurodd un tad:

Dad: *Dwi'n meddwl y gweithiodd i mi hefyd achos fe wnes i ddechrau ei drin yn wahanol wedi hynny. Hynny ydy, yn hytrach na gweiddi arno a rhoi stŵr iddo. Felly, wedi i [ymarferydd] egluro hynny wrtha i ac i mi ei ddeall, ar y dechrau roedd yn groes i bopeth ro'n i'n ei wybod am fywyd arferol. Ond rydw i wedi ei ddefnyddio ers blwyddyn erbyn hyn, ac mae'n iawn. Mae o wedi gweithio.*

Ymchwilydd: *Y gemau neu'r ffordd rydych chi'n siarad?*

Dad: *Wel, rydyn ni'n rhyngweithio'n hollol wahanol erbyn hyn, cwtsio a chusanu.*

Ymchwilydd: *Sut byddech yn disgrifio beth maen nhw'n ei wneud, beth ydych wedi'i ddysgu?*

Dad: *Dwi wir ddim yn siŵr sut. Mae'n digwydd yn gynnil iawn. Mae fel petai...dwi ddim yn siŵr, yn chwalu rhwystrau sbo. Ie, dyna sut dwi'n ei gweld hi. Y cyfan dwi'n ei wybod yw bod ein perthynas o gymharu â sut oedd hi pan ddaeth [ymarferydd] atom ni yn gyntaf, gan gwaith gwell erbyn hyn. A dwi ddim yn siŵr a yw hynny o ganlyniad i gyfuniad o fi'n gwrando ar beth oedd ganddi i'w ddweud a*

phopeth arall, ei ddeall a'i roi ar waith. Ac fe wnaeth rhywfaint o'r rhyngweithio y cawson ni pan oedd hi yma weithio, a bydden ni'n amlwg yn gwneud rhywfaint pan nad oedd hi yma, wnaeth weithio hefyd.

Dywedodd yr holl rieni a'r gofalwyr sy'n perthyn bod bywyd teuluol wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i'r newidiadau a ddisgrifiwyd uchod e.e. gallu mynd am ddiwrnodau allan fel teulu, i'r siopau, ar wyliau, ac roedden nhw'n gallu mwynhau treulio amser gyda'i gilydd fel teulu a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefft gyda'i gilydd. Disgrifiodd un teulu sut roedd llai o ddadlau, a dywedodd un fam a thad (oedd wedi gwahanu) eu bod erbyn hyn yn gallu cyfathrebu fel partneriaid am gysylltu a'u bod wedi sefydlu trefniadau a rennir ar gyfer eu plentyn, a'u bod yn gallu treulio amser gyda'i gilydd fel teulu gyda'u plentyn.

Nododd chwe theulu bod eu cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi newid oherwydd newid yn safbwynt y gweithiwr proffesiynol neu'r hyder yn eu gallu i fod yn rhiant o ganlyniad i'r ymyriad. Croesawodd tri theulu eu plant yn ôl gartref i fod o dan eu gofal. Roedden nhw'n cynnal y newid hwn, ac nid oedd unrhyw bryderon pellach ynghylch p'un a oedd angen Gorchymyn Gofal ar gyfer un teulu. Yr ymarferydd gafodd y clod am y deilliannau hyn am eirioli i'r gwasanaethau cymdeithasol ar eu rhan (am eu gallu i fod yn rhiant), neu am gefnogi'r teulu drwy'r newid; ac mewn rhai achosion, disgrifiwyd yr ymyriad fel y rheswm pam y daeth y plant gartref. Disgrifiodd tri theulu sut y caewyd eu hachosion gyda'r gwasanaethau cymdeithas oherwydd newidiadau a ddechreuwyd drwy'r prosiect, ac roedd llawer lai o bryderon a chysylltiad i deulu arall.

Fel y nodwyd uchod yn adran 5.2, tra bod rhai o'r newidiadau hyn wedi'u mynegi'n glir ac yn arwyddocaol, mynegodd rhai rhieni a pherthnasau oedd yn rhoi gofal bryderon ynghylch rheoli'r newidiadau hyn ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun newidiadau ychwanegol mewn cefnogaeth gysylltiedig, rheoli'r newid a phlant yn colli perthnasoedd pwysig, neu adegau pan oedd plant yn mynd drwy newidiadau eraill (e.e. newid ysgol neu ddigwyddiad teuluol arall o bwys). Nid yw hyn o

reidrwydd yn lleihau arwyddocâd neu lwyddiant yr ymyriad. Yn hytrach, mae'n gydnabyddiaeth o gyddestun cymdeithasol ymyriadau o'r fath a bod angen y gefnogaeth a allai gael ei lleihau'n raddol i deuluoedd yn rhan o'r ymyriad.

5.6.4 Effeithiau a deilliannau a nodwyd – gofalwyr maeth

Fe wnaeth y chwe theulu â gofalwyr maeth fu'n rhan o'r gwerthusiad sôn am argraff gymysg o'r effeithiau wnaeth ddeillio o'r prosiect. Mewn tri achos, roedden nhw'n ansicr ynghylch rhoi'r clod i'r prosiect am y newidiadau positif a allai fod wedi digwydd i'r plentyn o dan eu gofal. Fe nodon nhw mai newid lleoliad a dod yn fwy sefydlog oedd i'w cyfrif am y rhain yn ôl pob tebyg. Dywedodd un o'r rhain bod un o'r plant o dan eu gofal wedi dod yn fwy ymwybodol o'u hunain yn ofodol ac roedd y llall wedi dysgu rhai strategaethau tawelu o ganlyniad i'r prosiect. Dywedodd un gofalwr maeth na fu unrhyw newid o ganlyniad i'r prosiect. Roedd hyn am nad oedd yr ymyriad yn addas i'w plentyn ac am eu bod yn gysylltiedig â gormod o ddarpariaeth gan fod hynny wedi amharu ar brofiad y plentyn o'r prosiect. Ategwyd hynny gan y plentyn yn ei gyfweiliad. Dywedodd yr ymarferydd hefyd bod y cyfeiriad gwreiddiol wedi bod yn gysylltiedig â lleoliad gofal maeth blaenorol a phryder ynghylch rheoli'r broses o symud i'r teulu maeth newydd hwn.

Mewn un achos, dywedodd y gofalwr maeth y bu newid er gwell i'r plentyn oedd bellach yn meddu ar strategaethau tawelu ac yn ymddwyn yn well yn yr ysgol. Dywedodd y gofalwr maeth hefyd bod y newidiadau yn ymddygiad y plentyn wedi golygu nad oedd hi'n poeni mwyach am p'un a fyddai'n gallu cynnal y lleoliad. Dim ond gofalwr maeth oedd wedi bod yn gysylltiedig â'r prosiect yn wreiddiol cyn i'r plentyn ddychwelyd i fod o dan ofal ei rieni, wnaeth gymryd rhan yn y gwerthusiad. Amlygodd y gofalwr maeth rôl bwysig y prosiect o ran cefnogi'r plentyn a'r rhieni, a chredodd mai i'r ymyriad oedd y diolch am gael y plentyn yn ôl gartref:

"Rwy'n hollol siŵr na fyddai [plentyn] wedi mynd adref hebdo, ni fyddai wedi digwydd...100%. Ni fyddai wedi aros gartref oni bai bod yn ei le. Ac os mai fel hyn mae plant eraill yn cymryd rhan yn y prosiect, mae'n cadw llw o deuluoedd gyda'i gilydd yn ôl pob

tebyg. Dwi'n meddwl ei fod yn un o'r pethau gorau i ddigwydd erioed. Dwi yn credu na fyddai [plentyn] fod wedi llwyddo heb hyn. Roedd yn un o'r achosion hynny roedd gen i bryderon mawr amdano'n mynd gartref heb gefnogaeth. Pan welais beth oedd yn ei wneud a beth oedd yn cael ei roi ar waith, y strwythur a'r dulliau yr oedd [ymarferydd] yn eu rhoi i [plentyn], ni fyddai wedi ymdopi hebddyn nhw. Felly, ro'n i'n gallu mynd adref yn meddwl ei fod am fod yn iawn. Ond roedd [ymarferydd] yn eithaf naturiol. Yn anad dim, fe wnaeth hi wrando. Roedd yn rhoi sylw i bopeth, roedd yn gwrandao ar ei bryderon, beth oedd yn ei boeni. Fe wnaeth yn siŵr aeth hi yn ôl a gwrandao ar holl ofidion [rhieni]. Daeth â phopeth at ei gilydd a rhoi cynllun ar waith ar sail hynny. Roedd yn fwy na dim ond dweud byddwch yn gwneud hyn a'r llall, roedd yn gwybod mai hwn oedd y cyfle olaf i'r bachgen bach hwn o ran ble oedd yn aros. A hebdi hi, ni fyddai e, [plentyn], wedi aros, ni fyddai wedi dod i hyn.

Gofalwr maeth

Ategwyd hyn gan rieni'r plentyn. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, roedd rhai pryderon gan y rhieni ar ôl i'r ymyriad ddod i ben ynghylch ymddygiad y plentyn a'r angen am gefnogaeth barhaus.

Mynegodd dau ofalwr maeth eu bod yn siomedig gyda'r prosiect; fel y nodwyd yn flaenorol, roedd hyn mewn cysylltiad â'r anghysondeb yn y gefnogaeth i'r plentyn. Yn y naill achos, ar sail y gwaith a wnaethpwyd, fe bwysleisio nhw eu bod yn credu y gallai'r prosiect fod wedi cael deiliant arwyddocaol i'r plentyn, ond ni chwblhawyd yr ymyriad. Fe wnaethon nhw hefyd sôn am y berthynas bwysig oedd wedi'i meithrin gyda'r ymarferydd, a'r posibiladau i'r berthynas hon hwyluso deilliannau cadarnhaol.

Roedd pedwar o'r chwe theulu gofalwyr maeth yn gadarnhaol ynghylch ffurfio achosion neu'r 'llinell amser trawma' a sut gwnaeth eu helpu i ddeall anghenion y plant. Roedd cael perthnasoedd proffesiynol allweddol hefyd wedi'u helpu i ddeall profiad y plant o drawma a'u pryderon; amlygodd dau ohonyn nhw hwn yn benodol fel deiliant positif. Mewn achos ychwanegol, dywedodd y gofalwr maeth bod y llinell amser wedi bod o gymorth i'w hatgoffa am y trawma yr oedd y plentyn wedi'i oddef yn ogystal â dysgu am brofiadau nad oedd yn gwybod

amdany'n nhw (ac yn teimlo y dylai fod yn ymwybodol ohonyn nhw). Ni wnaeth y gofalwr maeth hwn gymryd rhan yn yr ymyriad a'i ystyried fel rhywbeth positif i'w phlentyn maeth. Iddi hi, deiliant positif fyddai i'w phlentyn roi'r gorau i ddefnyddio trawma fel esgus dros ei hymddygiad. Mae hyn yn rhoi safbwynt gwahanol ynghylch beth allai bod yn ymwybodol o faterion trawma ei olygu ac mae'n ategu rhywfaint o'r adborth gan ymarferwyr nad oedden nhw wedi llwyddo i gyflawni deilliannau arwyddocaol gyda rhai gofalwyr maeth yn hyn o beth.

5.6.5 Effeithiau a deilliannau a nodwyd – plant

Rhoddodd y plant a gymerodd ran yn yr ymchwil ymatebion positif am yr ymyriad. Fe siaradodd y rhan fwyaf am yr holl gemau a gweithgareddau y gwnaethon nhw eu mwynhau, ac am weld eisiau eu gweithiwr. Dywedodd saith o'r plant yn benodol bod eu hymarferydd wedi eu helpu i deimlo'n dawelach, neu feddwl neu deimlo'n wahanol am bethau, neu roedden nhw'n teimlo'n hapusach ac nad oedd unrhyw beth yn eu poeni mwyach. Mae'r llun isod yn un a gafodd ei dynnu gan blentyn o hi ei hun a'i gweithiwr. Eglurodd y plentyn wrth yr ymchwilydd ei bod hi a'i gweithiwr yn gafael dwylo ac wedi cyrraedd pen y grisiau gyda'i gilydd, i ddangos bod ei gweithiwr wedi ei helpu. Sibrydodd y plentyn wrth ymchwilydd bod ei hymarferydd yn gwneud iddi deimlo'n well erbyn hyn. Roedd hi wedi gallu siarad â'r ymarferydd am ei mam ac am bethau oedd wedi digwydd gyda'i thad, a bod hyn wedi ei helpu.



Llun gan blentyn 9 oed

Eglurodd rhai o'r plant sut oedden nhw wedi gallu siarad â'u gweithiwr am bethau oedd yn eu poeni. Fe ddisgrifion nhw weithgareddau yr oedden nhw wedi'u dysgu oedd wedi gwneud iddyn nhw deimlo'n well pan oeddwn nhw'n poeni, yn drist neu'n ddig. Fe ddisgrifion nhw flychau hwyliau, llyfrau pryderon a gweithgareddau eraill. Fel yn yr enghraifft isod:

Ymchwilydd: Felly, ai llyfr lliwio oedd dy lyfr unicorn?

Plentyn: Ie, roedd e fel llyfr lliwio. Mae ganddo sêr a chestyll ac uncyn a phethau fel yna.

Ymchwilydd: A pham wnaeth [ymarferydd] roi hwn i ti, fel anrheg neu?

Plentyn: Fe wnaeth hi ei roi i mi achos mod i'n drist ac yn poeni a phethau fel yna, felly fe wnaeth hi ei roi i mi fel mod i'n rhoi'r gorau i boeni. Os ydw i'n drist, rydw i'n lliwio fy..., a nes i brynu i llyfr rhag ofn, os ydw i'n hapus dwi'n gwneud llun hapus, os ydw i'n drist dwi'n gwneud llun trist. [...]

Ymchwilydd: Oeddet ti'n mynd i ddweud rhywbeth arall am [ymarferydd].

Plentyn: Fe wnes i a [ymarferydd] yn nhŷ Dad, fe wnaethon ni'r botel yma. Bydden ni'n rhoi pethau ynddi, felly pan dwi'n flin neu beth bynnag, dwi'n ei ysgwyd fel yna, ysgwyd ysgwyd ysgwyd.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, dywedodd un plentyn nad oedd hi'n meddwl y gwnaeth y gweithgareddau y cymerodd hi ran ynddyn nhw unrhyw wahaniaeth iddi, er ei bod yn hoffi ei gweithiwr.

5.6.6 Effeithiau a deilliannau a nodwyd – asiantaethau allanol

Siaradodd gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill am ddeiliannau positif i deuluoedd yn bennaf, gan ategu'r effeithiau a fynegwyd gan rieni, gofalwyr a phlant.

Siaradodd gweithwyr cymdeithasol am ddeiliannau positif gan gynnwys rhai plant yn gallu dychwelyd i fod o dan ofal eu rhieni, peidio â chael unrhyw bryderon pellach ynghylch gweithdrefnau gofal, a chau achosion. Dywedon nhw hefyd bod yr ymyriad wedi cyfrannu at lwyddiant y cynlluniau adfer, boed hynny'n dychwelyd

i fod o dan ofal rhieni neu i deulu maeth newydd. Yn yr achosion hyn, dywedon nhw bod y plant yn edrych yn sefydlog, yn ddiogel yn eu bywyd a'u lleoliad, ac wedi cynyddu hunan-barch. Roedd rhieni i'w gweld yn cymryd sylw o anghenion eu plant, bod cysylltiad wedi'i feithrin gyda'u plant, a bod strategaethau ganddyn nhw i reoli ymddygiad eu plant mewn argyfwng. Roedd yr ymyriad hefyd wedi gwneud gwahaniaeth i bryderon y rhieni a'u gallu i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol. Yn yr un modd, roedd wedi helpu i gynyddu ffydd y rhiant mewn asiantaethau proffesiynol fu wedi hynny yn bositif o ran eu gwaith eu hunain gyda'r teuluoedd hyn. Credwyd mai'r gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddyn nhw, hyd a chysondeb y cysylltiad, a'r berthynas yr oedd yr ymarferwyr yn gallu ei chreu gyda rhieni a phlant oedd i'w cyfrif am yr effeithiau hyn. Fel yr eglurodd dau weithiwr cymdeithasol, isod:

"Fel nes i sôn, roedd mam yn cael cryn drafferth mynegi unrhyw emosiynau. Iddi hi, roedd dangos emosiwn bob amser yn arwydd o wendid, ond nawr mae'n barod i gofleidio'r plant, ac maen nhw'n mwynhau gwneud gweithgareddau gyda'i gilydd. Yn syml, mae hi wedi dysgu sut i werthfawrogi treulio amser fel teulu a phethau syml fel coginio gyda'i gilydd a gallu siarad â'i gilydd. A gallwch weld bod y plant wir wedi gwerthfawrogi hynny. Maen nhw'n ffynnu ar hynny erbyn hyn ac rydyn ni'n ceisio cau'r achos i'r gwasanaethau cymdeithasol."

Gweithiwr cymdeithasol

Ymchwilydd: Ok. A phwy yn y teulu fydddech chi'n ei ddweud sydd wedi elwa fwyaf, os yn berthnasol?

Gweithiwr cymdeithasol: Baswn i'n dweud y rhieni a'r plant, i'r un graddau yn bendant. Efallai hyd yn oed yn fwy i'r rhieni.

Ymchwilydd: A beth yn eich barn chi yw'r prif resymau dros hynny o ran Gwella neu waith [ymarferydd] yn benodol?

Gweithiwr cymdeithasol: Dwi'n meddwl mai'r gwaith dwys maen nhw wedi gallu ei wneud. Mynd i gartref y teulu a bod yn agored ac yn onest drwy ddweud dyma beth hoffwn ei gyflawni, dyma beth rydyn ni am ei wneud, a dyma sut rydyn ni am wneud hyn. Dwi'n meddwl

bod mynd i mewn i gartref y teulu, meithrin y berthynas honno, cynyddu'r ymddiriedaeth a'r cysylltiad gyda'r teulu, mae wedi bod o les enfawr. Ar ben hynny, cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill.

Gweithiwr cymdeithasol: Fedra i ddim ei ganmol yn ormodol. Rydyn ni wedi gweld cymaint mae pethau wedi newid mewn ffordd na fyddai wedi'i ddarogan adeg yma y llynedd. Mae'n anhygoel, dwi'n meddwl ei fod gwneud cymaint o les.

Dywedodd dau weithiwr cymdeithasol na chafodd y prosiect ddeilliannau positif i dau deulu, ac y gallai fod wedi cael deilliant negyddol. Fodd bynnag, deallwyd mai'r absenoldebau a'r tarfu yn ystod yr ymyriad a brofwyd gan y teuluoedd o dan sylw oedd i'w cyfrif am hyn.

Fel yr ystyriwyd yn flaenorol, soniodd pob gweithiwr cymdeithasol fu'n rhan o'r gwerthusiad am ddeilliannau positif o ganlyniad i ffurfio achosion. Dywedon nhw bod hyn wedi cynyddu eu dealltwriaeth o drawma ac wedi arwain at newid mewn meddylfryd naill ai drwy roi persbectif ar achos penodol, neu'n fwy cyffredinol drwy wella eu hymarfer cyffredinol.

"weithiau, o ran ein rôl, gallwn ddechrau gweithio gyda theuluoedd pan maen nhw mewn argyfwng a gall llawer ohono fynd ar goll achos rydych chi bron yn ceisio datrys y problemau gyda'r teuluoedd yn y fan a'r lle. Ond mae cael y ddealltwriaeth hon o sut rydyn ni wedi cyrraedd y pwynt hwn gyda [plenty], beth oedd y trawma yr oedd wedi'i wynebu dro ar ôl tro, a'r effaith ar ei ddatblygiad, roedd hynny'n ddiddorol iawn hefyd, ac nes i fwynhau hynny. Dwi'n bendant yn ei gynnwys yn fy ymarfer erbyn hyn."

Gweithiwr cymdeithasol

Fe wnaeth y gweithwyr addysg proffesiynol fu'n rhan o'r gwerthusiad a'r cyfarfodydd ffurfio achosion ddweud hefyd bod hyn wedi newid eu dealltwriaeth o fathau penodol o ymddygiad gan blant. Roedden nhw hefyd yn siarad yn bositif am ymddygiad gwell y plant yn yr ystafell ddosbarth, bod angen llai o wasanaethau cefnogi yn yr ysgol, perfformiad gwell yn academiaidd ac yn gymdeithasol, mwy o ymddiriedaeth, a phlant yn mynegi eu hanghenion

ar lafar, a dim mwy o fwlio nac ymddygiad ymosodol yn yr ysgol. Yn eu barn nhw, pwyslais yr ymyriad ar weithio gyda rhieni ac yng nghartref y teulu oedd i'w gyfrif am y newidiadau hyn yn bennaf.

"Dwi'n meddwl mai cael teulu hapusach yw'r deilliant. Mae ganddon ni deulu sy'n ffræo llai, dim cymaint o darfu, dyw'r heddlu ddim yn galw heibio ac nid yw'r plant yn gweld trais. A'r deilliant mwyaf yw plant hapusach, cartrefi hapusach, rhieni hapusach. Ac mae rhieni sy'n barod i fagu eu plant yn hytrach na dadlau gyda'i gilydd, maen nhw'n gweld beth sy'n bwysig mewn gwirionedd, sef y plentyn. Felly, baswn i'n dweud mai dyna yw'r deilliant mwyaf, sut rydyn ni, prosiect Gwella a phawb arall o dan sylw, wedi gweld y teulu'n cael ei weddnewid yn llwyr. Felly, baswn i'n dweud mai plant hapusach a chartref hapusach yw'r deilliant mwyaf."

Gweithiwr proffesiynol o fyd addysg

Mewn un achos, ni fu unrhyw newid yn ymddygiad y plentyn yn ôl dau weithiwr proffesiynol o fyd addysg, a dywedon nhw bod y plentyn yn fwy aflonyddgar yn yr ysgol ar ôl cwrdd â'r ymarferydd.

5.6.7 Crynodeb o'r deilliannau

Mae'r canfyddiadau uchod yn awgrymu rhai o'r themâu a allai fod yn rhan o'r pum deilliant cyfredol wrth gynllunio ar gyfer prosiect yn y dyfodol. Deall trawma yn well – i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol; newidiadau positif i fywyd teuluol; perthnasoedd gwell mewn teuluoedd; prosesau pontio sefydledig; gwelliannau a nodir gan weithwyr proffesiynol allanol – cau achosion neu lai o bryderon, ymgysylltu'n positif ag ysgolion. O ystyried bod bron bawb fu'n rhan o'r gwerthusiad wedi amlygu pwysigrwydd perthynas o ymddiriedaeth rhwng yr ymarferydd a'r rhieni, y gofalwyr a'r plentyn, a'r gallu a'r amser sydd eu hangen ar yr ymarferydd i feithrin yr ymddiriedaeth honno, gallai'r perthnasoedd hyn fod yn ddeilliant allweddol, er na chafodd hyn ei ddisgrifio fel deilliant gan y rhai a gymerodd ran yr ymyriad hwn. Mae hyn yn arbennig o wir wrth adrodd bob yn dipyn o ystyried sut y gwnaeth pawb amlygu pwysigrwydd y cyfnod 12 mis ar gyfer hwyluso effaith.

5.7 Dwy astudiaeth achos

Mae'r ddwy astudiaeth achos ganlynol yn rhoi enghreifftiau o'r ymyriad ar waith. Maen nhw'n amlygu elfennau trefnu, gweithredu a chyflwyno, yn ogystal â'u cysylltiad â'r deilliannau. Yn yr achos cyntaf, roedd y profiad yn hynod

gadarnhaol gyda deilliannau cadarnhaol dros ben. Mae'r ail achos ar y llaw arall yn tynnu sylw at sut mae heriau trefniadol a dehongliad caeth o'r dull yn gallu cyfrannu at brofiad a deilliannau llai positif i blant a theuluoedd.

Astudiaeth achos #1: Teulu Grant. Mae Lucy yn saith oed a chafodd ei chyfeirio at Gwella oherwydd trawma'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn y teulu a gweld trais domestig. Roedd hefyd wedi gweld ymddygiad heriol gan ei brawd hŷn. Roedd yn cael trafferth ymdopi â'u hemosiynau ac yn cael arswydau yn y nos. Roedd Lucy yn byw gyda'i thad ac anaml oedd hi mewn cysylltiad â'i mam. Nid oedd ei mam a'i thad yn cyfathrebu'n dda. Roedd gweithiwr prosiect Gwella yn cwrdd â Lucy a'i thad bob pythefnos, ar wythnosau gwahanol. Yn sesiynau'r gweithiwr gyda thad Lucy, roedd y pwyslais ar ddeall ffyrdd o gefnogi anghenion emosiynol Lucy. Yn y sesiynau gyda Lucy, roedd y pwyslais ar ei helpu hi i ddeall eu hemosiynau a bod yn fwy hyderus wrth ymdopi â phethau oedd yn anodd iddi. Fe wnaethon nhw rai sesiynau gyda'i gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae creadigol. Yn nes ymlaen, daeth mam Lucy i gymryd rhan yn rhai o'r sesiynau gyda'r ymarferydd.

Daeth y prosiect i ben ar ôl 12 mis, sef dyddiad gorffen gwreiddiol yr ymyriad Gwella a baratowyd ar gyfer Lucy. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, nid oedd Lucy yn dioddef arswydau yn y nos mwyach, a dywedodd ei rhieni bod ei hyder a'i sefydlogrwydd emosiynol wedi gwella'n sylweddol. Dywedodd cysylltiadau yn yr Ysgol hefyd bod Lucy yn ymddwyn yn llawer gwell yn yr ysgol a'i bod wedi rhoi'r gorau i drafod digwyddiadau trawmatig o'r gorffennol fel petaen nhw'n digwydd o hyd. Cofnododd gweithiwr Gwella Lucy welliannau hefyd i'r deilliannau ar gyfer Lucy. Roedd y rhain yn cynnwys amgylchedd mwy diogel gartref (+2 bwynt) a gostyngiad yn effaith trawma (+2 bwynt).

Yn y cyfweiliad, amlygodd y rhieni bod nifer o weithwyr proffesiynol yn eu cefnogi oherwydd yr amrywiaeth

o anawsterau roedd y teulu wedi'u hwynebu. Fodd bynnag, er bod sawl un o'r gweithwyr hyn yn gweithio gydag aelod penodol o'r teulu (fel y brawd hŷn), nid oedd Lucy wedi cael unrhyw gefnogaeth benodedig yn flaenorol. Roedden nhw hefyd yn teimlo nad oedden nhw wedi cael cefnogaeth yn flaenorol i'w helpu i ddeall sut i helpu eu plant. Siaradodd y rhieni yn bositif am sut oedd y berthynas gydag ymarferydd Gwella yn gallu cael effaith gadarnhaol ar Lucy. Roedd hi'n teimlo ei bod yn cael mwy o gefnogaeth unigol a bod hyn yn rhoi'r cyfle iddi siarad â rhywun am ei theimladau a'i phrofiad mewn ffordd nad oedd wedi gallu gwneud cyn hynny. Dywedodd mam a thad Lucy eu bod yn teimlo'n hyderus eu bod yn gallu chwarae gemau a chael hwyl gyda Lucy, ac y byddai hyn yn ei helpu gyda'i hemosiynau. Eglurodd y ddau riant bod ymarferydd Gwella wedi eu helpu i ddeall sut i feithrin cysylltiad gyda Lucy a sut i'w helpu i drafod ei hemosiynau a'i theimladau.

Yn ei chyfweiliad am yr ymchwil, dywedodd Lucy ei bod yn hoffi pan oedd ei gweithiwr Gwella wedi ei helpu gyda ffyrdd o fynegi ei dichter. Dywedodd bod defnyddio'r pethau (dulliau) roedden nhw wedi'u gwneud gyda'i gilydd yn gwneud iddi deimlo'n llai dig. Dywedodd ei bod wedi cael llawer o hwyl wrth chwarae gyda'i gilydd, a'i bod yn hoffi ei gweithiwr am ei bod yn hwyl, yn garedig ac am fod ganddi wên hyfryd. Tynnodd Lucy lun ar gyfer yr ymchwilydd oedd yn dangos hi'n nodi'r gwahaniaeth rhwng y pethau trist a'r pethau roedd hi'n poeni yn eu cylch, ochr yn ochr â'r emosiynau 'hapus', 'hoffi', a'i hoff bethau. Dywedodd hefyd nad yw hi'n hoffi meddwl am weithiwr y prosiect o hyd am ei bod yn gweld ei heisiau ac mae'n teimlo'n drist gan nad oes modd iddi ei gweld hi mwyach.

Astudiaeth achos #2: Teulu Morris. Mae Olivia yn ddeuddeg oed a chafodd ei chyfeirio at Gwella oherwydd trawma sylweddol o fod mewn amgylchedd o esgeuluso a cham-drin corfforol yn y cartref. Roedd ei gofalwyr maeth newydd hefyd yn poeni am ei hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol gyda'i chyfoedion ac ymddygiad ymosodol, yn ogystal â bod yn agored i niwed a chamfanteisio yn y dyfodol. Cymerodd Olivia ran yn y prosiect am bron 8 mis, nes i ofalwyr math Olivia benderfynu gwrthod cymryd rhan mwyach. Dywedon nhw fod yr ymgysylltiad â gweithiwr Gwella yn anghyson oherwydd nifer y sesiynau a ganslwyd. Canslwyd rhai ohonyn nhw oherwydd bod gan y teulu bethau eraill wedi'u trefnu. Roedd rhai oherwydd y tywydd, ond canslwyd y rhan fwyaf ohonyn nhw am fod yr ymarferydd yn sâl. Dywedodd gofalwyr maeth Olivia eu bod yn siomedig nad oedd rhywun ar gael yn y prosiect i gymryd lle'r ymarferydd oedd yn sâl.

Pan gynigiwyd gweithiwr Gwella newydd i rieni maeth Olivia ar ôl cyfnod pan oedd y gweithiwr gwreiddiol yn absennol, fe wrthodon nhw oherwydd pryderon ynghylch yr amser byr oedd ar ôl o'r prosiect a'r anhawster yr oedden nhw'n ei deimlo yr oedd Olivia wedi'i erbyn hynny. Er i'r gofalwyr maeth ddweud bod Olivia yn hoffi'r gweithiwr Gwella a'i bod wedi ymateb yn bositif yn y lle cyntaf, dywedon nhw fod Olivia wedi bod yn amharod i ymgysylltu nes ymlaen. Roedd ei gofalwyr yn teimlo mai effaith y canslo ac anghysondeb y sesiynau oedd i'w gyfrif am hynny.

Fe wnaeth gofalwyr maeth Olivia roi cryn ganmoliaeth i ryw faint o'r gwaith oedd wedi'i wneud, yn enwedig llinell amser y trawma a gynhyrchwyd ar ddechrau'r gwaith (yn y cyfarfod ffurfio achos) a'r sesiwn olaf gydag Olivia a ganolbwyntiodd ar fwlio ac empathi. Cyfeirion nhw at sesiwn olaf Olivia fel cam enfawr ymlaen iddi, ac roedden nhw'n gresynu bod y gwaith wedi dod i ben bryd hynny oherwydd absenoldeb gweithiwr Gwella a'r dyddiad ymadael diweddarach. Fodd bynnag, roedden nhw hefyd yn siomedig gan nad oedd y gweithgareddau wedi'u dylunio i ymateb i anghenion Olivia yn ôl pob golwg. Roedden nhw hefyd yn teimlo nad oedd y prosiect wedi bod y gwasanaeth therapiwtig yr oedden nhw wedi gobeithio'i gael. Roedd y gofalwyr maeth yn hynod gadarnhaol ynghylch cysyniad a strwythur ymyriad Gwella, ond dywedon nhw bod angen adnoddau wrth gefn i allu ymdopi ag amgylchiadau nad oes modd eu rhagweld fel salwch.

Yn y bôn, nid oedd y gofalwyr maeth yn teimlo bod cysylltiad Olivia â phrosiect Gwella wedi ei helpu, ac er nad oedden nhw'n meddwl ei fod wedi gwneud pethau'n waeth, dywedon nhw eu bod wedi meddwl y gallai pethau fod yn well iddi erbyn hyn pe byddai'r ymyriad wedi bod yn wahanol. Roedd hyn yn cadarnhau eu bod yn bositif ynghylch syniad Gwella a beth allai fod wedi'i gyflawni, ond bod y dull cyflwyno a'r prosesau yn rhan bwysig o'i lwyddiant. O ystyried y profiadau hyn, penderfynwyd na fyddai cynnal cyfweiliad gydag Olivia o les iddi.

Adran 6. Beth yw ymyriad Gwella, a sut gellir ei gyflwyno'n effeithiol?

Nod y gwerthusiad o'r 'broses' oedd cyflwyno amlinelliad manwl o gwmpas ac elfennau trefniadol Gwella er mwyn llywio unrhyw gynlluniau i'w ddyblygu neu ei ehangu yng Nghymru neu'n genedlaethol. Ceisiodd nodi sut rhoddwyd yr ymyriad a'r dull waith yn ymarferol. Fe wnaethom hefyd edrych ar faterion trefniadol o ran ei roi ar waith er mwyn nodi ymarfer effeithiol ac aneffeithiol, ac unrhyw rwystrau. Fe wnaethom hefyd nodi'r dulliau a'r strategaethau oedd yn 'gweithio orau' er mwyn cyflwyno'r prosiect fel bod gwersi'n gallu cael eu dysgu ac er mwyn nodi strategaethau posibl a allai osgoi problemau rhag codi dros ar ôl tro a/neu leihau eu heffaith.

6.1 Ymyriad Gwella ar waith

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, roedd Gwella yn ddull unigryw a pheilot oedd y prosiect i'w gyflwyno. Felly, nid oedd unrhyw ganllawiau cyfarwyddol ar gyfer yr ymyriad. Mae'r canlynol yn dod â'r dadansoddiad ynghyd er mwyn manylu ar nodweddion yr ymyriad ar waith.

Roedd dull Gwella yn ddull perthynol o weithio gyda phlant a theuluoedd, sy'n ystyried materion trawma ac yn seiliedig ar chwarae. Yr hyn sy'n gwneud y dull yn unigryw yw ei bwyslais canolog ar ddeall anghenion rhieni, plant a gofalwyr a chael eu harwain ganddyn nhw, yn ogystal â'i hyblygrwydd i ddefnyddio ystod o dechnegau a dulliau sefydledig (fel TRM, Therapi Chwarae, PACE, ymysg rhai eraill). Fe wnaeth hyn alluogi ymarferwyr i fod yn ymatebol i natur amrywiol y pryderon sy'n ymwneud yn benodol â theuluoedd, a gweithio gyda rhieni, gofalwyr a phlant er mwyn nodi'r meysydd cefnogaeth oedd yn bwysig iddyn nhw.

Roedd yr hyblygrwydd wrth gyflwyno'r ymyriad yn golygu bod modd gweithio o amgylch unrhyw wrthdaro posibl rhwng y dulliau hyn a'r egwyddorion yn null Gwella, a chafodd yr hyblygrwydd hwn ei ystyried yn un o brif gryfderau'r ymyriad.

Roedd ymarfer yr ymarferwyr yn amrywio o ran sut rhoddwyd yr ymyriad ar waith gyda phlant, rhieni a'r gofalwyr, a'r gweithgareddau a'r dulliau a ddefnyddiwyd. O'r data roedd yn bosibl dod i'r casgliad bod tair prif elfen yn llywio sut y cyflwynwyd yr ymyriad ym mhob achos:

1. Roedd yr ymyriad yn 'ymwybodol o faterion trawma' gan olygu bod cydnabyddiaeth o'r trawma penodol y mae plentyn wedi bod drwyddo, a'r anghenion a allai fod yn bresennol neu fod wedi'u gwaethgu o ganlyniad i'r trawma, yn ogystal â sut gallai trawma o'r fath effeithio ar eu hymddygiad. Yn hyn o beth, ni wnaeth yr ymyriad ganolbwyntio ar y trawma ei hun, ac roedd yn fodd o ddeall y gallai fod ystod o resymau y tu ôl i'r anghenion a'r ymddygiadau hyn;
2. Canolbwyntiodd yr ymyriad ar berthnasoddedd yn bennaf, ac ar ddeall a gweithio i gefnogi y plentyn yng nghyd-destun eu prif berthnasoddedd, gan gynnwys y rhwydwaith proffesiynol ehangach o'u cwmpas;
3. Roedd yr ymyriad yn cynnwys dulliau a gweithgareddau creadigol ar sail chwarae i hwyluso gweithio perthynol mewn modd cyfranogol oedd yn ystyried materion trawma.

Felly, roedd pwyslais ar berthnasoddedd yn rhan ganolog o'r ymyriadau ym mhob achos, a hynny mewn un neu ragor (neu bob un) o'r ffyrdd bosibl ganlynol:

- ➔ *Y cysylltiad perthynol rhwng rhiant/gofalwr a'r plentyn:* cefnogi rhieni/gofalwyr a phlant i adeiladu ar eu cysylltiad perthynol;
- ➔ *Cefnogi'r berthynas rhwng y rhiant/gofalwr a'r plentyn:* yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni a gofalwyr gyda'u 'llythrennedd emosiynol' a'u helpu i ddeall ymddygiad eu plentyn a pharatoi strategaeth er mwyn ymateb iddo mewn modd sy'n ystyried materion trawma.
- ➔ *Meithrin perthynas a chysylltiad gyda phlant:* gwaith un-i-un rhwng yr ymarferwyr a'r plentyn, a chanolbwyntio'n bennaf ar feithrin a modelu perthynas gadarnhaol a llawn ymddiriedaeth gydag oedolyn. Roedd natur y rhyngweithio oedd

yn seiliedig ar chwarae a gweithgareddau yn rhan bwysig o'r gefnogaeth.

Ochr yn ochr â'r uchod, cafwyd gwaith i gefnogi:

- ➔ *Perthnasoedd yn y system o gwmpas y plentyn:* cefnogi perthnasoedd y plant o fewn ac ar draws rhwydwaith ehangach y gweithwyr proffesiynol o'u cwmpas.

6.2 Fframio'r ymyriad

Mae fframio'r dull fel un seicolegol yn gallu creu problemau, gan ei fod yn gweithredu mewn cyd-destun cymdeithasol gan weithwyr proffesiynol o faes gofal cymdeithasol. Mae prif bwyslais yr ymyriad ar berthnasoedd a'r cyd-destun perthynol o gwmpas y plentyn yn awgrymu mai ymyriad cymdeithasol (perthynol) yw hwn yn bennaf yn ymarferol. Os yw gweithwyr proffesiynol allanol yn cymryd mai ymyriad (seicolegol/cwnsela) a arweinir gan faterion trawma yw hwn, gallai hyn danseilio arbenigedd proffesiynol ymarferwyr, a chamddehongli'r ymyriad.

Yn y pen draw, efallai nad yw ei alw'n ymyriad seicolegol yn mynd i fod o gymorth o ran beth ydyw a sut mae'n gweithio yn ymarferol. Awgrymwn y gallai'r croes-gyfeirio rhwng damcaniaethau cymdeithasol a seicolegol fod o gymorth yma. Gall termau ategol fel dulliau perthynol ac ymddiddanol, yn ogystal â chyd-gynhyrchu a hawliau plant, gael eu hymgorffori wrth ail-fframio'r dull er mwyn adlewyrchu'r ymyriad yn well.

6.3 Ystyriaeth o'r egwyddorion y tu ôl i ddull Gwella

Mae'r rhan isod yn ystyried sut gwnaeth yr egwyddorion yn null Gwella eu cynnwys yn y data o ran gwnaethon nhw lywio ymarfer a'u rhoi ar waith wrth gyflwyno'r ymyriad.

Model Adfer ar ôl Trawma (TRM)

Mae'r data'n awgrymu y cafodd model TRM ei ddefnyddio'n bennaf er mwyn amlygu anghenion penodol plant, a sut gallai'r trawma a brofwyd waethgu'r anghenion hyn a bod yn sail i ymddygiad. Ni wnaeth pob ymarferydd

ddefnyddio TRM er mwyn asesu nac yn uniongyrchol gyda'u cynllun gwaith gyda rhai o'u hachosion.

Mae pwyslais TRM ar sefydlu diogelwch perthynol a sylfaen gadarn cyn rhoi cynllun cefnogi i ddatblygu deilliannau (therapiwtig) ychwanegol, yn cynnig ffordd ddefnyddiol o fframio diben y gwaith un-i-un ac ar sail chwarae, yn ogystal ag er mwyn monitro/cael tystiolaeth o gynnydd parhaus.

Nid oedd yn glir i ba raddau oedd budd Gwella yn gysylltiedig â phwyslais ar drawma yn ystod plentyndod a datblygiad. Yn ôl pob golwg, roedd rhai o'r cyfranogwyr yn ystyried dealltwriaeth well o safbwynt, amgylchiadau neu broblemau presennol plentyn fel gwelliant. Mae traddodiad hir ym maes gwaith cymdeithasol ynghylch gwerth y rhwydwaith ac arweiniad gan nifer o asiantaethau, sydd ar wahân i faterion yn ymwneud â thrawma. Mae modelau eraill yn aml yn gyrru hawliau plant neu ddulliau ymddiddanol, ac fe wnaeth o leiaf un ymarferydd Gwella amlygu pwysigrwydd safbwyntiau nad ydyn nhw'n canolbwyntio ar drawma.

Ffurio achos rhwng nifer o asiantaethau

Roedd bron pawb a gymerodd ran yn y broses o ffurfio achosion yn gwerthfawrogi'r broses hon yn fawr. Roedd nodi trawma a digwyddiadau trawmatig plant unigol yn bwysig er mwyn deall anghenion plant a llywio ymarfer mewn ystod o gyd-destunau er mwyn ymateb mewn ffordd sy'n ystyried materion trawma. Roedd ffurfio achosion hefyd yn fodd o sefydlu pa gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch yr ymrwymadau amser oedd eu hangen ar gyfer teithio i'r cyfarfodydd hyn. Roedd heriau logistaidd hefyd ar gyfer trefnu'r rhain.

Mae'r 'dull ffurfio achosion' yn cael ei lywio gan seicotherapi a damcaniaeth datblygiad plant. Fodd bynnag, mae'n debyg i'r dull 'llinell amser rheoli achosion uwch' a ddefnyddir mewn dulliau cefnogi ar gyfer y Gwasanaethau Troseddau Ieuencid, yn ogystal â llinellau amser digwyddiadau mewn technegau ymchwil cymdeithasol fel teclyn ar gyfer nodi digwyddiadau penodol a beth allai digwyddiadau o'r fath ei olygu i'r rhai sy'n cymryd rhan. O ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â chael gafael ar wasanaethau ymgynghori

arbenigol, yn enwedig os yw'r prosiect yn cael ei ehangu, efallai bod modd addasu'r broses fel nad yw'r broses wedi'i gyfyngu i arbenigedd clinigol. Byddai angen ystyried hyn yn ofalus a gweld ai drwy'r mewnbwn arbenigol hwn y cafwyd rhywfaint o'r gefnogaeth gan weithwyr proffesiynol allanol.

Chwarae ar sail perthynas

Mae'n amlwg bod yr ymyriad yn ymwneud â chwarae perthynol mewn sawl ffordd. Roedd chwarae a natur y rhyngweithio sy'n seiliedig ar weithgareddau yn elfen bwysig o waith yr ymarferwyr. Roedd hyn yn cynnwys nifer o weithgareddau creadigol, cerddoriaeth a thechnegau drama, ar sail diddordebau'r plant unigol yr oedden nhw'n gweithio gyda nhw. Efallai nad yw'r cyfeiriad penodol at Therapi Chwarae o fewn y dull o ddefnydd ac nid yw'r adlewyrchu'r ymatebion amrywiol, unigol ac anghyfarwyddol a ddefnyddir gan ymarferwyr wrth gynnal ymyriad.

Integreiddio â chynlluniau sy'n bodoli eisoes

Roedd hon yn rhan bwysig o'r ymyriad o safbwynt y rhieni, gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol allanol. Pan oedd yr ymyriad yn gweithio'n dda, gall Gwella fod yn bwynt cysylltu defnyddiol i bawb o dan sylw (gan gynnwys teuluoedd) gan roi safbwynt gwybodus ar ran teuluoedd a gweithwyr proffesiynol allanol. Roedd y ffaith nad oedd gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill yn ymwneud ag achosion nifer o deuluoedd erbyn diwedd yr ymyriad yn awgrymu bod yr ymyriad wedi gweithio'n dda ac yn ategu cefnogaeth. Ystyrir yr elfen hon o'r ymyriad yn fwy llawn mewn cysylltiad â deilliant yn adran 7.

Dull PACE ar gyfer y prif ofalwr

Defnyddiodd ymarferwyr ddull PACE mewn nifer o'u hachosion, ond nid ym mhob un – nodwyd ei fod yn llai tebygol o lywio gwaith gyda gofalwyr maeth. Fel y nodwyd yn y dadansoddiad, roedd ymarferwyr yn hyblyg wrth gyflwyno'r dull. Fe ddefnyddion nhw egwyddorion PACE pan oedd hynny'n ddefnyddiol ac yn briodol, hyd yn oed os nad oedd hynny'n uniongyrchol yn eu gwaith gyda rhieni a gofalwyr maeth.

Cefnogi'r plentyn i ddatblygu'n iach

Fe wnaeth bron pawb a gymerodd ran siarad a dangos eu dealltwriaeth o effeithiau profiadau trawmatig ar

brofiadau'r plant. Fe wnaethon nhw hefyd ddangos dealltwriaeth o sut i gydnabod achos a allai fod wedi'i ystyried yn brofiad trawmatig. Beth bynnag fo'r ddamcaniaeth y tu ôl i'r ymyriad, mae'r data yn awgrymu bod y dull cyflwyno wedi gwella dealltwriaeth o effaith trawma ar ymddygiad plant a'u hemosiynau. Nid yw hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â dealltwriaeth o ddatblygiad plentyn a/neu'r ymennydd er mwyn cyflwyno'r ymyriad. Felly, nid yw'n golygu bod angen dealltwriaeth o'r fath na bod angen ei dangos fel deilliant ymysg teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol allanol.

6.4 Prif negeseuon o werthusiad y broses

Yn ogystal â'r ystyriaethau uchod ar gyfer dull Gwella a'r ymyriad yn ymarferol, mae'r canlynol yn rhoi manylion rhagor o negeseuon ac ystyriaethau pwysig o'r gwerthusiad mewn cysylltiad â chynllunio trefniadol a chyflwyno'r prosiect.

Y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r plant, gofalwyr neu rieni

Mae perthynas llawn ymddiriedaeth rhwng yr ymarferydd a'r rhieni, gofalwyr a'r plentyn yn allweddol er mwyn cyflwyno'r ymyriad a chyflawni deilliannau. Nododd y rhieni a'r gofalwyr ddwy rinwedd oedd eu hangen ar weithiwr proffesiynol effeithiol yn eu barn nhw: y gallu i greu perthynas gadarnhaol; a sgiliau ac arbenigedd perthnasol er mwyn deall trawma a rhoi cefnogaeth i blant ac ar sail anghenion y gellir eu rhoi ar waith yn barchus.

Cysondeb a goblygiadau absenoldebau staff

Roedd cysondeb yn y berthynas yn allweddol hefyd wrth ystyried a oedd y prosiect yn llwyddiant neu'n fethiant. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau nad yw'r perthnasoedd a ffurfir yn debyg i drawma a gwrthodiad blaenorol. Fe wnaeth pawb a gymerodd ran nodi bod goblygiadau hynod arwyddocaol os oedd staff yn absennol neu'n gadael. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystyried trawma wrth drefnu'r prosiect i alluogi cysondeb a sefydlogrwydd.

Hyblygrwydd gyda'r ymyriad

Un o brif gryfderau'r dull yw ei bwyslais canolog ar ddeall

anghenion rhieni, plant a gofawyr a chael eu harwain ganddyn nhw, yn ogystal â'i hyblygrwydd i ddefnyddio ystod o dechnegau a dulliau sefydledig (fel TRM, Therapi Chwarae, PACE, ymysg rhai eraill). Fe wnaeth hyn alluogi ymarferwyr i fod yn ymatebol i natur amrywiol y pryderon sy'n ymwneud yn benodol â theuluoedd, a gweithio gyda rhieni, gofawyr a phlant er mwyn nodi'r meysydd cefnogaeth oedd yn bwysig iddyn nhw.

Roedd defnyddio dulliau'n fwy hyblyg ac mewn modd eclectig yn cyd-fynd â bod yn ymatebol i sefyllfaoedd teuluol unigryw. Fe wnaeth yr ymarferwyr a gadwodd yn gaeth at dechneg a chael eu harwain gan ddulliau (yn hytrach nag anghenion), lywio profiad llai positif o'r ymyriad p'un a oedd hynny'n briodol ai peidio.

Roedd angen pwyslais cynyddol ar hyblygrwydd wrth weithio gyda'r gofawyr maeth er mwyn symud i ffwrdd o elfennau o'r dull. Roedd gofawyr maeth yn fwy tebygol o werthfawrogi a dangos cefnogaeth dros weithio'n uniongyrchol gyda phlant ac am waith a ddatblygodd eu dealltwriaeth o ymddygiad ac anghenion y plentyn.

Hyd

Mae'r canfyddiadau yn cefnogi'r cyfnod o 12 mis ar gyfer cyflwyno'r ymyriad. Mae barn y rhai a gymerodd ran a'r profiadau a gofnodwyd o roi'r gorau i'r gwasanaeth ymysg plant a rhieni yn awgrymu bod angen i'r cyfnod hwn o 12 mis fod yn rhan o gefnogaeth sy'n dod i ben yn raddol.

Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod hyd yr ymyriad yn hanfodol ar gyfer llwyddiant di-oed a thymor hir yr ymyriad a'r deilliannau i deuluoedd mewn tair ffordd;

- ➔ yn gyntaf, er mwyn meithrin yr ymddiriedaeth sy'n hanfodol er mwyn hwyluso ymarferwyr i ymgysylltu, asesu'n briodol, a chynllunio cefnogaeth gyda rhieni a phlant.
- ➔ yn ail, hwyluso diweddglo sy'n rhoi elfen o reolaeth i blant a rhieni;
- ➔ yn drydydd, ac mewn cysylltiad â'r ail gam, sicrhau bod yr ymyriad yn dod i ben yn unol ag asesiad o anghenion a sefyllfa'r teuluoedd, yn hytrach na chadw'n gaeth at drefniadau a chyfyngiadau ariannu.

Bydd y graddau y gall y prosiect hwyluso'r tair ystyriaeth hefyd yn pennu i ba raddau y caiff y rhain eu hwyluso ac 'ystyried materion trawma' wrth ei drefnu a'i gyflwyno. Mae'r heriau a'r profiadau negyddol sy'n gysylltiedig â gadael y rhaglen yn codi'r cwestiwn sut mae hyn yn debyg i brofiadau blaenorol y plentyn o golli perthynas, ac a oes ffordd o gynnig elfen o reolaeth i'r plentyn dros y broses o ddod â'r rhaglen i ben.

Llwythi achosion a threfniadau cefnogi hyblyg gyda theuluoedd

Dylid ystyried i ba raddau y gall trefniadau diniwed yr olwg a arweinir gan weithwyr proffesiynol effeithio ar deuluoedd. Mae gwaith perthynol yn cynnwys cydnabod sut gall arferion gwaith eu profi ac effeithio ar blant, rhieni a gofawyr. Gall y rhain helpu i hwyluso ymddiriedaeth a'u hymgyssylltiad â'r ymarferydd.

Roedd y dull hyblyg o weithio gyda rhieni, gofawyr a phlant yn arwyddocaol wrth feithrin y berthynas waith oedd ynddi hi ei hun yn rhan hanfodol o lwyddiant yr ymyriad. Fe wnaeth ystod hynod amrywiol y trefniadau hwyluso bwriadau penodol yr ymyriad.

Mae'n bwysig bod dull sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf yn cael ei fabwysiadu ym mhob elfen o drefn y prosiect os mai ystyried materion trawma a chanolbwyntio ar y plentyn yw'r nod.

Roedd llwythi achosion yr ymarferwyr yn allweddol er mwyn galluogi dull o'r fath. Dywedodd yr ymarferwyr bod eu llwythi achosion yn eu galluogi i fod yn hyblyg gyda'u trefniadau a gyda theuluoedd a phlant mewn sesiynau e.e. ymestyn y sesiynau neu orffen yn gynnar a threfnu i ymweld rywbyrd eto ar ddyddiad mwy addas. Fe wnaeth yr hyblygrwydd helpu i wneud eu hymweliadau wythnosol yn fwy cyson hefyd.

Gweithio ar draws nifer o asiantaethau a'r rhwydwaith sy'n ystyried materion trawma o gwmpas y plentyn

O ystyried bod gan y bartneriaeth ar draws nifer o asiantaethau rôl bwysig yn yr ymyriad, mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod angen creu system gadarn a chydnerth o gydweithio ymysg y gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Mae cydweithio

â'r gwasanaethau cymdeithasol a chyfathrebu'n agored â gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda theuluoedd yn hanfodol er mwyn galluogi'r ymarferwyr i effeithio ar ymarfer a darpariaeth sydd eisoes yn bodoli, yn ogystal â dylanwadu ar y rhwydwaith o gwmpas y plentyn.

Mae nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n chwarae rhan yn llai pwysig o ran llwyddiant yr ymyriad. Y pwynt pwysig yw p'un a yw ymarferwyr yn gallu gweithio gyda'r asiantaethau perthnasol a'r gweithwyr proffesiynol a nodwyd sydd â rôl arwyddocaol ac sy'n gallu dylanwadu ar yr achos.

Dylid ystyried cynnwys aelodau o deulu estynedig y plant a pherthnasoedd pwysig eraill wrth ffurfio achosion neu hwyluso rhwydwaith sy'n ystyried materion trawma. Er mai un yn unig o'r rhai a gymerodd ran yn y gwerthusiad a awgrymodd hyn, mae'n codi pwynt pwysig am bwy sy'n cael eu cydnabod yn rhan o'r rhwydwaith sy'n ymwybodol o faterion trawma o gwmpas y plentyn, a'r tueddiad o fewn ymarfer gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar systemau a pherthnasoedd proffesiynol. Byddai hyn yn adlewyrchu ethos perthynol y dull.

Cefnogaeth, goruchwyliaeth a hyfforddiant

Er nad yw'n anghyffredin i oruchwyliaeth reolaidd fod yn her mewn amgylcheddau prysur ym maes gofal cymdeithasol, mae angen amlygu pwysigrwydd cefnogaeth drwy oruchwyliaeth ar gyfer y dull. Mae gofynion emosïynol yn gysylltiedig â'r rôl. Mae'r dull yn ceisio trawsnewid sy'n cynnwys gwaith monitro, ond mae angen goruchwyliaeth reolaidd a chadw mewn cysylltiad â'r tîm ar gyfer yr elfen o'r dull lle mae angen bod yn gymwys ar draws nifer o ddulliau arbenigol. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried natur gweithio o bell. Mae'r model a gefnogir drwy'r canfyddiadau yn cynnwys goruchwyliaeth unigol reolaidd, system baru ar gyfer cefnogaeth fwy anffurfiol gan gymheiriaid. Mae hefyd yn cynnwys goruchwyliaeth reolaidd i grwpiau, a chyfarfodydd tîm fel dull mwy ffurfiol o gefnogaeth gan gymheiriaid.

Mae arbenigedd clinigol yn hanfodol yn yr ymyriad er mwyn hwyluso dealltwriaeth o drawma ac egluro cynlluniau gwaith yr ymarferwyr. Roedd ymarferwyr yn teimlo'n fwy hyderus yn eu rôl pan oedden nhw'n cael eu goruchwylïo'n glinigol mewn modd oedd yn dibynnu

llai ar fodelau a dulliau ymyrryd penodol, yn hytrach nag ymgynghori ar y technegau a'r modelau penodol sy'n rhan o ddull Gwella yn gyffredinol.

Mae hyblygrwydd yr ymyriad wedi annog diwylliant o chwilio am wybodaeth a sgiliau newydd a chafodd y rhain eu hymgorffori yn y modd hyblyg y cyflwynwyd yr ymyriad. Dylid cefnogi hyn. Gallai ymgorffori amser yng nghynlluniau gwaith yr ymarferwyr fel gweithgaredd myfyriol gefnogi'r amgylchedd dysgu hwn, yn ogystal â'i annog fel defnydd defnyddiol o amser i ymarferwyr.

Mae hyfforddiant am ddulliau Therapi Chwarae, TRM a DDP yn rhan bwysig o ddatblygu sgiliau ymarferwyr Gwella, ond mae lefel yr hyfforddiant a ph'un a oes angen cefnogaeth barhaus ar ymarferwyr yn dibynnu ar i ba raddau mae ymarferwyr yn asesu perthnasedd y dulliau hyn yn eu cynllun gwaith gyda phob plentyn a'u teulu.

Mae hyfforddi a datblygu staff yn elfen bwysig o drefnu'r prosiect. Mae gan hyn oblygiadau o ran trosiant staff ac ymsefydlu; mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r cyd-destun ariannu cyffredinol. Mae'r buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant, a datblygu ystod gyfoethog o sgiliau a dysgu am dechnegau arbenigol, yn ogystal â gwaith creadigol, perthynol ac ar sail chwarae, yn dynodi bod y peilot hwn wedi sefydlu gweithlu tra medrus, a bod colli'r cyfalaf dynol hwn oherwydd problemau sy'n ymwneud â throsiant yn arwyddocaol.

Y cyd-destun ariannu a'r pwysau cysylltiedig

Rydym yn nodi yr achosodd y cyd-destun ehangach hwn o ariannu am gyfnod penodol oblygiadau ar gyfer rhoi'r prosiect ar waith a'i gyflwyno. Nid prosiect Gwella yw'r unig un sy'n wynebu pwysau o ganlyniad i drefniadau ariannu ac adrodd. Fodd bynnag, mae'r rhain i'w nodi oherwydd hynodrwydd prosiectau a ariennir dros gyfnod byr, ond yn fwy felly pan mae'r rhain yn arloesol ac yn gymhleth, yn ceisio rhoi perthynas a phlant yn gyntaf, ac wedi'u dylunio i weithio gyda darpariaeth gyfredol ac asiantaethau allanol, ac angen amser i ennill eu plwyf. Mae rhai effeithiau negyddol ar brofiadau'r plant, y teuluoedd a'r ymarferwyr oherwydd ffactorau trefniadol e.e. gweithwyr yn diweddu perthynas gyda phlentyn yn gynnwys oherwydd trefniadau ariannu a chontractau cyflogaeth tymor byr, yn dangos sut y gall ceisio rhoi

pwyslais ar blant a meithrin perthynas fynd yn groes i ystyriaethau trefniadol. Mae'r ffordd y mae sefydliadau a chomisiynwyr yn ystyried ac yn lliniaru'r effeithiau sy'n deillio o'r mathau hyn o wrthdaro yn her allweddol.

Adran 7. Beth yw deilliannau cynllun ymyrryd Gwella i blant a theuluoedd, a beth yw 'gwerth ychwanegol' y prosiect?

Ceisiodd y pwyslais ar ddeilliannau yn y prosiect ystyried cynnydd yn erbyn deilliannau sefydledig y prosiect a gofnodwyd drwy system ffeiliau achos Barnardo's. Roedd hefyd yn ceisio manylu ar effaith ymyriad Gwella ar ddeilliannau i blant a theuluoedd drwy ddeall ac astudio'r rhain o safbwynt plant, teuluoedd a gofalwyr, y rhai oedd yn gysylltiedig â meysydd allweddol o'u bywyd teuluol yn ogystal ag ymarferwyr Gwella. Yn y rhan hon o'r gwerthusiad, ystyriwyd hefyd pam a sut y gwnaeth Gwella'r newidiadau hyn, ac edrychwyd ar unrhyw gymariaethau â chynlluniau cefnogi neu ymyriadau eraill (os oedd gan defnyddwyr y gwasanaeth brofiad blaenorol o gefnogaeth arall).

7.1 Prif ganfyddiadau: deilliannau

Mae'r deilliannau a gofnodwyd ar gyfer achosion yn rhai positif ar y cyfan. Ym mhob un ond dau achos (N=29), cofnodwyd rhywfaint o welliant ar draws rhai o'r 5 deiliant o leiaf. Mynediad at wasanaethau cefnogi; Mwy o wydnwch; lechyd meddwl a lles gwell; Cartref/amgylchedd gwasanaeth diogel; Lleihau effaith trawma.

Gall rhoi tystiolaeth o newid positif yn erbyn deilliannau cyffredinol fod yn arbennig o anodd ar gyfer ymyriad sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd plentyn ac sy'n cynnig cefnogaeth unigryw wedi'i theilwra. O ran ystyriaethau trefnu a chyflwyno'r prosiect, mae pennu amcanion i'w hadrodd yn eu herbyn ar gyfer ymyriad o'r fath yr un mor heriol.

Roedd pob un o'r 17 o rieni a gofalwyr sy'n perthyn a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn yn unfrydol yn

eu canmoliaeth o'r prosiect a'r newidiadau oedd wedi digwydd o ganlyniad i'r ymyriad. Er bod rhai o'r effeithiau hyn yn ymwneud yn benodol â phlant a theuluoedd, roedd yr effeithiau a'r deilliannau eraill yn ymwneud â'r newid yn eu dealltwriaeth o'u plant, newidiadau mewn arferion magu plant, eu lles ei hunain, a newidiadau yn ymddygiad a lles eu plentyn.

Rhoddodd y plant a gymerodd ran yn yr ymchwil ymatebion positif am yr ymyriad. Dywedodd saith o'r plant yn benodol bod eu hymarferydd wedi eu helpu i deimlo'n dawelach, neu feddwl neu deimlo'n wahanol am bethau, neu roedden nhw'n teimlo'n hapusach ac nad oedd unrhyw beth yn eu poeni mwyach.

Mae'r deilliannau y gwnaeth y rhai a gymerodd ran sôn amdanyh nhw awgrymu'r themâu canlynol a allai fod yn rhan o'r pum deiliant cyfredol wrth gynllunio ar gyfer prosiect yn y dyfodol.

- ➔ Deall trawma yn well - i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol;
- ➔ Newidiadau positif i fywyd teuluol; perthnasoedd gwell mewn teuluoedd;
- ➔ Prosesau pontio sefydledig;
- ➔ Gwelliannau a nodir gan weithwyr proffesiynol allanol: megis cau achosion neu lai o bryderon, ymgysylltu'n bositif ag ysgolion;
- ➔ Mae pwysigrwydd datblygu perthynas llawn ymddiriedaeth rhwng yr ymarferydd a'r rhieni, gofalwyr a'r plentyn er mwyn cyflawni deilliannau yn golygu y gallai'r perthnasoedd hyn fod yn ddeiliant pwysig. Mae hyn arbennig o wir wrth adrodd bob yn dipyn o ystyried sut y gwnaeth pawb amlygu pwysigrwydd y cyfnod 12 mis ar gyfer hwyluso a dangos effaith.

Siaradodd gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill am ddeilliannau positif i deuluoedd yn bennaf, gan ategu'r effeithiau a fynegwyd gan rieni, gofalwyr a phlant a rennir:

- ➔ Credwyd mai'r gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddyn nhw, hyd a chysondeb y cysylltiad, a'r berthynas yr oedd yr ymarferwyr yn gallu ei chreu gyda rhieni a phlant oedd i'w cyfrif am yr effeithiau hyn;

- ➔ Dywedodd dau weithiwr cymdeithasol na chafodd y prosiect ddeilliannau positif i dau deulu, ac y gallai fod wedi cael deilliant negyddol. Fodd bynnag, deallwyd mai'r absenoldebau a'r tarfu yn ystod yr ymyriad a brofwyd gan y teuluoedd o dan sylw oedd i'w cyfrif am hyn;
- ➔ Cyfeiriodd rhai at y llwyth gwaith is hefyd gyda phlentyn penodol o ganlyniad i'r prosiect oherwydd nid oedden nhw mwyach yn gorfod rheoli argyfyngau o hyd. Mae hyn yn awgrymu y gellir gwerthuso arbedion costau yn y dyfodol, ac y gallai'r rhain wrthbwyso costau sy'n gysylltiedig â Gwella.

Roedd y gwaith ffurfio achosion neu lunio llinell amser trawma a gynhaliwyd gyda gweithwyr proffesiynol a gofawyr yn ddull pwysig o sicrhau ymrwymiad y gweithwyr proffesiynol i'r ymyriad a hwyluso dealltwriaeth o ystyr bod yn ymwybodol o faterion trawma:

- ➔ Soniodd pob gweithiwr cymdeithasol fu'n rhan o'r gwerthusiad am ddeilliannau positif o ganlyniad i ffurfio achosion. Dywedon nhw bod hyn wedi cynyddu eu dealltwriaeth o drawma ac wedi arwain at newid mewn meddylfryd naill ai drwy roi persbectif ar achos penodol, neu'n fwy cyffredinol drwy wella eu hymarfer cyffredinol.
- ➔ Fe wnaeth y gweithwyr addysg proffesiynol fu'n rhan o'r cyfarfodydd ffurfio achosion ddweud hefyd bod hyn wedi newid eu dealltwriaeth o fathau penodol o ymddygiad gan blant.
- ➔ Cymysg oedd yr argraff a gafwyd o effeithiau'r prosiect ymysg gofawyr maeth. Fodd bynnag, roedd barn positif gan y rhan fwyaf o'r teuluoedd gofal maeth a gymerodd ran yn y gwerthusiad ynglŷn â ffurfio achosion, gan bwysleisio ei fod wedi eu helpu i ddeall anghenion eu plentyn.

Rhoddodd pawb a gymerodd ran bwyslais amlwg ar y berthynas llawn ymddiriedaeth rhwng yr ymarferydd a'r rhieni, gofawyr a'r plentyn er mwyn cyflawni deilliannau. Dyma rai ffactorau eraill i'w nodi:

- ➔ Gallu ac arbenigedd ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol;
- ➔ Hyd yr ymyriad;

- ➔ Lwythi achosion bach;
- ➔ Annibyniaeth oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol;
- ➔ Yr hyblygrwydd o allu defnyddio gwahanol dechnegau a gweithio ar draws yr ymyriad neu ganolbwyntio ar elfen berthynol benodol ohono;
- ➔ Yr hyblygrwydd o allu gweithio ar draws ffiniau ymarfer e.e. ymylon gofal, adferiadau i rieni, gofal maeth, diogelu plant.

O ystyried pwysigrwydd rôl yr ymarferydd wrth gyflwyno'r prosiectau a'r deilliannau, rydym hefyd yn nodi bod gan cefnogaeth cyfoedion, rheoli llinell a goruchwyliaeth seicolegol rôl bwysig er mwyn cyflwyno'r ymyriad yn llwyddiannus. Rydym yn nodi hefyd pwysigrwydd hwyluso diwylliant dysgu creadigol cefnogol, a mynediad at hyfforddiant.

Er bod y deilliannau wedi'u mynegi'n bendant ac yn arwyddocaol, roedd rhai pryderon ynghylch rheoli'r newidiadau hyn ar ôl i'r ymyriad ddod i ben. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun newidiadau ychwanegol mewn cefnogaeth gysylltiedig, rheoli'r newid a phlant yn colli perthnasoedd pwysig, neu adegau pan oedd plant yn mynd drwy newidiadau eraill (e.e. newid ysgol neu ddigwyddiad teuluol arall o bwys). Nid yw hyn o reidrwydd yn lleihau arwyddocâd neu lwyddiant yr ymyriad. Yn hytrach, mae'n gydnabyddiaeth o gyd-destun cymdeithasol ymyriadau o'r fath a bod angen y gefnogaeth a allai gael ei lleihau'n raddol i deuluoedd yn ystod yr ymyriad.

7.2 Sut mae Gwella wedi 'ychwanegu gwerth' at y system o gwmpas y plentyn?

I gloi, rydym yn ystyried y ffyrdd y gwnaeth Gwella 'ychwanegu gwerth' fel prosiect. Nododd y gwerthusiad dri pheth pwysig y gwnaeth ymyriad Gwella i wella perfformiad y system o gwmpas y plentyn:

- ➔ Yn gyntaf, rhoddodd arweiniad i weithwyr proffesiynol allanol drwy arwain cyfarfod 'ffurfio achosion' gyda phwyslais ar drawma. Cafodd ei gynnal ar y dechrau er mwyn rhannu gwybodaeth

am amgylchiadau'r plentyn a chyfeirio at effaith bosibl trawma ar eu hymddygiad ac anghenion lles bosibl sy'n codi mewn cysylltiad â phrofiadau o drawma o'r fath. Roedd y rhai a gymerodd ran yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd ffurfio achosion hyn yn fawr.

- ➔ Yn ail, fe wnaeth ymarferwyr Gwella gefnogi gwaith parhaus gweithwyr proffesiynol allanol, gan roi arweiniad drwy gysylltiadau a chyfarfodydd. Roedd y gweithwyr proffesiynol allanol oedd â chysylltiad rheolaidd ag ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r cydweithio parhaus hwn, ond nid oedd mor nodedig pan nad oedd llawer o gysylltiad. Nid oedd unrhyw batrwm clir o ran pa weithwyr proffesiynol allanol oedd â'r cysylltiad cryfaf, ond roedd diddordeb ac ymrwymiad y gweithwyr proffesiynol allanol yn ffactor pwysig yn ôl pob golwg. Roedd lleoliad ymarfer Gwella yn ail ffactor yn ôl pob golwg, gan fod ymgysylltiad cryfach os oedd y gwaith wedi'i drefnu i gael ei gynnal mewn lleoliad proffesiynol, fel ysgol. Fe wnaeth dealltwriaeth fanwl ymarferwyr Gwella o'r plentyn a'r teulu o ganlyniad i berthynas barhaus (ac anfygythiol) eu galluogi i roi arweiniad pwysig i gefnogi gwaith gweithwyr proffesiynol allanol.
- ➔ Yn drydydd, ychwanegodd ymarferwyr Gwella werth at y system drwy 'sgîl-ffeithiau' eu gwaith uniongyrchol parhaus gyda phlant a theuluoedd. Er enghraifft, dywedodd y rhieni a groesawodd eu plant yn ôl i fod o dan eu gofal neu oedd ar ymylon gofal bod cydweithio ag ymarferydd Gwella wedi gwella eu hyder a deinameg y teulu, er iddyn nhw fynegi pryder hefyd ynghylch diwedd yr ymyriad gan nad oedd yr ymarfer perthynol hwn ar gael mewn man arall.

Yn bennaf, fe gafodd Gwella ei ddisgrifio gan weithwyr proffesiynol allanol o ran sut y gwnaeth y berthynas rhwng ymarferydd Gwella a'r plentyn neu'r teulu gynyddu eu dealltwriaeth a'u hyder ynghylch y cyd-destun hwn. Nodwyd bod rôl ymarferwyr Gwella yn cyferbynnu'n llwyr â rôl gweithwyr allanol proffesiynol gan mai ychydig iawn o amser a chyfle oedd ganddyn nhw i feithrin perthynas gyda phlentyn neu deulu unigol yn ôl pob golwg. Yn y pen draw, roedd cymysgedd o ffactorau'n

gyfrifol am lwyddiant ymarferwyr Gwella yn y maes hwn: ymateb positif cadarn i'r gwaith cychwynnol o ffurfio achosion gyda phwyslais ar fod yn ymwybodol o faterion trawma; ymarferwyr yn rhoi gwerth ychwanegol drwy gydweithio'n barhaus ar draws nifer o asiantaethau; ac effaith anuniongyrchol ar deuluoedd yn y system.

Fel y trafodwyd uchod, nododd teuluoedd bod eu cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi newid oherwydd newid yn safbwynt y gweithiwr proffesiynol neu'r hyder yn eu gallu i fod yn rhiant o ganlyniad i'r ymyriad. Croesawodd tri theulu eu plant yn ôl gartref i fod o dan eu gofal. Roedden nhw'n cynnal y newid hwn, ac nid oedd unrhyw bryderon pellach ynghylch p'un a oedd angen Gorchymyn Gofal ar gyfer un teulu. Yr ymarferydd gafodd y clod am y deilliannau hyn am eirioli i'r gwasanaethau cymdeithasol ar eu rhan (am eu gallu i fod yn rhiant), neu am gefnogi'r teulu drwy'r newid; ac mewn rhai achosion, disgrifiwyd yr ymyriad fel y rheswm pam y daeth y plant gartref. Disgrifiodd tri theulu sut y caewyd eu hachosion gyda'r gwasanaethau cymdeithas oherwydd newidiadau a ddechreuwyd o ganlyniad i'r ymyriad, ac roedd llawer lai o bryderon a chysylltiad i deulu arall.

Roedd ymarferwyr Gwella mewn sefyllfa unigryw i gyflawni deilliannau ar gyfer plant a theuluoedd oherwydd y ffydd yr oedd gan y plant, y rhieni a'r gofaluwr o dan sylw wedi'i roi yn yr ymarferwyr. Ystyriwyd mai'r hyblygrwydd, y cysondeb a'r cydweithio anghyfarwyddol oedd i'w gweld yn y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r rhieni, plant a gofaluwr oedd y gwahaniaeth rhwng Gwella a mathau eraill o gefnogaeth a gofal cymdeithasol. Yn ôl pob tebyg, mae gan natur gwirfoddol ac annibynnol y gwasanaeth ryw rôl o ran sefydlu natur y berthynas rhwng ymarferwyr a theuluoedd, a'r deilliannau positif a gyflawnwyd. Cafodd natur unigryw'r ymyriad ei ddynodi hefyd gan y gwahaniaethau clir a nodwyd rhwng y gweithgareddau creadigol a ddefnyddiodd yr ymyriad a dulliau tebyg y mae gweithwyr cymdeithasol yn eu defnyddio.

Sylwadau terfynol

Dywedodd yr holl rieni a'r gofalwyr sy'n perthyn fu'n rhan o'r gwerthusiad eu bod yn falch o fod wedi cymryd rhan yn y prosiect. Ar y cyfan, fe wnaeth y gofalwyr maeth hefyd ganmol yr ymyriad, hyd yn oed os oedden nhw'n teimlo nes ymlaen y cafodd eu disgwyliadau cychwynnol eu siomi ac iddyn nhw wrthod parhau i gymryd rhan, neu pan ddywedon nhw nad oedden nhw'n teimlo bod y gwasanaeth yn briodol i'w plentyn maeth a'u hamgylchiadau. Nifer cymharol isel o weithwyr proffesiynol o asiantaethau partner gymerodd ran yn y gwerthusiad, ond roedd bron pawb wnaeth gymryd rhan yn frwdfrydig ynghylch bod yn gysylltiedig â Gwella yn y dyfodol. Nododd y gweithwyr proffesiynol allanol fu'n rhan o'r gwerthusiad bod angen y prosiect, a'i gyfraniad at y gwaith a wneir gyda theuluoedd. Yr unig eithriadau i hyn oedd pan fynegodd gweithwyr proffesiynol bryderon am eu profiadau o'i roi ar waith (e.e. yr amser a gymerodd y broses gyfeirio neu adnoddau fîm Gwella pan oedd staff yn absennol), ond fe bwysleision nhw unwaith eto eu hargraff bositif o'r ymyriad a sut allai fod o fudd i blant a theuluoedd.

Atodiad 1: Deilliannau a gofnodwyd

Mae'r tabl yn cynrychioli gwelliannau fel rhifau positif, gwaethgiad fel rhifau negyddol, a dim newid fel sero¹⁸.

Tabl: Cyfraddau gwelliant rhwng y deilliannau cyntaf ac olaf a gofnodwyd, i bob plentyn

Oed	Gwasanaethau	Gwydnwch	Iechyd Meddwl	Amgylchedd	Trawma	Cyfartaledd
8	0	+1	+2	0	+1	+1
10	+1	+1	+1	0	0	+1
9	0	+1	+1	0	+1	+1
6	0	0	0	0	0	0
7	0	+1	+1	0	0	+0
11	+1	+1	+2	+1	+2	+1
9	+2	+2	+2	0	+2	+2
9	+2	+2	+1	+1	+1	+1
8	0	+3	+2	+2	+3	+2
6	0	+2	+2	+2	+2	+2
8	+1	+2	+1	+1	0	+1
11	-1	+1	0	+2	+2	+1
7	+3	+2	+2	+3	+2	+2
6	+3	+3	+3	+4	+2	+3
10	-3	0	0	-4	+1	-1
9	+1	+2	+1	+1	+2	+1
9	0	+2	+2	+2	+2	+2
7	0	+2	+1	+1	+1	+1
9	Ar goll	+2	+2	+2	+2	+2
11	Ar goll	+2	+2	+1	+2	+2
5	+1	+1	-1	+2	+2	+1
10	+3	+2	+1	0	+1	+1
10	+2	+2	+2	0	+1	+1
8	+4	+4	+4	0	+3	+3
9	+1	+2	+2	+2	+1	+2
7	0	+1	+2	+1	0	+1
11	+1	+2	+2	+2	+1	+2
9	+1	0	+1	+1	+1	+1
11	0	+1	+1	0	+1	+1
7	0	+2	+1	0	+1	+1
8	+2	+2	+3	+3	+3	+3
	+1	+2	+1	+1	+1	+1

¹⁸ Er eglurder, er bod rhifau isel yn well ar raddfa Barnardo's, mae'r tabl yn cynrychioli'r gwahaniaeth fel rhif positif i ddangos gwelliant, a rhif negyddol i ddangos gwaethgiad.